Newid Cadarnhaol mewn Gofal Cymdeithasol
Positive Change in Social Care

Llywodraeth Cymru
Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth
Welsh Government
National Office for Care and Support

# Adroddiad Cyflwr y Genedl 2024 i 2025

© Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54157, ISBN digidol 978-1-83745-383-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cyflwr y Genedl

## Cynnwys


Cyflwr y Genedl ... 1

1. Rhagair y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol ... 4
2. Crynodeb ... 5

Cyd-destun ... 5

Asesu Perfformiad ... 7

Adran ar Wybodaeth Arall ... 8

Casgliad ... 9

3. Yr adroddiad hwn ... 9
4. Adran cyd-destun ... 11

Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 9: adfywio ac ailddiffinio'r syniadau rhyng-gysylltiedig sy'n sail i egwyddorion allweddol y Ddeddf, i ailennyn diddordeb pobl a chadw'r egwyddorion yn ddeinamig? ... 11

Gwasanaethau oedolion ... 11

Gwasanaethau plant ... 13

Arweinyddiaeth ... 15

Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 10: cydbwysedd rhwng rhai o'r tensiynau sy'n croes-dynnu o ran y ddyletswydd i gwrdd â'r ddarpariaeth a bennir yn lleol i ddiwallu anghenion gofal cymdeithasol (fel y'u nodwyd gan yr Asesiadau Poblogaeth ac a ddiffinnir mewn Cynlluniau Ardal), a phwysigrwydd darparu gofal cymdeithasol 'cyffredinol' waeth beth fo'r ddaearyddiaeth sy'n osgoi 'loteri cod post', yn brigo i'r wyneb? ... 17

Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 1: darparu gofal cymdeithasol fel ei fod yn atgyfnerthu ffurfiau tosturiol sy'n canolbwyntio ar berthynas o wasanaethau gofal a chymorth. ... 18

Y Gweithlu ... 18

Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 4: recriwtio a chadw'r gweithlu, er mwyn sicrhau ansawdd, digonolrwydd a chynaliadwyedd y gweithlu? ... 20

Adnoddau ariannol ... 20

Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 3: digonolrwydd, priodoldeb a chynaliadwyedd cyllid fel y gellir cefnogi a gofalu am bawb sydd ag anghenion yn ôl diffiniad y Ddeddf? ... 22

5. Yr adran ar asesu perfformiad. ... 22

Pobl ... 23

Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 7: ystod ac ansawdd y mathau arloesol o gymorth a gyfeirir gan ddinasyddion sydd ar gael o dan y Ddeddf gan gynnwys, ond yn bwysig, heb fod yn gyfyngedig i Daliadau Uniongyrchol? .......... 24

Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 2: y modd y mae asesiadau ar gyfer cymorth gofal cymdeithasol yn cael eu cynnal, pryd, a chan bwy fel eu bod yn gallu sicrhau'r canlyniadau llesiant gorau posibl i unigolion a gofalwyr? .......... 25

Atal .......... 28

Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 9: dealltwriaeth o faterion sylfaenol a ffactorau achosol i lywio strategaethau atal mewn gofal cymdeithasol ochr yn ochr â modelau effeithiol, adnoddau a newidiadau yn hinsawdd y sefydliadau? .......... 32

Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 15: ansawdd, ystod, cysondeb, a gweithredu casglu, dadansoddi a dehongli data er mwyn llywio gwella ansawdd a datblygu gwasanaethau? .......... 33

Partneriaeth ac Integreiddio .......... 34

Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 13: rôl a statws sydd gan fentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol o dan y Ddeddf er mwyn cefnogi unigolion, gofalwyr a chymunedau yn well? .......... 35

Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 8: cefnogaeth i'r unigolion egwyddorol a brwdfrydig hynny sydd mewn sefyllfa i hyrwyddo a helpu i ymgorffori ymarfer cydgynhyrchiol? .......... 37

Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 12: datblygu hinsawdd o arloesedd, creadigrwydd a gwella ansawdd, yn hytrach na dim ond cydymffurfio? .......... 38

Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 14: i ba raddau y mae arferion da, a gwybodaeth o'r system yn 'teithio' ledled Cymru? .......... 39

Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 16: cynllunio poblogaeth a phrosesau ymgysylltu sy'n ymglymu'n ystyrlon â phoblogaethau lleol ynghylch yr anghenion? .......... 40

Lles .......... 42

Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 17: gwybodaeth, cyngor a chymorth sydd y meddiant defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr cyn ac ar fynediad i'r system gofal cymdeithasol, ochr yn ochr â dealltwriaeth o'u hawliau o dan y Ddeddf, fel bod eu disgwyliadau'n cael eu rheoli'n briodol? .......... 44

Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 19: atebion technolegol sy'n galluogi pobl i fyw'n annibynnol, yn enwedig mewn cyd-destun ôl-bandemig o ran pwysau ar y system a phrinder gweithlu? .......... 45

Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 18: gweithio ac ymarfer aml-asiantaethol (gan gynnwys diogelu), ac yn yr arferion o weithio o bell ac o hirbell ar gyfer rhai mathau o ryngweithio? .......... 46

6. Adran ar wybodaeth arall ........ 47
Arolygiadau ac adolygiadau ........ 47
Cwynion a sylwadau ........ 48
Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 5: mecanweithiau llywodraeth leol ac atebolrwydd ar gyfer cyflawni hawliau pobl o dan y Ddeddf heb orfod troi at broses gwyno wrthwynebol? ........ 50
Ffynonellau eraill o wybodaeth ........ 50
Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 6:asiantaeth dinasyddion i sicrhau bod lleisiau'r rhai nad ydyn nhw'n cael eu clywed yn aml, a hefyd yn cael eu gwthio i'r ymylon, yn atseinio, gan arwain at newid sylweddol yn eu profiadau? ........ 52
**Canfyddiadau Arolygiadau – trosolwg thematig** ........ 53
**Cryfderau** ........ 53
**Risgiau** ........ 53
**Camau Gweithredu** ........ 54
Atodiadau ........ 55
Atodiad A – Rhestr termau ........ 55
Atodiad B - Uchafbwyntiau Arolygiadau a Chanfyddiadau Asiantaethau ........ 60
Atodiad C – Ymatebion i gwestiynau prawf y gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ........ 64
Atodiad D – Ansawdd Data a Ffynonellau ........ 76

# 1. Rhagair y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad cyntaf hwn ar Gyflwr y Genedl ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru, a baratowyd gan y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg cynhwysfawr, yn seiliedig ar dystiolaeth, o'r ffordd y mae gofal cymdeithasol yn perfformio'n genedlaethol, ar adeg o bwysau estynedig, galw cynyddol a diwygiadau sylweddol. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn dangos ymroddiad, gwydnwch ac arloesedd ein gweithlu, ein partneriaid ac, yn bwysicaf oll, y bobl a'r cymunedau a wasanaethwn.

Mae Gofal Cymdeithasol yng Nghymru yn chwarae rôl hollbwysig i helpu pobl i fyw'n dda, yn ddiogel a gydag urddas. Mae'n cyffwrdd bywydau plant, oedolion, teuluoedd a gofalwyr bob dydd, ac mae'n ategu gwydnwch ein cymunedau a'r system iechyd a gwasanaeth cyhoeddus ehangach. Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd ddata, canfyddiadau arolygiadau a thystiolaeth awdurdodau lleol i roi darlun cenedlaethol o ble mae'r system yn cyflawni'n dda, ble mae'r pwysau wedi parhau, a ble mae'r angen am ymdrech ar y cyd yn fwyaf dybryd.

Mae'r canfyddiadau yn dangos sector sy'n parhau i ddangos gwydnwch, proffesiynoldeb ac ymrwymiad. Ledled Cymru, mae awdurdodau lleol a'u partneriaid wedi gwneud cynnydd gwirioneddol o ran ymgorffori ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, cryfhau trefniadau diogelu, ehangu dulliau atal a chymorth cynnar, a gweithio'n agosach ar draws ffiniau sefydliadol. Mae egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: llais a rheolaeth, atal, llesiant a chydgynhyrchu; yn gynyddol weladwy mewn ymarfer pob dydd. Mae buddsoddiad i ddatblygu arweinyddiaeth, rhoi'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar waith, a ffocws cynyddol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a darpariaeth y Gymraeg i gyd yn awgrymu sector sy'n ymdrechu i wella canlyniadau i bobl.

Y gweithlu, sydd bellach yn cynnwys tua 83,000 o unigolion, yw asgwrn cefn y system hon, gan ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, hyrwyddo arloesedd, a chynnal yr egwyddorion hyn ar bob lefel.

Mae'r adroddiad hwn nodi'n glir faint yr her a wyneba gofal cymdeithasol. Mae'r galw am ofal a chymorth yn parhau i gynyddu, a ysgogir gan newid demograffig, anghenion cynyddol gymhleth, ac effaith barhaus tlodi ac anghydraddoldeb. Mae heriau'r gweithlu, yn enwedig o ran gwasanaethau plant a rolau arbenigol, yn risg sylweddol o hyd i gynaliadwyedd. Mae pwysau ariannol yn fythol bresennol, ac mae'n anodd i gyllidebau ateb y galw a'r angen i gydbwyso rhwymedigaethau statudol uniongyrchol â buddsoddiad hirdymor mewn atal ac arloesi.

Mae gallu'r sector i ymaddasu a gwella hefyd yn cael ei brofi gan gymhlethdod trefniadau llywodraethu integredig, yr angen am drawsnewid digidol, a'r rheidrwydd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad a chanlyniadau, yn enwedig i gymunedau ethnig leiafrifol, ardaloedd gwledig, a gofalwyr di-dâl. Mae'n rhaid i'r sector hefyd wynebu'r angen am ddata cadarn, rheoli perfformiad yn gyson, a'r gofyniad i sicrhau bod lleisiau pawb – yn enwedig y rhai a glywir yn anfynych – yn cael eu hadlewyrchu mewn gwirionedd wrth lunio a darparu gwasanaethau.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae llawer y gallwn ymfalchïo ynddo. Ledled Cymru, mae Gofal Cymdeithasol yn parhau i ddangos gwydnwch, creadigrwydd ac ymrwymiad dwfn i bobl. Mae cydweithredu cadarn rhwng partneriaid, hyder cynyddol mewn modelau gofal newydd, a ffocws disyfl ar lesiant a diogelu yn rhoi seiliau gwirioneddol dros deimlo'n obeithiol. Mae

ehangu cymorth cynnar a chymorth i deuluoedd, ochr yn ochr â chryfhau ymrwymiad i gydgynhyrchu a phrofiad bywyd, yn adlewyrchu sector sy'n benderfynol o wella canlyniadau ac ymateb yn wahanol i lefelau cynyddol o angen. Mae'r broses o roi'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth ar waith, buddsoddiad estynedig i ddatblygu'r gweithlu, ac ymgais glir tuag at sicrhau cydraddoldeb oll yn arwydd o system nad yw'n aros yn ei hunfan ond sy'n mynd ati i lunio gwell dyfodol ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Fel Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, ystyriaf fod yr adroddiad hwn yn sylfaen dros ddealltwriaeth a deialog genedlaethol fwy cyson. Rwyf yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at y gwaith parhaus o wella gofal cymdeithasol ledled y wlad. Mae eich ymdrechion ar y cyd yn gwneud gwahaniaeth, ond mae'n rhaid inni barhau i wrando, dysgu, ac arloesi. Mae'r heriau yn rhai gwirioneddol, ond hefyd felly ein penderfyniad i sicrhau y gall pawb yng Nghymru gael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i fyw'n dda, gydag urddas ac annibyniaeth.

I bawb sy'n gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol, diolch ichi am eich ymroddiad, eich proffesiynoldeb, a'ch dynoliaeth. Mae eich gwaith yn newid bywydau, yn cryfhau cymunedau, ac yn cynnal y gwerthoedd sy'n ein diffinio fel cenedl.

**Albert Heaney CBE**

**Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru**

# 2. Crynodeb

Mae'r system gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gwasanaethu oedolion a phlant, a ategir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) sy'n diogelu hawliau pobl ac yn sbarduno gwelliant. Mae cyfraniad y sector yn enfawr – yn gymdeithasol ac yn economaidd – gyda thua 83,000 o weithwyr a biliynau yn cael eu buddsoddi bob blwyddyn. Mae gwasanaethau yn amrywio o ofal yn y cartref ac ailalluogi i amddiffyn plant, maethu, a mabwysiadu. Awdurdodau lleol sy'n arwain y gwaith o ddarparu gwasanaethau, gyda chymorth goruchwyliaeth genedlaethol, arolygu, a safonau perfformiad clir.

Mae'r adroddiad hwn ar gyfer 2024-2025 yn casglu tystiolaeth o StatsCymru, Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdodau lleol, cyhoeddiadau cenedlaethol, canfyddiadau arolygiadau, a ffynonellau polisi Llywodraeth Cymru. Mae'n cyd-fynd â Fframwaith Perfformiad a Gwella Cymru, yn enwedig yr elfen sy'n hyrwyddo'r defnydd o dystiolaeth i sbarduno gwelliant. Mae'r strwythur yn adlewyrchu canllawiau statudol ar gyfer adroddiadau blynyddol awdurdodau lleol, sy'n ei gwneud yn haws cyfuno tystiolaeth leol i lunio trosolwg cenedlaethol. Drwy'r adroddiad cyfan, rhoddir yr ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd yn y gwerthusiad o Ddeddf 2014 hefyd.

## Cyd-destun

### Gwasanaethau Oedolion

Mae gofal cymdeithasol oedolion yn rhychwantu gofal cartref, gofal preswyl a nyrsio, ailalluogi, gwasanaethau dydd, byw â chymorth, taliadau uniongyrchol, cymorth i ofalwyr, diogelu, cymorth arbenigol, cyfarpar ac addasiadau, a gwybodaeth, cyngor a chymorth. Mae'r raddfa'n sylweddol: mae dros 40,000 o oedolion yn cael eu cefnogi gan awdurdodau lleol yn y cartref ac mewn lleoliadau gofal, ac mae awdurdodau lleol yn darparu miloedd o

becynnau ailalluogi bob blwyddyn. Yn ychwanegol at hyn, mae cyfran sylweddol o oedolion yn cyllido eu gofal eu hunain, heb ymwneud gan yr awdurdod lleol. Mae buddsoddi mewn cymorth ac ailalluogi yn y cartref yn helpu pobl i ddod yn annibynnol unwaith eto, ac mae capiau ar daliadau a godir a chomisiynu sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn diogelu mynediad ac ansawdd.

### Gwasanaethau Plant

Mae gofal cymdeithasol plant yn canolbwyntio ar gymorth cynnar, cymorth i deuluoedd, amddiffyn plant, plant y mae angen gofal a chymorth arnynt, plant sy'n derbyn gofal, mabwysiadu a sefydlogrwydd, gadael gofal, a chyfiawnder ieuenctid. Mae cyfradd uchel o blant mewn gofal yng Nghymru o gymharu â gwledydd eraill, sy'n adlewyrchu anghenion cymhleth a phrosesau diogelu. Mae awdurdodau lleol yn gweithredu fel rhieni corfforaethol, gan sicrhau iechyd, addysg, a llesiant emosiynol i blant nad ydynt yn gallu byw'n ddiogel gartref. Mae gofal preswyl yn gyfran fach o leoliadau ond mae'n cyfrif am gyfran fawr o'r gwariant, sy'n pwysleisio'r angen am waith ataliol a gofal amgen sy'n seiliedig ar y teulu.

### Arweinyddiaeth

Mae arweinyddiaeth wedi'i hangori gan rolau statudol mewn awdurdodau lleol – Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion a Phlant – a goruchwyliaeth genedlaethol gan Brif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, a gefnogir gan y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth Mae adroddiadau data rheolaidd, arolygu, a phwerau gweinidogol yn rhoi atebolrwydd. Er bod strwythurau yn gyson ledled y wlad, mae gweithredu lleol yn amrywio, gyda rhai awdurdodau lleol yn tynnu sylw at arweinyddiaeth sefydlog a chryfderau partneriaethau, ac eraill yn nodi bylchau o ran uwch-swyddi gwag neu drefniadau interim.

### Y Gweithlu

Mae'r gweithlu yn fawr ac yn barhaol gan mwyaf, gyda menywod yn cyfrif am tua phedwar o bob pum aelod o'r staff ond mae amrywiaeth yn cynyddu'n araf. Mae lefelau swyddi gwag yn dal i fod yn uchel mewn rhai gwasanaethau, yn enwedig rolau arbenigol ym maes plant, sy'n arwain at ddibyniaeth ar staff asiantaeth. Mae awdurdodau lleol yn buddsoddi mewn llwybrau "tyfu ein rhai ein hunain", noddi graddau, rhaglenni arweinyddiaeth, a chymorth llesiant (cwnsela, gwaith hyblyg, rhwydweithiau cymheiriaid). Telir y Cyflog Byw Gwirioneddol i fwyafrif sylweddol o weithwyr gofal cymdeithasol, sy'n helpu i wella amodau talu. Mae aelodau o'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan gydweithwyr a rheolwyr, ond mae pwysau ariannol, llwythi achosion, a chymhlethdod yn dal i achosi straen.

### Adnoddau Ariannol

Daw'r cyllid ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru yn bennaf drwy'r Grant Cynnal Refeniw, a ategir gan grantiau wedi'u targedu (er enghraifft, i gefnogi ailalluogi). Mae gwasanaethau cymdeithasol yn cyfrif am fwy na hanner gwariant refeniw llawer o awdurdodau lleol, sy'n adlewyrchu eu rôl ganolog mewn llesiant cymunedol. Mae'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth – sy'n weithredol ers mis Medi 2024 – yn ei gwneud yn ofynnol i ffioedd gael eu pennu'n deg ac mewn ffordd dryloyw ac agored, sy'n blaenoriaethu caffael moesegol a chontractau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae awdurdodau lleol yn nodi pwysau cyson: galw cynyddol, costau'r gweithlu, a'r her sy'n gysylltiedig â chynnal gwasanaethau ataliol yn ystod cyfnod cyllidol tynn.

## Asesu Perfformiad

Mae'r Fframwaith Perfformiad a Gwella yn nodi wyth safon ansawdd, sydd wedi'u trefnu o dan bedwar grŵp–Pobl, Atal, Partneriaeth ac Integreiddio, a Llesiant–i asesu sut mae gwasanaethau yn gwella bywydau.

### Pobl

Ledled Cymru, mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn dod yn beth arferol. Mae sgyrsiau am "yr hyn sy'n bwysig" yn llywio asesiadau a chynlluniau gofal, sy'n helpu unigolion i fynegi eu blaenoriaethau. Mae taliadau uniongyrchol yn cynnig cymorth hunangyfeiriedig, hyblyg ac mae adnoddau digidol yn gwneud gwybodaeth a gwaith cynllunio yn fwy tryloyw. Mae awdurdodau lleol yn tynnu sylw at gynnydd o ran cyfranogiad ieuenctid, gwasanaethau dwyieithog, ac amcanion cydraddoldeb, ond mae dyfnder gweithgarwch ymgysylltu yn amrywio rhwng ardaloedd. Mae datblygu'r gweithlu–rhaglenni hyfforddiant, goruchwyliaeth, ac arweinyddiaeth–yn sail i ansawdd. Y prif heriau yw recriwtio a chadw staff (yn enwedig mewn rolau arbenigol), darpariaeth eiriolaeth amrywiol, a bylchau yn y data ar berfformiad sy'n ei gwneud yn anodd i dueddiadau gael eu dadansoddi.

Mae awdurdodau lleol yn dweud bod eu blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys ehangu taliadau uniongyrchol, cryfhau trefniadau cydgynhyrchu, safoni adnoddau a hyfforddiant, gwella cymhwysedd diwylliannol, a meithrin arweinyddiaeth a llwybrau gyrfa strwythuredig.

### Atal

Mae atal yn rhan o'r holl wasanaethau oedolion a phlant. Mae hybiau cymunedol, rhaglenni cydlynu ardaloedd lleol, a chanolfannau cymorth cynnar yn cysylltu pobl â chymorth cyn bod problemau yn gwaethygu. Mae gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth yn datrys llawer o gysylltiadau heb ymyriadau ffurfiol. Mae ailalluogi yn cynorthwyo oedolion ar ôl salwch neu ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty, ac mae timau cymorth i deuluoedd yn helpu i gadw plant yn ddiogel o fewn eu teuluoedd. Mae gofalwyr yn ganolog – mae seibiant, hyfforddiant, a grwpiau cymheiriaid yn lliniaru straen ac ynysigrwydd – ond gall cymorth i ofalwyr fod yn anwastad, ac nid yw llawer o ofalwyr di-dâl yn cael asesiadau na chynlluniau o hyd. Mae awdurdodau lleol yn nodi pwysau o ganlyniad i dlodi, tai, ac iechyd meddwl sy'n sbarduno anghenion cymhleth; mae heriau o ran recriwtio yn cyfyngu ar faint rolau ataliol; a gall gwasanaethau ar-lein allgáu rhai oedolion hŷn.

Mae blaenoriaethau awdurdodau lleol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys pennu graddfa addas ar gyfer modelau a arweinir gan y gymuned (gan gynnwys mentrau cymdeithasol a chydweithrediaethau), ehangu cymorth i ofalwyr ifanc, mynd i'r afael ag allgáu digidol, a chryfhau'r gwaith o olrhain canlyniadau i ddangos tystiolaeth o effaith yn yr hirdymor.

### Partneriaeth ac Integreiddio

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn bodoli i gysoni gwaith cynllunio a chomisiynu ar y cyd; mae paneli amlasiantaethol yn cydgysylltu cymorth; ac mae timau wedi'u cydleoli yn dwyn gweithwyr cymdeithasol, staff iechyd, a chymorth i deuluoedd ynghyd mewn lleoliadau cymunedol. Mae Adroddiadau ar Sefydlogrwydd Marchnadoedd ac Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth yn helpu awdurdodau lleol i gynllunio gwasanaethau yn seiliedig ar y galw gwirioneddol a gallu ac adnoddau darparwyr. Mae cydgynhyrchu yn tyfu drwy baneli dinasyddion, fforymau ieuenctid, a grwpiau profiad bywyd. Mae'r heriau yn gyfarwydd: cyfyngiadau ar y gweithlu a chyfyngiadau ariannol, integreiddio digidol darniog rhwng systemau, a dyfnder amrywiol gweithgarwch ymgysylltu y tu hwnt i brosesau statudol.

Mae blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys cyflymu'r broses o rannu cofnodion gofal a TG sy'n rhyngweithredu â'i gilydd, ffurfioli fframweithiau cydgynhyrchu, ymgorffori prisiau teg a chontractau hirdymor o dan y Fframwaith Cenedlaethol, a hyrwyddo nodau datgarboneiddio a bioamrywiaeth mewn ystadau ac wrth gomisiynu.

### Llesiant

Mae trefniadau diogelu yn gadarn ac yn amlasiantaethol, ac mae hyfforddiant a threfniadau llywodraethu a rennir yn cryfhau diogelwch i oedolion a phlant. Mae ymarfer sy'n ystyriol o drawma bellach yn beth cyffredin mewn cymorth cynnar; mae cymorth iechyd meddwl mewn ysgolion a chymunedau yn ehangu; ac mae technoleg gynorthwyol (teleofal, adnoddau digidol) yn cefnogi annibyniaeth yn y cartref fwyfwy. Mae galw a chymhlethdod yn parhau i gynyddu, sy'n rhoi adnoddau o dan bwysau. Gall datrysiadau digidol olygu bod rhai pobl yn cael eu gadael ar ôl; mae darpariaeth iechyd meddwl arbenigol yn dal i fod o dan bwysau; ac mae anghydraddoldebau o ran mynediad gwledig a chanlyniadau i bobl ethnig leiafrifol yn parhau.

Mae blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys ehangu technoleg gynorthwyol â chymorth cyfunol, ehangu gweithgareddau yn y gymuned, cryfhau adnoddau diogelu amlasiantaethol, ac ymgorffori cydgynhyrchu a rhwydweithiau cymheiriaid er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar ofal statudol.

## Adran ar Wybodaeth Arall

### Arolygiadau ac Adolygiadau

Yn 2024-25, nododd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) welliannau o ran arweinyddiaeth, llywodraethu ac ymgysylltu â'r cyhoedd mewn sawl awdurdod lleol, ochr yn ochr ag amseroedd aros mynych a phroblemau recriwtio. Nododd Archwilio Cymru fod angen cynlluniau cliriach i ateb y galw am ofal yn y cartref a ffyrdd o fonitro perfformiad yn gryfach. Roedd arolygiadau ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant yn canmol cydweithio a dealltwriaeth ymarferwyr o rolau, ond nodwyd bod risgiau a oedd yn gysylltiedig ag achosion o brinder staff o fewn y gweithlu a systemau TG anghydnaws. Y neges gyffredinol: mae arolygiadau yn sbarduno dysgu a newid, ond mae'n rhaid i awdurdodau lleol integreiddio canfyddiadau â chynlluniau gwella ag adnoddau.

### Cwynion a Sylwadau

Mae systemau cwyno wedi eu hen sefydlu, ac mae'r rhan fwyaf o gwynion yn cael eu datrys yn anffurfiol ar gam cynnar. Mae themâu cyffredin yn cynnwys oedi o ran cyfathrebu, eglurder prosesau, ac ymddygiad staff – sydd yn aml yn digwydd wrth y "drws ffrynt" yn bennaf lle mae cyfraddau atgyfeirio yn uchel. Mae gwasanaethau eirioli (gan gynnwys cymorth i bobl ifanc) yn helpu unigolion i fynd drwy weithdrefnau ac i gynnal lleisiau a dewis. Mae awdurdodau lleol yn gwella hygyrchedd (deunyddiau dwyieithog a fformatau amgen), ond byddai prosesau adrodd mwy safonol yn ei gwneud yn bosibl i ddysgu gwersi yn well ar lefel genedlaethol. Er mwyn lleihau nifer y cwynion bydd hynny'n dibynnu ar adnoddau cryfach ar gyfer timau derbyn, protocolau cyfathrebu cliriach, a ffyrdd cyson o fwydo gwersi yn ôl wrth ail-lunio gwasanaethau.

### Ffynonellau Eraill o Wybodaeth

Mae gwasanaethau cymdeithasol wedi'u cydblethu'n gynyddol yng nghynlluniau corfforaethol awdurdodau lleol sy'n mynd i'r afael â chynaliadwyedd, cydraddoldeb, ac ymrwymiadau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd yn ennill momentwm – llinellau sylfaen carbon, uwchraddio ynni, fflydoedd gwyrddach, a

digideiddio – ond erys heriau o ran cyllid a data cyson. Mae blaenoriaethau o ran cydraddoldeb yn cael eu llywio gan gynlluniau gweithredu cenedlaethol, gan gynnwys Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, a Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu, ac mae awdurdodau lleol yn buddsoddi mewn cymhwysedd diwylliannol, recriwtio teg, ac ymgysylltu â'r gymuned. Mae strategaethau'r Gymraeg yn ymgorffori'r Cynnig Rhagweithiol er mwyn i bobl allu cael gwasanaethau yn Gymraeg heb ofyn, a gefnogir gan hyfforddiant i staff a chyhoeddiadau dwyieithog.

## Casgliad

Y negeseuon craidd o'r adroddiad hwn:

- Pobl yn gyntaf: Mae llais, dewis, a rheolaeth yn dal i fod yn ganolog. Mae taliadau uniongyrchol, eiriolaeth, ac ymarfer seiliedig ar gryfderau yn ehangu.
- Mae atal yn gweithio: Mae cymorth cynnar, cymorth i deuluoedd, ac ailalluogi yn helpu i atal problemau rhag gwaethygu ac yn helpu pobl i aros yn annibynnol.
- Mae partneriaethau yn bwysig: Mae byrddau iechyd, ysgolion, sefydliadau gwirfoddol, a mentrau cymdeithasol yn hollbwysig o ran cymorth integredig.
- Llesiant a diogelu: Mae trefniadau amlasiantaethol yn cadw pobl yn ddiogel, a cheir defnydd cynyddol o ddulliau sy'n ystyriol o drawma a thechnoleg gynorthwyol.
- Y gweithlu ac adnoddau: Mae'r gweithlu yn ymsefydlogi mewn rhai ardaloedd (contractau mwy parhaol; staff yn cael y Cyflog Byw Gwirioneddol), ond mae swyddi gwag a phwysau i gadw staff yn parhau. Mae setliadau ariannol yn cefnogi gwasanaethau craidd, ond mae'r galw yn parhau i gynyddu'n gyflymach na'r adnoddau.
- Gwella a goruchwyliaeth: Mae gwaith arolygu ac archwilio yn sbarduno gwersi i'w dysgu, gan dynnu sylw at gryfderau a bylchau–yn enwedig ar gyfer gofalwyr di-dâl a chysondeb data.

# 3. Yr adroddiad hwn

Mae gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael ei lywodraethu gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n nodi pedair egwyddor graidd:

- **Llais a Rheolaeth:** Mae unigolion yn ganolog i'w gofal, ac yn gallu lleisio barn ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu llesiant.
- **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar:** Mae gwasanaethau yn anelu at atal anghenion rhag dwysáu drwy gymorth cynnar.
- **Llesiant:** Mae gofal wedi'i lunio i helpu pobl i sicrhau eu canlyniadau llesiant eu hunain.
- **Cydgynhyrchu:** Caiff unigolion eu hannog i gymryd rhan yn y gwaith o lunio a darparu gwasanaethau.

Er mwyn ategu hyn, gwnaeth **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016** ailstrwythuro systemau goruchwylio. Mae **Arolygiaeth Gofal Cymru** (AGC) yn cofrestru darparwyr, yn arolygu gwasanaethau, yn gorfodi safonau, ac mae **Gofal Cymdeithasol Cymru** (GCC) yn rheoleiddio'r gweithlu. Mae gan AGC a GCC ffocws clir ar ddiogelwch a gwelliant parhaus ar gyfer y sector gofal cymdeithasol.

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am y canlynol:

- Deall anghenion y boblogaeth leol, cynllunio, comisiynu, a darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Diogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed mewn partneriaeth â gwasanaethau iechyd a'r heddlu.
- Rheoli cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru a chyfraniadau unigol.
- Teilwra gwasanaethau at anghenion lleol, naill ai drwy ddarpariaeth uniongyrchol neu gomisiynu darparwyr allanol.

Mae Llywodraeth Cymru yn monitro perfformiad gofal cymdeithasol awdurdodau lleol drwy'r **Fframwaith Perfformiad a Gwella**. Mae'r fframwaith yn nodi safonau ansawdd sy'n gweithredu fel meincnodau ar gyfer gofal o ansawdd da sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae i'r fframwaith dair elfen:

1. Mesur Gweithgarwch a Pherfformiad
2. Deall Profiad a Chanlyniadau
3. Defnyddio Tystiolaeth i Sbarduno Gwelliant

Mae'r adroddiad hwn ar Gyflwr y Genedl yn anelu at ddwyn ynghyd ddata a thystiolaeth ymchwil i roi trosolwg cynhwysfawr o'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru. Fel y cyfryw, mae'n cyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru o dan y drydedd elfen o'r Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer y flwyddyn 2024-25. Hwn yw'r adroddiad cyntaf o'i fath a bwriedir iddo fod yn gyhoeddiad blynyddol a baratoir gan y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth.

Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o nifer o ffynonellau:

Data gofal cymdeithasol a gyhoeddir ar StatsCymru

Adroddiadau blynyddol gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol (a gyhoeddir ar wefannau awdurdodau lleol) Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol

Mewnbwn timau polisi Llywodraeth Cymru mewn ymateb i gwestiynau prawf Gwerthusiad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'r adroddiad hwn yn anelu at ddilyn yr un strwythur ag adroddiadau blynyddol gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a bennwyd yn y canllawiau statudol. Mae hyn yn golygu ei bod yn haws dwyn ynghyd dystiolaeth sy'n cael ei chasglu oddi wrth awdurdodau lleol mewn un adroddiad.

Bydd yr adroddiad hwn yn anelu at ateb pob un o'r cwestiynau prawf a ofynnwyd gan y gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Caiff yr atebion hyn eu hychwanegu fel bylchau unigol mewn rhannau gwahanol o'r adroddiad. Mae pob ateb yn cynnwys sut mae awdurdodau lleol, rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r meysydd hyn dros y flwyddyn diwethaf. Mae pob cwestiwn a ofynnir yn dechrau â "Beth sydd wedi'i wneud i wella…".

Dylid nodi bod deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol wedi cael ei ddefnyddio i helpu i baratoi'r adroddiad hwn. Defnyddiodd Llywodraeth Cymru CoPilot, sef adnodd deallusrwydd artiffisial Microsoft, i grynhoi gwybodaeth berthnasol o adroddiadau blynyddol gwasanaethau cymdeithasol y 22 o awdurdodau lleol a'i threfnu'n adrannau perthnasol. Dilyswyd pob cyfeiriad, dyfyniad ac enghraifft yn annibynnol gan y tîm drafftio.

## 4. Adran cyd-destun

Rhoddir gofal cymdeithasol i blant ac oedolion ond mewn ffyrdd gwahanol. Mae gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn system eang sydd â'r nod o gefnogi oedolion y mae angen cymorth arnynt oherwydd oedran, anabledd, salwch, neu ffactorau eraill sy'n eu gwneud yn agored i niwed. Mae awdurdodau lleol yn darparu asesiadau o anghenion gofal i bobl sy'n cael eu hatgyfeirio i gael gofal cymdeithasol. Yn 2023-24, asesodd awdurdodau lleol bron 70,000 o oedolion. O'r rhain, roedd angen cynllun gofal a chymorth ar fwy nag un o bob tri oedolyn. Mae hyn yn golygu, ym mis Mawrth 2024, bod gan 48,519 o oedolion gynllun gofal a chymorth.

Yn 2023, cynhyrchodd y sector gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru £4.6 biliwn mewn gwerth, gan gefnogi 116,700 o swyddi cyfwerth ag amser llawn drwy effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol, a deilliedig. Mae hyn yn cyfrif am tua 6.98% o gyfanswm GYG, sy'n tynnu sylw at ei bwysigrwydd i economi Cymru.

Gofal cymdeithasol plant yng Nghymru yw'r system statudol sy'n diogelu ac yn cefnogi plant na allant fyw'n ddiogel yn y cartref, sy'n gwneud ymyriadau sy'n amrywio o gymorth i deuluoedd i faethu, mabwysiadu, a gofal preswyl o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r raddfa'n sylweddol: ym mis Mawrth 2024, roedd 7,200 o blant a oedd yn derbyn gofal, gyda 1,955 yn mynd i mewn i ofal yn ystod y flwyddyn, yn bennaf o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod. Mae gan Gymru un o'r cyfraddau gofal uchaf yn fyd-eang, lle mae mwy nag 1% o'r holl blant mewn gofal, sef cynnydd o 89% ers 2003.

**Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 9: adfywio ac ailddiffinio'r syniadau rhyng-gysylltiedig sy'n sail i egwyddorion allweddol y Ddeddf, i ailennyn diddordeb pobl a chadw'r egwyddorion yn ddeinamig?**

Mae awdurdodau lleol yn adnewyddu egwyddorion y Ddeddf drwy eu hymgorffori mewn ymarfer, arweinyddiaeth ac ymgysylltu o ddydd i ddydd, gan ddefnyddio dulliau gweithredu a arweinir yn lleol i sicrhau eu bod yn dal i fod yn berthnasol ac yn ddynamig:

- **Pen-y-bont ar Ogwr:** Mae'n defnyddio paneli stori ac adborth ar y "Newid Mwyaf Sylweddol" a ategir gan hyfforddiant seiliedig ar gryfderau, i roi lle canolog i leisiau, dewis a chydgynhyrchu.
- **Torfaen a Chastell-nedd Port Talbot:** Maent yn pwysleisio ymgysylltu rheolaidd a deialog gynhwysol â dinasyddion ac ymarferwyr i adnewyddu egwyddorion y Ddeddf.
- **Wrecsam a Sir Benfro:** Maent yn pwysleisio arweinyddiaeth a chydweithrediad cadarn i ymgorffori egwyddorion a chynnal cyd-ddysgu ac arloesi.

### Gwasanaethau oedolion

Mae gofal cymdeithasol oedolion yn cynnwys sawl elfen allweddol:

**1. Gofal a Chymorth Personol**

- **Gofal Cartref:** Cymorth gyda thasgau byw bob dydd megis ymolchi, gwisgo, paratoi prydau bwyd, a meddyginiaeth. Ar 31 Mawrth 2025, nododd AGC fod 34,186 o

oedolion yn cael eu cefnogi gan wasanaethau gofal cartref. Yn 2023-24, gwariodd awdurdodau lleol £257.0m ar ofal cartref ledled Cymru i oedolion 65 neu'n hŷn.

- **Gofal Preswyl**: Mae cartrefi gofal yn rhoi cymorth 24 awr i'r rhai na allant fyw'n annibynnol. Ar 31 Mawrth 2025, nododd AGC fod 10,376 o oedolion yn cael eu cefnogi gan wasanaethau gofal preswyl (cartref gofal heb nyrsio). Yn 2023-24, gwariodd awdurdodau lleol £286.8m ar ofal preswyl ledled Cymru i oedolion 65 oed neu'n hŷn.
- **Gofal Nyrsio:** Lleoliadau preswyl â nyrsys cymwysedig ar gyfer anghenion iechyd cymhleth. Ar 31 Mawrth 2025, nododd AGC fod 10,094 o oedolion yn cael eu cefnogi gan wasanaethau gofal preswyl (cartref gofal â nyrsio). Yn 2023-24, gwariodd awdurdodau lleol £150.3m ar ofal nyrsio ledled Cymru i oedolion 65 oed neu'n hŷn.

**2. Ailalluogi a Gofal Canolraddol**

- Cymorth dwys, byrdymor sydd â'r nod o helpu pobl i ddod yn annibynnol unwaith eto ar ôl salwch neu ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Mae hyn yn aml yn cynnwys ffisiotherapi, therapi galwedigaethol, a gofal personol.
- Yn 2023-24, darparodd awdurdodau lleol 9,327 o becynnau ailalluogi yng Nghymru (Ailalluogi).

**3. Gwasanaethau Dydd**

- Gweithgareddau yn y gymuned ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, datblygu sgiliau, a seibiant i ofalwyr.
- Maent yn cynnwys canolfannau dydd i oedolion hŷn a'r rhai ag anableddau dysgu. Nododd awdurdodau lleol eu bod wedi darparu gwasanaethau gofal dydd i 4,210 o oedolion yn 2023-24.
- Yn 2023-24, gwariodd awdurdodau lleol £15.6m ar wasanaethau gofal dydd ledled Cymru i oedolion 65 oed neu'n hŷn.

**4. Byw â Chymorth neu Lety â Chymorth**

- Trefniadau llety i oedolion ag anableddau dysgu neu anghenion iechyd meddwl, sy'n eu galluogi i fyw'n annibynnol â chymorth wedi'i deilwra.
- Er y gall oedolion sicrhau eu trefniadau byw â chymorth eu hunain, darparodd awdurdodau lleol lety â chymorth i 3,470 o oedolion yn 2023-24.
- Yn 2023-24, gwariodd awdurdodau lleol £29.8m ar fyw â chymorth neu lety â chymorth ledled Cymru i oedolion 65 oed neu'n hŷn.

**5. Taliadau Uniongyrchol a Chymorth Hunangyfeiriedig**

- Trefniadau ariannol sy'n caniatáu i unigolion reoli eu gofal eu hunain drwy gyflogi cynorthwywyr personol neu brynu gwasanaethau.
- Yn 2023-24, darparodd awdurdodau lleol daliadau uniongyrchol i 6,000 o oedolion, yr oedd y mwyafrif ohonynt yn byw yn eu cartrefi eu hunain.
- Yn 2023-24, gwariodd awdurdodau lleol £30.6m ar fyw â chymorth neu lety â chymorth ledled Cymru i oedolion 65 oed neu'n hŷn.

**6. Cymorth i Ofalwyr**

- Gwasanaethau i ofalwyr di-dâl, gan gynnwys gofal seibiant, cyngor, a chymorth ariannol.
- Darparodd awdurdodau lleol 7,125 o asesiadau o anghenion gofalwyr yn 2023-24 gan nodi bod gan dros chwarter (27.7%) yr oedolion a oedd yn cael gofal a chymorth ofalwr sy'n hysbys i'r awdurdod lleol.

**7. Diogelu ac Amddiffyn**

- Systemau i ddiogelu oedolion sy'n wynebu risg o gamdriniaeth, esgeulustod neu gamfanteisio. Mae'r broses hon yn cynnwys ymholiadau diogelu ac ymyriadau amlasiantaethol.
- Yn 2023-24 cafwyd 18,169 o adroddiadau am oedolion yr amheuwyd eu bod yn wynebu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod, a arweiniodd at 15,037 lle yr ystyriwyd bod angen gwneud ymholiadau a chwblhawyd 5,075 o ymchwiliadau diogelu yn ystod y flwyddyn.

**8. Gwasanaethau Arbenigol**

- Cymorth iechyd meddwl, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, a gofal i bobl ag amhariadau synhwyraidd neu anghenion cymhleth.
- Ym mis Mawrth 2024, o blith y 45,685 o oedolion â chynllun gofal a chymorth, nodwyd bod gan 2,465 (5.4%) amhariad ar y golwg, nodwyd bod gan 1,935 (4.2%) amhariad ar y clyw a nodwyd bod gan 1,690 (3.7%) salwch meddwl hirdymor.
- Yn ogystal â hyn, o blith yr oedolion hynny a oedd wedi cael cynllun gofal a chymorth ym mis Mawrth 2024 cofnodwyd bod ganddynt o leiaf un amhariad, cofnodwyd bod gan 19.9% o oedolion ddau fath o amhariad a chofnodwyd bod gan 5.7% o oedolion dri neu fwy o fathau o amhariad.

**9. Cyfarpar ac Addasiadau**

- Darparu cymhorthion (e.e., canllawiau, offer codi) ac addasiadau i'r cartref er mwyn hybu annibyniaeth.
- Yn 2023-24, gwariodd awdurdodau lleol £10.0m ar fyw â chymorth neu lety â chymorth ledled Cymru i oedolion 65 oed neu'n hŷn.

**10. Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth**

- Y pwynt cyswllt cyntaf i oedolion sy'n ceisio cymorth, a fandadwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Ledled Cymru, yn 2023-24,cafwyd 190,000 o gysylltiadau â gwasanaethau oedolion, gyda dau o bob tri yn gysylltiadau cychwynnol gan bobl nad oeddent eisoes yn cael gofal na chymorth. Aeth dros hanner y cysylltiadau cychwynnol hyn yn eu blaen i gael cyngor neu gymorth.

## Gwasanaethau plant

Mae gofal cymdeithasol plant yng Nghymru yn canolbwyntio ar ddiogelu, cefnogi teuluoedd, a sicrhau hawliau a llesiant plant. Mae'n cynnwys:

**1. Cymorth Cynnar a Chymorth i Deuluoedd**

- **Gwasanaethau Ataliol:** Eu nod yw cefnogi teuluoedd cyn bod problemau'n gwaethygu, gan gynnwys rhaglenni magu plant, canolfannau i deuluoedd, a gwasanaethau cynghori.
- **Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf:** Rhaglenni wedi'u targedu ar gyfer y blynyddoedd cynnar a theuluoedd sy'n agored i niwed. Yn 2023-24, gwariodd awdurdodau lleol £151.6m ar Ganolfannau Plant/Dechrau'n Deg a'r Blynyddoedd Cynnar ledled Cymru i blant a theuluoedd.

**2. Amddiffyn Plant**

- Trefniadau amlasiantaethol i amddiffyn plant rhag camdriniaeth, esgeulustod, neu gamfanteisio. Mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn cydgysylltu trefniadau amddiffyn plant ac adolygiadau o achosion difrifol.
- **Cofrestr Amddiffyn Plant**: Mae plant sy'n wynebu risg sylweddol yn cael eu rhestru a'u monitro. Yn 2023-24, cafodd 3,926 o blant neu bobl ifanc eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant yng Nghymru, yr oedd y mwyafrif ohonynt o dan 10 oed.
- Trafodaethau Strategaeth a Chynadleddau: Prosesau ffurfiol i asesu risg a chynllunio ymyriadau. Yn 2023-24, cafwyd 28,126 o Gyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol ar gyfer plant, yr aeth 17,762 o'r rhain yn eu blaen i fod yn ymholiadau Adran 47 ac wedyn aeth 3,951 yn eu blaen i Gynhadledd Amddiffyn Plant.
- Yn 2023-24, gwariodd awdurdodau lleol £179.8m ar ddiogelu ledled Cymru i blant a phobl ifanc.

**3. Plant y mae angen gofal a chymorth arnynt**

- Cymorth i blant y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i sicrhau llesiant ond nad ydynt yn wynebu risg uniongyrchol. Yn 2023-24, roedd gan 17,515 o blant neu bobl ifanc gynllun gofal a chymorth gan eu hawdurdod lleol.
- Gall y gwasanaethau a ddarperir gynnwys gofal seibiant, cymorth arbenigol ar gyfer anableddau, a chymorth addysgol yn ogystal â mynd i mewn i ofal neu fynd drwy weithdrefnau diogelu.
- Y 2023-24, gwariodd awdurdodau lleol £105.9m ar gymorth i deuluoedd ledled Cymru.

**4. Plant sy'n derbyn gofal**

- Plant na allant fyw'n ddiogel gartref ac sydd wedi'u lleoli mewn:
    - **Gofal Maeth** - 4,875 o blant (31 Mawrth 2024)
    - **Cartrefi Gofal Preswyl -** 885 o blant (31 Mawrth 2024)
    - **Gofal gan berthynas** – 980 o blant (31 Mawrth 2024)
- Mae awdurdodau lleol yn gweithredu fel rhieni corfforaethol, gan sicrhau iechyd, addysg, a llesiant emosiynol.
- Yn 2023-24, gwariodd awdurdodau lleol £554.7m ar wasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ledled Cymru i blant a phobl ifanc, sy'n golygu mai hwn yw'r maes gwariant mwyaf o ran gwasanaethau plant neu wasanaethau oedolion. Er eu bod yn cyfrif am gyfran fach o'r plant sy'n derbyn gofal, roedd cartrefi gofal preswyl yn cyfrif am tua hanner y gwariant ar wasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

**5. Mabwysiadu a Sefydlogrwydd**

- Gwasanaethau i sicrhau cartrefi parhaol i blant na allant ddychwelyd at eu teuluoedd biolegol, gan gynnwys recriwtio a chymorth i rieni sy'n mabwysiadu.
- Yn 2023-24, cafodd 155 o blant eu gosod i'w mabwysiadu gan awdurdodau lleol.

**6. Gadael Gofal**

- Pan fydd plentyn sy'n derbyn gofal yn cyrraedd 16 oed, mae'n dechrau cael cymorth gyda llety, addysg, a chyflogaeth fel un sy'n gadael gofal hyd at 25 oed.
- Ar 31 Mawrth 2024, roedd 4,098 o bobl ifanc yn gadael gofal yng Nghymru. Mae'r mwyafrif o'r rhain yn ymadawyr gofal categori 3, sy'n golygu eu bod rhwng 18 ac 21 oed.

**7. Cyfiawnder Ieuenctid**

- Timau amlasiantaethol yw gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru, sy'n gweithio gyda phlant 10-17 oed sydd wedi troseddu neu sy'n wynebu risg o droseddu.
- Yn 2023-24, gwariodd awdurdodau lleol £21.3m ar wasanaethau cyfiawnder ieuenctid ledled Cymru.

## Arweinyddiaeth

Mae'r gwaith o ddarparu gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael ei lywio gan fframwaith deddfwriaethol cadarn sy'n dirprwyo cyfrifoldeb i awdurdodau lleol. Ond mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arweinyddiaeth a goruchwyliaeth yn genedlaethol er mwyn sicrhau ansawdd, atebolrwydd, a gwelliant parhaus. Wrth wraidd y system hon y mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu, cynllunio, a darparu cymorth i oedolion a phlant, gan gynnwys cyfrifoldebau diogelu. Mae'r awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol a thrwy drefniadau comisiynu â sefydliadau yn y sector preifat a'r sector gwirfoddol, gan ddilyn Codau Ymarfer statudol er mwyn sicrhau cysondeb a chynnal hawliau unigolion ledled y wlad.

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn arwain y broses o weithio mewn partneriaeth ac maent yn darparu trefniadau llywodraethu cydweithredol, gan ymgorffori gweithio mewn partneriaeth ymhlith nifer o bartneriaid, gan gynnwys byrddau iechyd a'r sector gwirfoddol. Eu swyddogaeth graidd yw gwella llesiant y boblogaeth a chanlyniadau gwasanaethau, yn enwedig i bobl ag anghenion cymhleth, drwy gomisiynu ar y cyd a goruchwyliaeth strategol. Mae'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gynnal asesiadau o'r boblogaeth yn rhanbarthol a pharatoi cynlluniau ardal, rhoi adroddiad yn flynyddol i Weinidogion Cymru, a dangos ymgysylltu â dinasyddion a chydgynhyrchu wrth lunio gwasanaethau yn eu rhanbarth.

### Strwythurau Arweinyddiaeth Awdurdodau Lleol

Mae arweinyddiaeth mewn awdurdodau lleol wedi'i strwythuro ar sail rôl statudol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, a benodir o dan adran 144 o'r Ddeddf. Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynghori ar strategaeth, yn sicrhau cydymffurfedd statudol, yn goruchwylio trefniadau diogelu a datblygu'r gweithlu, ac yn integreiddio gofal cymdeithasol ag iechyd, tai a gwasanaethau addysg. Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n atebol yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr ac sy'n

gweithio gydag aelodau etholedig, yn cael ei gefnogi gan Benaethiaid Gwasanaeth ar gyfer Oedolion a Phlant. Mae'r strwythur hwn yn hyrwyddo cydlyniaeth strategol rhwng llwybrau atal a gofal, yn meithrin partneriaethau â'r GIG, y sector tai a'r sector gwirfoddol, ac mae'n cynnal cydymffurfedd rheoleiddiol fel y'i nodwyd yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

## Goruchwyliaeth Genedlaethol a Monitro Perfformiad

Darperir goruchwyliaeth genedlaethol dros ofal cymdeithasol gan Brif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, sy'n cynnig arweinyddiaeth broffesiynol, yn cynghori Gweinidogion, ac yn sbarduno integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gan y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, gyda chymorth y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth (y Swyddfa Genedlaethol), a sefydlwyd yn 2024, dîm i sbarduno gwelliannau ymlaen mewn gofal cymdeithasol i sicrhau'r canlyniadau gorau i'r bobl yng Nghymru yn ogystal â chydgysylltu prosesau datblygu polisi, gwella a thrawsnewid safonau comisiynu, a'r Fframwaith Comisiynu Cenedlaethol, sy'n gosod y sylfeini ar gyfer Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol yn y dyfodol. Mae'r Swyddfa Genedlaethol yn rhoi arweinyddiaeth genedlaethol i wella canlyniadau, mynediad, a phrofiad defnyddwyr ac mae'n dwyn ynghyd awdurdodau lleol, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, a phartneriaid i sbarduno gwelliant, arloesedd, ac integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae monitro perfformiad o ran darparu gofal cymdeithasol yn broses amlweddog sy'n cynnwys adrodd ar ddata, arolygiadau annibynnol, a chraffu cyhoeddus. Mae awdurdodau lleol yn cyflwyno data perfformiad blynyddol i Lywodraeth Cymru, sy'n cwmpasu metrigau allweddol megis asesiadau, amseroldeb diogelu, a chanlyniadau ailalluogi. Cyhoeddir yr wybodaeth hon at ddibenion tryloywder a meincnodi.

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn cynnal arolygiadau ac adolygiadau thematig a rheoleiddiol. Mae canfyddiadau yn cael eu cyhoeddi, ac mae cynlluniau gwella yn ofynnol lle y bo angen. Mae Gweinidogion Cymru yn cadw'r awdurdod i ymyrryd os na chyrhaeddir safonau, a arweinir gan Godau Ymarfer a chanllawiau statudol. Ar y cyd, mae'r systemau hyn yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau diogel, effeithiol, sy'n gwella'n barhaus, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol.

## Amrywiadau o ran Darpariaeth Leol

Er bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn gweithredu o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) – sy'n gofyn am Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a strwythurau llywodraethu a gefnogir – mae'r dull gweithredu yn amrywio'n lleol. Er enghraifft, nododd Cyngor Sir Gaerfyrddin ei fod yn cael budd o arweinyddiaeth sefydlog, sy'n ei alluogi gwaith cynllunio hirdymor a llywodraethu cyson. Disgrifiodd Rhondda Cynon Taf sut mae ei arweinyddiaeth mewn gwasanaethau cymdeithasol yn parhau'n gadarn, a bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhan o Uwch-dîm Arwain Corfforaethol y Cyngor.

**Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 10: cydbwysedd rhwng rhai o'r tensiynau sy'n croes-dynnu o ran y ddyletswydd i gwrdd â'r ddarpariaeth a bennir yn lleol i ddiwallu anghenion gofal cymdeithasol (fel y'u nodwyd gan yr Asesiadau Poblogaeth ac a ddiffinnir mewn Cynlluniau Ardal), a phwysigrwydd darparu gofal cymdeithasol 'cyffredinol' waeth beth fo'r ddaearyddiaeth sy'n osgoi 'loteri cod post', yn brigo i'r wyneb?**

Mae awdurdodau lleol yn cydbwyso darpariaeth sydd wedi'i theilwra'n lleol â safonau cenedlaethol er mwyn sicrhau mynediad teg at ofal cymdeithasol ledled Cymru ac osgoi loteri cod post:

- Mae **Cyngor Sir Conwy a Chyngor Sir Ddinbych** yn gweithredu canolfan asesu *Bwthyn y Ddôl* ar y cyd. Mae'n cynnig asesiadau a mynediad cyson er gwaethaf ffiniau awdurdodau lleol.
- Mae **Cyngor Caerdydd** yn rhoi mynediad cyffredinol drwy ei *Hyb Cyngor, Cymorth ac Amddiffyn i Deuluoedd*, sy'n sicrhau pwyntiau mynediad cyson i wasanaethau plant drwy'r ddinas gyfan.
- Mae'r **holl awdurdodau lleol** drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cysoni darpariaeth leol â safonau gofynnol Cymru gyfan drwy ddefnyddio trefniadau cyllido ar y cyd ac Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth.

## System

### Cryfderau:

Mae cryfderau system gofal cymdeithasol Cymru yn amlwg. Mae rôl y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol yn cynnig manteision i'r sector cyfan ac mae'n ganolog i uchelgais Cymru i greu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol mwy cydlynus, cynaliadwy, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Caiff atebolrwydd clir ei fonitro drwy ymarferion casglu data rheolaidd a thrwy adroddiadau blynyddol gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, sy'n atgyfnerthu sut mae awdurdodau lleol sy'n dangos eu bod yn integreiddio â chynlluniau ehangach awdurdodau lleol yn sicrhau cysondeb â blaenoriaethau corfforaethol. Mae ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth yn cael ei nodi yn adroddiadau Sir Benfro a Chonwy, sy'n canolbwyntio ar gydweithio amlasiantaethol, yn enwedig o ran atal ac ymyrryd yn gynnar. Ceir tystiolaeth glir hefyd o fuddsoddi i ddatblygu arweinyddiaeth drwy raglenni strwythuredig, sy'n cryfhau cynllunio ar gyfer olyniaeth. Mae adroddiadau hefyd yn nodi bod awdurdodau lleol yn dangos y gallu i ymaddasu o ran llywodraethu, gan flaenoriaethu diogelu mewn ymateb i achosion amddiffyn plant difrifol, sy'n adlewyrchu trefniadau rheoli mewn argyfwng cadarn.

**Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 1: darparu gofal cymdeithasol fel ei fod yn atgyfnerthu ffurfiau tosturiol sy'n canolbwyntio ar berthynas o wasanaethau gofal a chymorth.**

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn cryfhau gofal cymdeithasol tosturiol sy'n canolbwyntio ar gydberthnasau drwy ymarfer seiliedig ar gryfderau sy'n ystyriol o drawma ac sy'n cael ei gydgynhyrchu.

- Mae **Pen-y-bont ar Ogwr** yn defnyddio'r model Arwyddion Diogelwch i feithrin ymddiriedaeth a chydweithio â theuluoedd.
- Gelwir **Ynys Môn** yn *"Ynys sy'n Wybodus am Drawma"*, lle mae mwy na 700 o staff a phartneriaid wedi cael hyfforddiant a lle mae goruchwyliaeth fyfyriol wedi'i hymgorffori.
- Mae **Conwy a Chaerdydd** yn buddsoddi mewn cydgynhyrchu a chymorth gan gymheiriaid, felly mae gwasanaethau yn cael eu llunio gan 'yr hyn sy'n bwysig' i bobl.

### System

### Heriau:

Erys heriau sylweddol o hyd o fewn gwasanaethau. Mae ansefydlogrwydd ymhlith y gweithlu, fel y'i gwelir mewn rhai awdurdodau lleol, wedi'i nodweddu gan swyddi gwag yn fynych, yn enwedig swyddi uwch-reolwyr ym maes gwasanaethau plant ac iechyd meddwl, sy'n arwain at ddibyniaeth ar drefniadau dros dro. Mae cyfyngiadau ar adnoddau mewn meysydd yn cyfyngu ar arloesedd a gallant wanhau effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, sydd yn aml yn gorfodi awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar ddyletswyddau statudol ar draul trawsnewid gwasanaethau. Mae awdurdodau lleol yn disgrifio sut mae cymhlethdod trefniadau llywodraethu integredig yn gwneud y broses o sicrhau atebolrwydd clir rhwng rolau awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn heriol. Ceir tensiwn hefyd wrth gydbwyso'r angen i reoli risgiau uniongyrchol â datblygu gwasanaethau yn yr hirdymor.

## Y Gweithlu

### Maint a Chyfansoddiad y Gweithlu

Rydym wedi parhau i weld cynnydd cymharol fach yn y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond nid yw'r twf hwn wedi sicrhau sefydlogrwydd y gweithlu drwy'r system gyfan eto. Amcangyfrifodd Gofal Cymdeithasol Cymru fod y gweithlu gofal cymdeithasol wedi cynyddu o 81,000 yn 2022 i 82,265 yn 2023 ac ymhellach i 82,875 erbyn diwedd 2024, sy'n adlewyrchu gweithgarwch recriwtio estynedig a chwmpas data gwell drwy'r sector cyfan.

Mae lefel y swyddi gwag wedi parhau'n gyson uchel sef 5,323 yn 2022 (tua 9%) ond mae wedi bod yn sefydlog ar 5,346 yn 2024. Er bod y gweithlu wedi parhau i dyfu, mae lefelau'r swyddi gwag wedi aros yn sefydlog ar y cyfan, sy'n awgrymu bod y niferoedd ychwanegol a recriwtiwyd wedi gwrthbwyso'r galw a'r cymhlethdod cynyddol yn bennaf, yn hytrach na lleihau'r pwysau cyffredinol ar y gweithlu. Mae prinder o'r fath yn parhau i roi pwysau ar wasanaethau, yn enwedig gwasanaethau plant a rolau arbenigol, ac yn cyfrannu at ddibyniaeth ar staff asiantaeth mewn rhai meysydd.

Mae trosiant ymhlith y gweithlu yn achos pryder mawr o hyd. Er bod cynnydd net bach yn nifer y staff wedi'i gofnodi yn 2022, mae data arolwg Gofal Cymdeithasol Cymru yn dangos bod risg o hyd o ran cadw staff. Yn 2023, nododd 26% o'r ymatebwyr eu bod yn 'eithaf'

tebygol neu'n debygol 'iawn' o adael o fewn 12 mis, ac roedd 44% yn rhagweld y byddent yn gadael o fewn pum mlynedd. Mae'r tueddiadau hyn wedi parhau yn 2025, sy'n tanlinellu pwysigrwydd camau gweithredu estynedig i wella cyfraddau cadw, camu ymlaen mewn gyrfa a llesiant y gweithlu, fel y'i nodwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae adroddiadau blynyddol gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn rhoi darlun manwl o'r heriau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu a'r ymatebion. Nododd awdurdodau megis Castell-nedd Port Talbot, Ynys Môn, Pen-y-bont ar Ogwr a Sir Gaerfyrddin gyfraddau trosiant cymharol fach (o dan 15% fel arfer) a chyfraddau cadw uchel. Mae awdurdodau lleol wedi dangos tystiolaeth o waith effeithiol ar gynllunio ar gyfer olyniaeth, yn enwedig mewn gwasanaethau statudol a rolau arbenigol. Mae awdurdodau eraill, megis Ceredigion a Chonwy, yn wynebu heriau llymach, gyda chyfraddau swyddi gwag uchel (e.e., 22% yng Ngwasanaethau Plant Conwy) a dibyniaeth ar staff asiantaeth. Cyfeiriwyd at ymgyrch recriwtio ryngwladol ac Academi Gofal Cymdeithasol Pen-y-bont ar Ogwr, ac Academi Gofal Sir Gaerfyrddin fel enghreifftiau o arfer gorau, gan ennill Gwobr Gofal Cymdeithasol Cymru yn 2025 yn y categori 'datblygu ac ysbrydoli'r gweithlu'.

Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth yn awgrymu gweithlu sy'n tyfu ond sy'n anwastad o hyd o ran sefydlogrwydd. Er mwyn cynnal gwasanaethau a darparu gofal cyson o ansawdd uchel ledled Cymru bydd yn hollbwysig mynd i'r afael â lefelau'r swyddi gwag, cryfhau cyfraddau cadw staff a lledaenu arferion effeithiol.

### Sefydlogrwydd Contractiol ac Amrywiaeth

Mae contractau staffio parhaol wedi cynyddu dros amser, yn cynyddu o 78% yn 2021 i 80% yn 2022, a chyrraedd 87.2% erbyn 2024. Mae'r gwelliant hwn yn awgrymu mwy o sefydlogrwydd o ran cyflogaeth yn y sector. Ond yn 2025, roedd 12% o weithwyr gofal cymdeithasol yn nodi eu bod wedi'u cyflogi ar gontract dim oriau, sy'n debyg i 2024.

Mae data ar amrywiaeth yn dangos newid cyfyngedig dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2021, dywedodd 95% o'r gweithlu eu bod yn Wyn, ac erbyn 2024, dywedodd 8.9% eu bod yn dod o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

Mae dosbarthiad o ran rhywedd wedi aros yn sefydlog, lle mae menywod yn cyfrif am 80-82% o'r gweithlu yn gyson. Mae proffilio ar sail oedran yn dangos bod staff awdurdodau lleol yn tueddu i fod yn hŷn na'r rhai mewn gwasanaethau a gomisiynwyd, gydag ychydig dros hanner y rhai sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol dros 45 oed, sy'n gostwng i 40% mewn gwasanaethau a gomisiynwyd.

Mae'r sector yn ymrwymedig i gynhwysiant ac amrywiaeth, gyda chynlluniau gweithredu gwrth-hiliol a LHDTC+, hyfforddiant ar gymhwysedd diwylliannol, a hyrwyddo sgiliau Cymraeg. Mae buddsoddi mewn datblygiad proffesiynol hefyd yn gyffredin. Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau yn nodi bod ganddynt raglenni "tyfu ein rhai ein hunain" sy'n cefnogi staff drwy noddi graddau, prentisiaethau, a secondiadau.

### Llesiant a Chymorth

Er gwaethaf yr heriau, mae llesiant a chymorth i gyflogeion wedi gwella. Yn 2023, roedd 71% o'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan gydweithwyr ac roedd 61% yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwyr. Yn 2025, ac yn debyg i 2024, gwnaeth y rhan fwyaf o weithwyr gofal cymdeithasol sylwadau cadarnhaol am y cymorth sy'n cael ei gynnig, gyda 73% yn dweud eu bod yn teimlo bod yn cael eu helpu a'u cefnogi gan eu rheolwr (70%

yn 2024) ac 81% yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu helpu a'u cefnogi gan eu cydweithwyr (79% yn 2024).

Mae sefydlogrwydd arweinyddiaeth a llesiant staff yn flaenoriaethau i awdurdodau lleol. Mae strategaeth gweithlu Blaenau Gwent yn enghraifft glir o hyn, ac mae Gwynedd yn canolbwyntio ar sefydlogrwydd arweinyddiaeth drwy gyfarfodydd rheolaidd ac adrodd yn uniongyrchol. Ymhlith y mentrau llesiant mae cwnsela, iechyd galwedigaethol, a rhaglenni cymorth i gyflogeion. Caiff gweithgarwch ymgysylltu â'r staff ei feithrin drwy arolygon a rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid. Mae cynllunio ar gyfer olyniaeth yn achos pryder, yn enwedig gyda gweithlu sy'n heneiddio.

Mae straen ariannol yn thema gyffredin i'r gweithlu gofal cymdeithasol, ond mae canlyniadau arolwg "Dweud eich Dweud" Gofal Cymdeithasol Cymru yn awgrymu bod y sefyllfa yn gwella. Yn 2023, nododd 33% ei bod yn eithaf anodd neu'n anodd iawn ymdopi'n ariannol, ond yn 2025, roedd hyn wedi gostwng i 22%. Yn yr un modd, yn 2023, dywedodd 82% fod eu sefyllfa ariannol yn fwy anodd nag oedd yn y flwyddyn flaenorol, ond mae hyn wedi gostwng i 48% erbyn 2025.

Un datblygiad cadarnhaol sylweddol oedd rhoi'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar waith i weithwyr gofal cymdeithasol. Fe'i cyflwynwyd ym mis Ebrill 2022, ac erbyn 2024–25, roedd dros 80% o weithwyr gofal cymdeithasol yn ennill y Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf. Mae hyn yn welliant sylweddol mewn cyfraddau cyflog.

### Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 4: recriwtio a chadw'r gweithlu, er mwyn sicrhau ansawdd, digonolrwydd a chynaliadwyedd y gweithlu?

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn cryfhau cyfraddau recriwtio a chadw'r gweithlu drwy arloesi lleol a diwygiadau cenedlaethol, ond mae lefel gyson o swyddi gwag yn golygu bod cynaliadwyedd yn dal i fod yn fregus:

- **Pen-y-bont ar Ogwr** – Mae prentisiaethau a hyfforddeiaethau "Tyfu ein rhai ein hunain" wedi gwella cyfraddau cadw staff ac wedi lleihau'r defnydd o asiantaethau.
- **Ynys Môn** – Mae hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma, goruchwyliaeth fyfyriol a noddi cymwysterau yn cefnogi llesiant a sefydlogrwydd y gweithlu.
- **Caerdydd** – Mae proses recriwtio ganolog, partneriaethau â phrifysgolion ac Academi Gofalwyr Caerdydd wedi cryfhau cyfraddau recriwtio, gan gynnwys cymorth i'r gweithlu mudol.

## Adnoddau ariannol

Mae strwythur cyllid gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi'i lunio drwy gyfuniad cynnil o gyfarwyddo cenedlaethol a hyblygrwydd lleol, gyda'r nod o hyrwyddo tegwch, ansawdd, a chynaliadwyedd. Wrth wraidd y system hon mae'r Grant Cynnal Refeniw, sydd wedi'i ddyrannu i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru, yn seiliedig ar ffactorau demograffig ac anghenion.

Dyrannwyd £5.72 biliwn i awdurdodau lleol yng Nghymru yn 2024-25 drwy'r Grant Cynnal Refeniw ynghyd ag ardrethi annomestig, fel rhan o setliad ariannol craidd llywodraeth leol, o gymharu â £5.50 biliwn yn 2023-24. Yn 2023-24, gwariodd awdurdodau lleol gyfanswm o £2.85 biliwn ar wasanaethau cymdeithasol (gwariant refeniw cyfredol net), sef 51.8% o gyfanswm eu cyllideb.

Hefyd, cynigir grantiau atodol drwy gydol y flwyddyn i ymdrin â phwysau penodol neu flaenoriaethau polisi, megis y pecyn gwerth £120 miliwn ar gyfer 2024-25, a oedd yn cynnwys cyllid ar gyfer mentrau ailalluogi a chapio taliadau gofal cartref ar £100 yr wythnos. Er mwyn cyllido gwasanaethau mae awdurdodau lleol yn cyfuno'r Grant Cynnal Refeniw, grantiau wedi'u targedu a thaliadau am wasanaethau oedolion sy'n destun prawf modd. Mae cyllid wedi'i dargedu ar gyfer ailalluogi a rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn cefnogi strategaethau ataliol ac yn lleihau dibyniaeth ar ofal sefydliadol.

## Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddiwallu anghenion eu poblogaeth leol a darparu gwasanaethau drwy gymysgedd o wasanaethau a ddarperir yn fewnol ac yn allanol. Daeth y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru i rym ar 1 Medi 2024. Mae'n pennu egwyddorion a safonau cenedlaethol i lywio arferion comisiynu drwy gydol y cylch comisiynu. O ganlyniad, mae Cymru wedi symud i ffwrdd o fodelau a arweinir gan y farchnad, gan groesawu gofal seiliedig ar werthoedd. Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn sbardun i gysondeb, ansawdd a safonau moesegol, sy'n symud i ffwrdd o brisiau i ffocws ar ansawdd a gwerth. Mae awdurdodau lleol yn mabwysiadu comisiynu ar sail canlyniadau fwyfwy, gan gysylltu cyllid â chanlyniadau mesuradwy a gwella atebolrwydd.

Mae'r defnydd o adnoddau digidol a gwaith cynllunio a ysgogir gan ddata yn tyfu, sy'n ei gwneud yn bosibl i sicrhau bod adnoddau yn cyd-fynd â'i gilydd yn well. Mae Sir y Fflint yn enghraifft o hyn, gyda methodolegau fel Care Cubed i gefnogi ffioedd teg gan ddarparwyr a sefydlogrwydd y farchnad. Un o flaenoriaethau Sir y Fflint yn 2025/6 yw "Datblygu pris teg am ofal drwy ddefnyddio system Care Cubed".

Mae'r dull gweithredu yng Nghymru yn dangos cryfderau yn ei ymrwymiad i degwch, gofal holistaidd, a chanlyniadau hirdymor. Mae capiau ar daliadau a godir yn diogelu unigolion y mae angen gofal a chymorth arnynt, ac mae cod ymarfer statudol y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yn lleihau anghysondebau daearyddol. Mae'r cydbwysedd rhwng safonau cenedlaethol a hyblygrwydd lleol yn parhau'n ganolog i ddarparu gwasanaethau.

## Heriau Systemig

Er gwaethaf ei chryfderau, mae'r system yn wynebu heriau cyson. Yn 2023, nododd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru) fod awdurdodau lleol yn pryderu'n fawr am y pwysau presennol a wynebir ym maes gofal cymdeithasol. Nododd yr adroddiad fod y galw am wasanaethau yn cynyddu, ac nad yw cyllidebau yn cynyddu yn unol â'r galw.

> *"Yn ystod y dyfodol rhagweladwy, bydd yn ofynnol i'r Cyngor leihau gwariant cyllidebol yn sylweddol gan nad ydym yn gallu cadw i fyny â'r pwysau cost a achosir gan alw cynyddol a chynnydd mewn prisiau. Bydd y Gyfarwyddiaeth yn parhau i gynnal adolygiadau gwasanaeth i adnabod meysydd lle gellir gwireddu effeithlonrwydd gan arwain at ostyngiad mewn gwariant neu gynnydd mewn cynhyrchu incwm fel y bo'n briodol." (Bro Morgannwg)*

Er y gall ymreolaeth leol fod yn fuddiol, weithiau mae'n arwain at brosesau dyrannu darniog a gwasanaethau o ansawdd amrywiol. Drwy roi'r Fframwaith Comisiynu Cenedlaethol newydd ar waith y nod yw sicrhau cysondeb rhwng arferion comisiynu awdurdodau lleol. Mae'r Swyddfa Genedlaethol yn rhoi cymorth i gomisiynwyr lleol fel rhan o'r broses o'i roi ar waith, i'w helpu i weithio tuag at gyrraedd y safonau hyn. Mae marchnad ddarniog yn bryder arall, o ystyried sefyllfa flaenllaw darparwyr annibynnol a darparwyr o'r trydydd sector.

Yn yr un modd, mae'r dulliau o ddyrannu adnoddau yn amrywio, ond mae pob awdurdod lleol yn gweithredu o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan ddefnyddio cyllidebau craidd, grantiau ac, yn achlysurol, drefniadau cyfun â byrddau iechyd. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys ffocws Ceredigion ar gynaliadwyedd, comisiynu rhanbarthol a strategaethau prisio teg yn y gogledd, a buddsoddiad Caerdydd mewn gofal ataliol. Mae'r gwahaniaeth rhwng gwasanaethau plant ac oedolion yn ychwanegu rhagor o gymhlethdod, gyda rhai awdurdodau lleol yn nodi diffygion mewn gofal plant ac eraill yn cael budd o grantiau ychwanegol mewn gwasanaethau oedolion.

Ym mhob rhan o ofal cymdeithasol, cydnabyddir bod atal yn fuddsoddiad hollbwysig yn iechyd a llesiant pobl. Fodd bynnag, mae buddsoddiad o'r fath yn tynnu'n groes i rwymedigaethau statudol uniongyrchol. Er gwaethaf y pwysau hyn, mae gwasanaethau ataliol yn cael eu blaenoriaethu mewn ardaloedd fel Sir Benfro ac Ynys Môn, gyda buddsoddiad ymlaen llaw mewn ymyriadau cynnar sydd â'r nod o reoli'r galw yn yr hirdymor. Mae awdurdodau lleol fel Pen-y-bont ar Ogwr a Sir y Fflint yn buddsoddi mewn trawsnewidiad digidol i foderneiddio'r ffordd y darperir gwasanaethau, ond mae'r mentrau hyn yn gofyn am gryn dipyn o gyfalaf.

**Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 3: digonolrwydd, priodoldeb a chynaliadwyedd cyllid fel y gellir cefnogi a gofalu am bawb sydd ag anghenion yn ôl diffiniad y Ddeddf?**

Mae awdurdodau lleol yn cryfhau digonolrwydd a chynaliadwyedd cyllid gofal cymdeithasol drwy waith cynllunio gwell, buddsoddiadau sy'n canolbwynto ar atal a chomisiynu cydweithredol, ond mae'r galw a'r costau cynyddol yn parhau i brofi fforddiadwyedd yn yr hirdymor:

- Mae **Ceredigion** wedi mabwysiadu prosesau cynllunio ariannol integredig a monitro cyllidebol cadarn i sicrhau bod adnoddau yn cyd-fynd yn well â phwysau demograffig a dyletswyddau statudol o dan y Ddeddf.
- Mae **Caerdydd** yn rhoi Cynllun Datblygu Gwasanaethau Oedolion pum mlynedd ar waith sy'n blaenoriaethu gweithgarwch atal a gofal "o'r maint cywir" i sicrhau arbedion a chynnal ansawdd gwasanaethau ar yr un pryd.
- Mae **Sir y Fflint** a **Bro Morgannwg** yn defnyddio cyllidebau cyfun a chomisiynu rhanbarthol i hyrwyddo cyllid cynaliadwy, teg a lleihau anghysondebau o ran ffioedd gofal.

## 5. Yr adran ar asesu perfformiad.

Mae'r adran hon yn ceisio ymdrin â'r wyth safon ansawdd o dan bedair adran: Pobl, Atal, Partneriaeth ac Integreiddio a Llesiant. Cyfeirir at y safonau hyn ym mhob un o'r pedair adran hyn. Mae'r asesiad hwn yn cael ei gwblhau ar gyfer gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion ac mae'n disgrifio sut mae awdurdodau lleol wedi anelu at gyrraedd y safonau hyn drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r dull hunanasesu yn gofyn i awdurdodau lleol ymdrin â'r pedwar cwestiwn canlynol:

- Beth rydym yn ei wybod am ansawdd ac effaith yr hyn rydym yn ei wneud?

- Sut rydym yn gwybod? Er enghraifft, pa dystiolaeth o ymchwil, ymgysylltu a'r metrigau rydym yn ei defnyddio i lywio'r asesiad hwn?
- Beth rydym yn ei wneud yn dda a sut y gallwn wneud yn well? Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer gwelliant, yn enwedig dros y flwyddyn sydd i ddod?
- Pa gynnydd a wnaethom o ran y meysydd i'w gwella a nodwyd yn adroddiad y flwyddyn diwethaf? Beth yw'r gwahaniaeth a wnaethom?

## Pobl

### Safonau Ansawdd:

*"Mae pobl yn bartneriaid cyfartal sydd â **llais**, **dewis** a **rheolaeth** dros eu bywydau ac yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt."*

*"Mae **arweinyddiaeth** effeithiol yn amlwg ar bob lefel, gyda gweithlu cymwysedig a hynod fedrus yn cael ei gefnogi i weithio tuag at weledigaeth a rennir."*

### Beth sy'n digwydd mewn awdurdodau lleol.

Ar sail dadansoddiad o adroddiadau blynyddol gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a'r data cenedlaethol sydd ar gael, y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd yw:

- Mae awdurdodau lleol yn nodi eu bod yn parhau i ymgorffori dulliau s'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy sgyrsiau am "yr hyn sy'n bwysig" a modelau ymarfer seiliedig ar gryfderau. Mae'r sgyrsiau hyn bellach yn safonol wrth gynllunio gofal, gan sicrhau bod unigolion yn mynegi eu blaenoriaethu ac yn llywio eu cymorth.
- Mae rhai awdurdodau lleol wedi ceisio cefnogi dewis a rheolaeth wrth ddarparu gwasanaeth drwy ddefnyddio "micro-fentrau", megis Rhondda Cynon Taf, sy'n disgrifio sefydlu 34 o "ficro-fentrau" dros y ddwy flynedd diwethaf i gefnogi ei boblogaeth sy'n heneiddio.
- Mae awdurdodau lleol wedi ehangu fforymau cyfranogi, cynghorau ieuenctid, a systemau adborth i gofnodi'r hyn sydd bwysicaf i blant a theuluoedd, megis Castell-nedd Port Talbot, sy'n defnyddio dulliau'r Newid Mwyaf Sylweddol i ddod i ddeall profiadau pobl ifanc sy'n defnyddio eu gwasanaethau.
- Mae dewis dros wasanaethau yn cael ei gefnogi'n fwyfwy drwy daliadau uniongyrchol. Yn 2023-24, cefnogwyd 6,217 o oedolion drwy daliad uniongyrchol, o gymharu â 5,295 yn 2020/21.

*"Gall Taliadau Uniongyrchol hyrwyddo dewis; llais, rheolaeth a hyblygrwydd trwy alluogi a grymuso unigolion i gyflawni canlyniadau lles fel y cytunwyd yn yr Asesiad Unigol." (Bro Morgannwg)*

- Mae pwyslais mawr ar wasanaethau ar ffiniau gofal, timau cymorth i deuluoedd, a dulliau gweithredu sy'n ystyriol o drawma er mwyn lleihau'r angen am ymyriad statudol.
- Mae cymorth i gymunedau amrywiol yn amlwg mewn ymrwymiadau i wasanaethau yn Gymraeg, amcanion cydraddoldeb, a chymhwysedd diwylliannol (gweler Ffynonellau eraill o wybodaeth).

"*Ein pwrpas yw sicrhau bod pobl yn ganolog i'w gofal eu hunain. Ein disgwyliad yw bod llais pob preswylydd yn cael ei glywed gan ein gwasanaeth ac y gwrandewir arno; gall pobl siarad drostynt hwy eu hunain ac mae ganddynt reolaeth dros unrhyw benderfyniadau a wneir.*" *(Abertawe)*

- Mae awdurdodau lleol yn pwysleisio bod hyfforddi a goruchwylio'r gweithlu yn hollbwysig er mwyn darparu gofal o ansawdd uchel. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys cyflwyno hyfforddiant ar ymarfer seiliedig ar gryfderau, hyfforddiant gloywi ar ddiogelu, a rhaglenni datblygu arweinyddiaeth. Mae fframweithiau goruchwylio yn cael eu cryfhau i sicrhau ymarfer myfyriol a llesiant staff.
- Mae arweinyddiaeth effeithiol yn dal i fod yn flaenoriaeth, gyda sawl awdurdod lleol yn ailstrwythuro timau rheoli i wella atebolrwydd a chymorth.
- Mae awdurdodau lleol yn nodi buddsoddiad mewn rhaglenni arweinyddiaeth a strategaethau'r gweithlu, gan gynnwys ymgyrchoedd recriwtio a mentrau cadw staff. Mae llawer wedi cyflwyno rolau newydd (e.e., arweinwyr tîm, arweinwyr ymarfer) i gryfhau goruchwyliaeth a chymorth.
- Mae sawl awdurdod wedi mabwysiadu adnoddau digidol ar gyfer cynllunio gofal a chyfathrebu, gyda'r nod o wneud prosesau yn fwy tryloyw a chynhwysol.

**Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 7: ystod ac ansawdd y mathau arloesol o gymorth a gyfeirir gan ddinasyddion sydd ar gael o dan y Ddeddf gan gynnwys, ond yn bwysig, heb fod yn gyfyngedig i Daliadau Uniongyrchol?**

Mae awdurdodau lleol yn ehangu cymorth a gyfarwyddir gan ddinasyddion y tu hwnt i Dalliadau Uniongyrchol, yn cynnig opsiynau mwy personol, hyblyg sy'n cael eu cydgynhyrchu sy'n cryfhau dewis a rheolaeth.

- **Caerdydd:** Mae'r rhaglen microfentrau a'r Porth Eirioli digidol yn galluogi cymorth wedi'i deilwra a dewis o gynorthwyydd personol sy'n ddiwylliannol briodol.
- **Conwy:** Mae Taliadau Uniongyrchol Ychwanegol yn cynnwys dewisiadau amgen yn lle gofal preswyl, taliadau anuniongyrchol a reolir gan y cyngor, a chymorth i ofalwyr hunangyflogedig a micro-asiantaethau.
- **Ledled awdurdodau:** Mae cynlluniau cymorth a gydgynhyrchir, cyllidebau personol a llwyfannau digidol yn cael eu defnyddio i sicrhau mwy o dryloywder, hyblygrwydd a rheolaeth i ddinasyddion.

## Pobl

### Cryfderau:

- Mae taliadau uniongyrchol a modelau comisiynu hyblyg yn galluogi unigolion i deilwra cymorth. Mae adnoddau ymgysylltu digidol a gwasanaethau eirioli yn gwella ymreolaeth ymhellach.
- Mae buddsoddi mewn cymorth cynnar a chymorth i deuluoedd yn lleihau'r broses o uwchgyfeirio at wasanaethau statudol mewn sawl rhanbarth.
- Maent yn cael eu hymgorffori'n eang mewn prosesau asesu, gan sicrhau bod cynlluniau gofal yn adlewyrchu blaenoriaethau personol yn hytrach na phenderfyniadau a arweinir gan wasanaethau.
- Mae awdurdodau lleol yn dangos cynnydd clir o ran cynnwys plant a theuluoedd wrth lunio gwasanaethau. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys ymgyngoriadau strwythuredig ac adnoddau cynllunio sy'n ystyriol o blant.

- Mae strategaethau'r Gymraeg a chynlluniau cydraddoldeb yn ategu ymdrechion i gefnogi cymunedau amrywiol. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu dogfennau dwyieithog ac mae rhai hefyd yn darparu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

*"Rydym yn parhau i gefnogi ac annog y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. I'r perwyl hwnnw, rydym yn monitro sgiliau Cymraeg, fel y gallwn gynnig cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg lle y gofynnir am hynny." (Torfaen)*

- Mae hyfforddiant mewn ymarfer seiliedig ar gryfderau a diogelu yn gyffredin, ochr yn ochr â goruchwyliaeth strwythuredig i gynnal ansawdd.
- Mae ymarferion ailstrwythuro a fframweithiau monitro perfformiad yn dangos trefniadau llywodraethu cadarn a gweledigaeth a rennir.
- Mae cyfarwyddwyr ac uwch-reolwyr yn mynd ati i ymgysylltu â thimau rheng flaen a rhanddeiliaid cymunedol, gan atgyfnerthu gweledigaeth a rennir ar gyfer gwasanaethau plant.
- Mae adroddiadau gan Gyngor Ynys Môn a Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn nodi trosiant cymharol isel a chyfraddau cadw staff cadarn, a gefnogir gan fentrau llesiant a threfniadau gweithio hyblyg.Ar Ynys Môn, cafwyd cyfraddau cadw staff o 96% mewn gwasanaethau oedolion (gan gynnwys yr Uned Ddarparu). Mae cyfradd trosiant y Gwasanaethau Pant a Theuluoedd yn debyg, sef 6% gyda chyfradd cadw staff o 97%.

**Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 2: y modd y mae asesiadau ar gyfer cymorth gofal cymdeithasol yn cael eu cynnal, pryd, a chan bwy fel eu bod yn gallu sicrhau'r canlyniadau llesiant gorau posibl i unigolion a gofalwyr?**

Mae asesiadau gofal cymdeithasol yng Nghymru yn dod yn fwy amserol ac amlddisgyblaethol ac yn canolbwyntio mwy ar yr unigolyn, gan wella canlyniadau drwy wneud penderfyniadau seiliedig ar grydderau yn gynharach:

- **Ynys Môn** Mae hyfforddiant sy'n seiliedig ar gydberthnasau ac yn ystyriol o drawma i fwy na 700 o staff yn cefnogi asesiadau mwy empathetig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- **Conwy:** Mae Timau Adnoddau Cymunedol amlddisgyblaethol yn cynnal asesiadau holistaidd ac yn cefnogi proses o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn amserol.
- **Sir Benfro:** Mae asesiadau a gydgynhyrchid yn ymgorffori sgyrsiau am "yr hyn sy'n bwysig" i lunio canlyniadau a chymorth sy'n canolbwyntio ar atal.

## Pobl:

## Heriau

- Mae heriau o ran recriwtio a chadw staff yn parhau, sy'n cyfyngu ar y gallu i gynnal gweithlu "hyfedr, cymwysedig iawn". Er gwaethaf y cynnydd, mae'r achosion o brinder staff o fewn y gweithlu yn ddybryd mewn rhai awdurdodau, yn enwedig mewn rolau arbenigol megis gweithwyr cymdeithasol amddiffyn plant.

- Er y cyfeirir yn fynych at sgyrsiau am “yr hyn sy’n bwysig”, mae dyfnder a chysondeb y broses o gynnal y sgyrsiau hyn yn amrywio rhwng awdurdodau.
- Er bod strwythurau ymgysylltu yn bodoli, mae rhai adroddiadau yn cydnabod amrywioldeb o ran sut mae barn plant yn dylanwadu ar benderfyniadau terfynol.
- Er bod y ddarpariaeth yn Gymraeg yn gwella, nodir ymgysylltu â chymunedau ethnig leiafrifol yn llai cyson.
- Er gwaethaf nodi bod 3,059 o oedolion y mae angen eiriolwr annibynnol arnynt, dim ond 1,684 (55%) ohonynt a gafodd un. Yn yr un modd, gwnaed 3,051 o “gynigion rhagweithiol” o eiriolaeth i blant, pobl ifanc a theuluoedd; arweiniodd hyn at ddarparu eiriolwr mewn 44.2% o achosion. Fodd bynnag, mae’n bosibl mai’r rheswm dros hyn yw bod y cynnig wedi cael ei wrthod.
- Mae rhai awdurdodau lleol yn cael anawsterau gyda data perfformiad anghyflawn, sy’n effeithio ar y gwaith o ddadansoddi tueddiadau a chynllunio gwasanaethau.
- Mae galw cynyddol ac achosion cynyddol gymhleth yn parhau i roi pwysau ar adnoddau, gan gyfyngu ar y gallu i roi cymorth cwbl bersonol.
- Mae awdurdodau llai o faint yn sôn am anawsterau i greu cynlluniau olyniaeth cadarn a chynnal parhad arweinyddiaeth.

## Blaenoriaethau Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol ar gyfer y Flwyddyn i Ddod

Fel rhan o adroddiadau blynyddol gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, mae gofyniad ar bob adran gwasanaethau cymdeithasol i fyfyrio ar ei blaenoriaethu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Ymhlith yr awdurdodau lleol, dyma’r themâu cyffredin:

- Ehangu cynlluniau taliadau uniongyrchol a llwyfannau digidol ar gyfer opsiynau hunanwasanaethu.

"*Fel Awdurdod rydym wedi ymrwymo i ehangu Taliadau Uniongyrchol ymhellach. Ein nod yw cynyddu nifer yr unigolion sy’n cyrchu Taliadau Uniongyrchol i recriwtio mwy o Gynorthwywyr Personol, a’r llynedd fe wnaethom gynyddu’r gyfradd Taliadau Uniongyrchol fesul awr a’r cyflog awr Cynorthwyydd Personol gyda’r nod o wella’r rhain yn ystod 26/27.*" *(Bro Morgannwg)*

- Symud y tu hwnt i ymgynghori i gydgynhyrchu gwirioneddol, gan sicrhau bod lleisiau plant yn llywio’r ffordd y caiff gwasanaethau eu llunio a’u darparu.
- Safoni adnoddau a hyfforddiant i sicrhau cysondeb rhwng timau asesu.
- Gwella cymhwysedd diwylliannol drwy hyfforddiant wedi’i dargedu ac ymgysylltu â chymunedau lleiafrifol. parhau i ddatblygu sgiliau Cymraeg. Mae sawl awdurdod lleol yn bwriadu integreiddio hyfforddiant ar gymhwysedd diwylliannol ac amcanion cydraddoldeb yn eu gweithgarwch i ddatblygu’r gweithlu.
- Ymateb i heriau recriwtio drwy lwybrau gyrfa, datblygu arweinyddiaeth, a mentrau llesiant.
- Ehangu cynlluniau “tyfu eich rhai eich hun”, gwella llwybrau hyfforddiant, a gwella ymgyrchoedd recriwtio i ddenu ymgeiswyr amrywiol.
- Datblygu rhaglenni arweinyddiaeth strwythuredig a chynlluniau mentora i gynnal prosesau rheoli effeithiol ar bob lefel.
- Ymgorffori strwythurau newydd a gwella’r ffordd y caiff perfformiad ei fonitro er mwyn dangos effaith ar lesiant ac annibyniaeth i blant a theuluoedd.

## Myfyrdodau ar Flaenoriaethau Gwasanaethau Cymdeithasol y Flwyddyn Diwethaf

Gofynnir hefyd i awdurdodau lleol roi gwybod am gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a'r amcanion a bennwyd ganddynt y flwyddyn diwethaf. Ledled Cymru, mae'r adroddiadau yn nodi:

- Mae'r cynnydd n amlwg o ran ymgorffori dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gwella strwythurau arweinyddiaeth.
- Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi hyrwyddo dulliau ymgysylltu, ond mae'r broses o droi adborth yn newidiadau i wasanaethau yn parhau o hyd.
- Mae sgyrsiau am "yr hyn sy'n bwysig" bellach yn beth arferol yn y rhan fwyaf o awdurdodau, ac mae nifer y rhai sy'n dewis cael taliadau uniongyrchol wedi cynyddu.
- Mae hyfforddiant i'r gweithlu wedi ehangu, ac mae mentrau megis noddi graddau mewn gwaith cymdeithasol a rhaglenni llesiant wedi gwella cyfraddau cadw staff, ond erys heriau recriwtio o hyd.
- Mae ymrwymiadau i'r Gymraeg wedi datblygu, ac mae mwy o awdurdodau lleol yn cynnig gwasanaethau dwyieithog, ond mae angen mwy o ffocws ar ymgysylltu â lleiafrifoedd ethnig.
- Mae camau breision wedi cael eu cymryd o ran atal a chymorth cynnar, ac mae sawl awdurdod wedi ehangu ar eu gwasanaethau cymorth i deuluoedd ac ymarfer sy'n ystyriol o drawma.
- Mae diwygiadau arweinyddiaeth wedi cryfhau goruchwyliaeth. Mae diwygiadau strwythurol (e.e., model arweinyddiaeth newydd Wrecsam) wedi cryfhau atebolrwydd, ond mae cynllunio ar gyfer olyniaeth yn dal i fod yn anwastad.
- Mae gwelliannau ansawdd data yn dal i fynd rhagddynt ond nid ydynt yn digwydd ym mhob awdurdod lleol.

## Casgliad

Mae canfyddiadau adroddiadau blynyddol gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a'r data sydd ar gael wedi cael eu mapio'n ôl yn erbyn y ddwy safon ansawdd.

### "Mae pobl yn bartneriaid cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt."

- Mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi'i ymgorffori: Mae sgyrsiau am "yr hyn sy'n bwysig" bellach yn beth arferol, sy'n cryfhau llais, dewis, a rheolaeth.
- Mae taliadau uniongyrchol yn cael eu defnyddio, gan roi mwy o ymreolaeth a hyblygrwydd i bobl wrth drefnu cymorth.
- Mae dulliau ymgysylltu drwy fforymau ieuenctid, strwythurau cyfranogi, eiriolaeth a chyfathrebu dwyieithog yn cefnogi partneriaeth gyfartal, hyd yn oed os yw'r cysondeb yn amrywio.
- Mae cydgynhyrchu yn cynyddu, ond nid oes cysondeb eto o ran dyfnder nac effaith.
- Mae darpariaeth yn Gymraeg yn gwella, sy'n cefnogi mynediad ar sail hawliau i siaradwyr Cymraeg ymhellach.
- Erys bylchau o hyd; mae ymgysylltu â lleiafrifoedd ethnig, mynediad at eiriolwyr, ac ansawdd data yn dal i gyfyngu ar bartneriaeth gyfartal mewn rhai ardaloedd.

Mae'r sector yn amlwg yn symud tag at bartneriaeth wirioneddol â phobl sy'n ceisio gofal, ond mae lle o hyd i wella tegwch a chysondeb llais.

“Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel, gyda gweithlu cymwysedig a hynod fedrus yn cael ei gefnogi i weithio tuag at weledigaeth a rennir.”

- Gellir gweld ymgais i ailstrwythuro a chryfhau arweinyddiaeth ymhlith awdurdodau, sy’n gwella atebolrwydd ac eglurder o ran rolau.
- Mae’r gwaith o hyfforddi a goruchwylio’r gweithlu yn cael blaenoriaeth, sy’n cefnogi ansawdd ymarfer a sgiliau myfyriol.
- Mae ymgysylltu arweinwyr â’r staff rheng flaen yn cyfrannu at weledigaeth a rennir a gwell goruchwyliaeth.
- Fodd bynnag, mae sefydlogrwydd y gweithlu yn amrywio’n sylweddol—mae gwasanaethau plant a phobl ifanc yn parhau i wynebu prinder dybryd.
- Mae anawsterau o ran recriwtio a chadw staff yn llesteirio’r gwaith o ddarparu gweithlu â sgiliau cyson ledled y wlad.
- Mae cynllunio ar gyfer olyniaeth yn dal i fod yn anwastad, yn enwedig mewn awdurdodau llai o faint neu awdurdodau lle mwy pwysau mawr.

Mae’r arweinyddiaeth yn cryfhau ac mae’r cymorth i’r gweithlu yn gwella, ond mae ansefydlogrwydd mynych yn atal y gweithlu rhag cyflawni bwriad y safon yn llawn ledled Cymru.

## Atal

### Safonau Ansawdd:

*"Mae’r angen am ofal a chymorth yn cael ei leihau ac **nid** yw anghenion yn cynyddu, gan sicrhau’r **canlyniad** gorau posibl i bobl."*

"*Mae **cydnerthedd yn ein cymunedau** yn cael ei hyrwyddo ac mae pobl yn cael eu helpu i gyrraedd eu potensial trwy annog a helpu pobl sydd angen gofal a chymorth, gan gynnwys **gofalwyr**, i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas*."

### Beth sy’n digwydd mewn awdurdodau lleol.

Ar sail dadansoddiad o adroddiadau blynyddol gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a’r data cenedlaethol sydd ar gael, y camau gweithredu sy’n cael eu cymryd yw:

- Mae awdurdodau lleol wedi ehangu hybiau cymunedol a rhaglenni cydlynu ardaloedd lleol, sy’n cysylltu unigolion ag adnoddau a gweithgareddau lleol sy’n atal ynysigrwydd ac anghenion sy’n dwysáu.
- Mae’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi cryfhau hybiau cymorth cynnar neu ganolfannau i deuluoedd amlasiantaethol, sy’n darparu cyngor, rhaglenni magu plant, a chymorth ymarferol cyn bod problemau yn gwaethygu.
- Yn genedlaethol, yn 2023-24, cafodd ychydig dros hanner yr holl gysylltiadau newydd â gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion a bron 40% o gysylltiadau â gwasanaethau plant, wybodaeth, gyngor neu gymorth, sydd o bosibl yn dileu’r angen am ymyriadau.
- Mae awdurdodau yn cydnabod bod gofalwyr di-dâl yn ganolog i strategaethau atal. Mae gofalwyr yn cael eu cynnwys fwyfwy mewn cydgynhyrchu, gan lywio gwasanaethau sy’n diwallu eu hanghenion ac anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi.
- Mae asesiadau gofalwyr a gwasanaethau seibiant yn cael eu hyrwyddo i leihau straen a chynnal sefydlogrwydd teuluol. Mae rhai awdurdodau lleol yn nodi

hyfforddiant pwrpasol i ofalwyr i'w helpu i gefnogi datblygiad plant a'u cyfranogiad mewn cymdeithasol.

- Mae gweithwyr penodol a grwpiau cymorth gan gymheiriaid yn cael eu cyflwyno i leihau ynysigrwydd a gwella llesiant i ofalwyr ifanc.

*"Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi parhau i gefnogi grwpiau gofalwyr lleol fel y grŵp dementia a Grŵp Gofalwyr a Chyfeillion Cwmbrân, sy'n cyfarfod bob wythnos ar gyfer bowlio, pŵl a boreau coffi." (Torfaen)*

- Mae cydweithio â sefydliadau gwirfoddol yn ategu llawer o fentrau ataliol. Ymhlith yr enghreifftiau mae cynlluniau cyfeillio, gwasanaethau darparu prydau bwyd, a thrafnidiaeth gymunedol, sydd yn aml yn cael eu darparu gan elusennau a grwpiau lleol. Mae cydweithredu â sefydliadau gwirfoddol yn gadarn o ran cymorth i deuluoedd, yn enwedig wrth ddarparu gwasanaethau yn y gymuned megis cynlluniau chwarae, mentora ieuenctid, a chymorth iechyd meddwl.
- Mae awdurdodau lleol yn buddsoddi yng ngwydnwch cymunedau drwy gynlluniau chwarae, prosiectau ymgysylltu ag ieuenctid, a chymorth wedi'i dargedu i deuluoedd sy'n agored i niwed. Nod y mentrau hyn yw cadw plant yn eu teuluoedd a'u cymunedau lle bynnag y bo hynny'n ddiogel ac yn bosibl.
- Nododd awdurdodau lleol, o blith y 48,355 o asesiadau gofal cymdeithasol a gwblhawyd i blant yn 2023-24, penderfynodd 29,453 (61%) y gellid diwallu anghenion drwy ddulliau eraill, megis gwasanaethau ataliol.
- Mae rhai awdurdodau lleol yn cyfeirio at bartneriaethau â mentrau cymdeithasol i gynnig opsiynau gofal hyblyg, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae'r modelau hyn yn hyrwyddo cynaliadwyedd a pherchenogaeth gymunedol o wasanaethau. Mae ychydig o awdurdodau lleol yn cyfeirio at fodelau comisiynu sy'n cynnwys mentrau cydweithredol a gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr, gan sicrhau bod datrysiadau gofal yn cael eu llywio gan y rhai â phrofiad bywyd.
- Mae cydweithio â phartneriaid iechyd yn cefnogi proses fwy amserol o ryddhau cleifion o'r ysbyty ac ailalluogi, gan leihau achosion lle mae anghenion yn dwysáu a hyrwyddo gwellhad yn y cartref. Yn 2023-24, cwblhawyd 9,327 o becynnau ailalluogi.
- Mae tystiolaeth gref o gydweithredu â'r sector iechyd, y sector addysg, a'r sector gwirfoddol i nodi anghenion yn gynnar a rhoi cymorth cofleidiol. Defnyddir paneli ar y cyd a systemau data a rennir yn gynyddol i symleiddio atgyfeiriadau.
- Mae sawl awdurdod yn tynnu sylw at ymdrechion i fynd i'r afael ag allgáu digidol, galluogi plant a theuluoedd i gael mynediad at ddysgu ar-lein ac adnoddau cymunedol.

## Atal

### Cryfderau:

- Mae pob awdurdod lleol yn dangos cysondeb ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n ymgorffori atal fel blaenoriaeth statudol a diwylliannol.
- Mae rhai awdurdodau lleol wedi disgrifio timau ymateb cynnar a rhaglenni cydlynu ardaloedd lleol, sy'n enghreifftiau o ddulliau rhagweithiol o atal anghenion rhag dwysáu.
- Mae awdurdodau lleol yn nodi mwy o adnoddau mewn timau cymorth i deuluoedd a gwell hygyrchedd drwy hybiau cymunedol a rhaglenni allgymorth.

- Mae rhaglenni seibiant a mentrau hyfforddiant awdurdodau lleol yn grymuso gofalwyr di-dâl, sy'n lleihau achosion o drefniadau gofal yn chwalu.
- Mae hybiau cymorth cynnar a phartneriaethau â'r trydydd sector yn galluogi pobl i gymryd rhan mewn cymdeithas a chynnal annibyniaeth.
- Mae dulliau gweithredu integredig ym maes iechyd ac addysg yn lleihau dyblygu gwaith ac yn gwella canlyniadau i deuluoedd ag anghenion cymhleth.
- Mae sefydliadau gwirfoddol yn cynnig cymhwysedd ystwyth a diwylliannol, yn enwedig mewn cymunedau gwledig ac ethnig leiafrifol. Mae mentrau cymdeithasol a chydweithrediaethau yn darparu gwasanaethau hyblyg, wedi'u teilwra'n lleol, yn enwedig lle mae'r ddarpariaeth draddodiadol yn gyfyngedig.
- Mae llawer o awdurdodau lleol wedi cryfhau dulliau o wrando ar blant a theuluoedd, gan sicrhau bod gwasanaethau yn adlewyrchu profiad bywyd.

*"Mae Tîm Cymorth Cynnar Sir Benfro yn anelu at dargedu cymorth cynnar i blant, pobl ifanc a theuluoedd gyda ffocws ar sicrhau eu bod yn cael mynediad at y gwasanaethau cywir ar yr adeg gywir."*

- Mae awdurdodau lleol yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ailalluogi i oedolion yn gynyddol er mwyn lleihau eu hangen am gymorth parhaus.
- Ymhlith yr enghreifftiau o arferion arloesol mae dulliau sy'n ystyriol o drawma, cymorth iechyd meddwl wedi'i dargedu mewn ysgolion, a gwasanaethau diwylliannol sensitif ar gyfer teuluoedd ethnig leiafrifol.
- Mae rhaglenni penodedig yn gwella mynediad at addysg a llesiant gofalwyr, gan leihau'r risg o ynysigrwydd a chanlyniadau gwael.

## Atal

### Heriau:

Gwnaeth awdurdodau lleol hefyd nodi rhai o'r heriau y maent yn eu hwynebu o ran darparu gwasanaethau cymdeithasol:

- Er gwaethaf ymdrechion ataliol, mae awdurdodau yn nodi bod niferoedd cynyddol o deuluoedd ag anghenion lluosog a chymhleth yn cysylltu â nhw, sy'n aml yn gysylltiedig â thlodi, ansefydlogrwydd llety, ac iechyd meddwl.
- Mae pwysau ar gyllidebau yn cyfyngu ar raddfa a chynaliadwyedd rhaglenni ataliol, gyda rhai awdurdodau lleol yn nodi dibyniaeth ar gyllid grant byrdymor, yn enwedig ar gyfer trafnidiaeth wledig a hybiau cymunedol.
- Mae heriau recriwtio, yn enwedig mewn rolau arbenigol megis gweithwyr cymorth i deuluoedd a gweithwyr cymdeithasol, yn effeithio ar y gallu i gynnal rolau yn y gymuned a sicrhau ymyriadau amserol.

*"Mae nifer y gweithwyr a gaiff eu recriwtio i'r Gwasanaethau Oedolion yn gymharol sefydlog, gyda throsiant y llynedd o 8% yn gyson â ffigurau'r trosiant cyfartalog ar draws y Cyngor.96% oedd cyfraddau cadw gweithwyr ar draws Gwasanaethau Oedolion (gan gynnwys yr Uned Ddarparu).Mae cyfradd trosiant y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn debyg ar 6%, gyda chadw gweithwyr ar 97%.(Ynys Môn)*

- Mae llwyfannau gwybodaeth, cyngor a chymorth yn achosi'r risg o allgáu oedolion hŷn a'r rhai heb fynediad i'r rhyngrwyd.
- Mae amrywiadau mewn gwasanaethau ataliol ac ymgysylltu gan y trydydd sector yn golygu bod canlyniadau yn sylweddol wahanol rhwng awdurdodau.

- Er bod cynnydd yn amlwg, mae rhai awdurdodau lleol yn nodi bylchau mewn darpariaeth seibiant a chymorth emosiynol i ofalwyr.

"*Mae gofalwyr di-dâl yn dal i nodi y gall gofynion eu rôl fel gofalwyr gael effaith sylweddol ar eu llesiant eu hunain, gan gynnwys llai o gyfleoedd i gynnal cydberthnasau cymdeithasol a chymryd rhan ym mywyd pob dydd y gymuned*." (*Powys*)

- Er bod cynnydd yn amlwg, mae sawl adroddiad yn cydnabod bylchau o ran mesur effaith hirdymor mentrau ataliol, sy'n ei gwneud yn fwy anodd i ddangos tystiolaeth o ganlyniadau.
- Mae awdurdodau yn cydnabod anghysondebau cyson o ran mynediad a chanlyniadau i deuluoedd ethnig leiafrifol a'r rhai mewn ardaloedd gwledig, sy'n gofyn am ymatebion wedi'u targedu.

## Blaenoriaethau Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol ar gyfer y Flwyddyn i Ddod

Fel rhan o adroddiadau blynyddol gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, mae gofyniad ar bob adran gwasanaethau cymdeithasol i fyfyrio ar ei blaenoriaethu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Ymhlith yr awdurdodau lleol, dyma'r themâu cyffredin:

- Uwchraddio rhaglenni cydlynu ardaloedd lleol a hybiau cymunedol, gyda chysylltiadau cryfach â mentrau cymdeithasol a chydweithrediaethau.
- Uwchraddio rhwydweithiau lleol a phartneriaethau â'r sector gwirfoddol i roi cymorth cynaliadwy a arweinir gan y gymuned.
- Uwchraddio gwasanaethau cydweithredol a gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr i wneud darpariaeth yn amrywiol a grymuso cymunedau.
- Ehangu Cymorth i Ofalwyr Ifanc, yn benodol drwy gynyddu opsiynau seibiant, hyfforddiant, rhwydweithiau cymheiriaid, a chymorth addysgol.
- Ehangu gallu ac adnoddau mewn Llwybrau Cymorth Cynnar a gwella cydgysylltu rhwng gwasanaethau cyffredinol ac ymyriadau wedi'u targedu.
- Ffurfioli cytundebau cydweithredol er mwyn sicrhau parhad ac ansawdd gwasanaethau ataliol.
- Mynd i'r afael ag allgáu digidol er mwyn sicrhau y gall plant a theuluoedd gael mynediad at wasanaethau dysgu a chymorth ar-lein a sicrhau bod gwasanaethau yn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg a chymunedau ethnig leiafrifol.
- Recriwtio a hyfforddi staff ar gyfer rolau ymyrryd yn gynnar a chefnogi arweinyddiaeth mewn modelau cymunedol.
- Buddsoddi mewn ymgyrchoedd recriwtio, hyfforddiant, a chymorth llesiant i sefydlogi'r gweithlu a meithrin sgiliau mewn ymarfer diwylliannol gymwys sy'n ystyriol o drawma.
- Sicrhau bod ymarfer gwrth-hiliol a chymhwysedd diwylliannol yn ategu'r holl waith ataliol.
- Datblygu fframweithiau cadarn i olrhain canlyniadau a dangos effeithiolrwydd strategaethau atal.

### Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 9: dealltwriaeth o faterion sylfaenol a ffactorau achosol i lywio strategaethau atal mewn gofal cymdeithasol ochr yn ochr â modelau effeithiol, adnoddau a newidiadau yn hinsawdd y sefydliadau?

Mae awdurdodau lleol yn cryfhau gweithgarwch atal drwy ddefnyddio data, dealltwriaeth a dysgu sefydliadol er mwyn deall achosion sylfaenol a newid ymarfer o ymateb mewn argyfwng i ymyryd yn gynnar.

- **Sir Gaerfyrddin:** Mae'n defnyddio modelu rhagfynegi, adolygiadau thematig a dealltwriaeth o ganlyniad i brofiad dysgu i dargedu achosion sylfaenol yn hytrach na symptomau.
- **Caerdydd:** Mae'n defnyddio dangosfyrddau perfformiad, hunanasesu a phecyn cymorth atal i lywio rhaglenni ataliol megis Heneiddio'n Dda ac Anabledd Dysgu.
- **Sir y Fflint a Gwynedd:** Maent yn integreiddio systemau gwybodaeth i nodi patrymau sy'n gysylltiedig â thlodi, anghydraddoldebau iechyd a galw.

## Myfyrdodau ar Flaenoriaethau Gwasanaethau Cymdeithasol y Flwyddyn Diwethaf

Gofynnir hefyd i awdurdodau lleol roi gwybod am gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a'r amcanion a bennwyd ganddynt y flwyddyn diwethaf. Ledled Cymru, nodwyd cynnydd o ran y canlynol:

- Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi estyn cyrhaeddiad eu gwasanaethau cymorth cynnar a gwell integreiddio â gwasanaethau statudol, ond mae'r galw yn parhau i fod yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael.
- Ceir tystiolaeth o bartneriaethau a chydgynhyrchu cryfach, ac mae teuluoedd yn cael eu cynnwys yn fwy wrth lunio gwasanaethau.
- Mae hybiau cymunedol a rhaglenni cydlynu ardaloedd lleol wedi ehangu, sy'n cefnogi gwydnwch ac yn lleihau ynysigrwydd.
- Mae mentrau cymorth i ofalwyr wedi cael eu cryfhau mewn rhai rhannau o Gymru, gan gynnig mwy o gyfleoedd seibiant a hyfforddiant.
- Mae partneriaethau â'r trydydd sector wedi tyfu, ond mae rhai awdurdodau lleol yn nodi'r ddibyniaeth ar gyllid byrdymor.
- Bu mwy o welededd a gweithio mewn partneriaeth o ran gofalwyr ifanc ac ymgysylltu â'r trydydd sector, ond erys cynaliadwyedd ac adnoddau yn heriau allweddol o hyd.
- Mae ymwneud â mentrau cymdeithasol yn gyfyngedig o hyd ond mae'n datblygu'n fodel addawol ar gyfer darparu gwasanaethau gwledig.
- Er bod mentrau megis rhaglenni "tyfu eich rhai eich hun" ac oriau hyblyg wedi cael eu cyflwyno, erys heriau recriwtio yn rhwystr arwyddocaol.

*"Mae problemau parhaus yn ymwneud â recriwtio a chadw staff yng Ngwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Phlant, ond mae hyn mewn meysydd penodol a chymerwyd camau i wella'r sefyllfa.Yr ydym wedi buddsoddi yn ein hyfforddiant ar gyfer meithrin ein gweithwyr cymdeithasol ein hunain, a bydd hyn yn gyfrifol am niferoedd uwch o'r staff presennol sydd mewn rolau ymarferwyr gofal cymdeithasol yn dod yn weithwyr cymdeithasol cymwys dros gyfnod o 2 i 3 blynedd." (Sir Ddinbych)*

- Mae'r cynnydd yn anwastad o ran cefnogi pobl o gefndiroedd amrywiol; er bod ymrwymiadau hyfforddiant a pholisi ar waith, mae adroddiadau yn cydnabod bod

angen gwelliannau mwy diriaethol o ran cynrychiolaeth ac ymarfer diwylliannol sensitif.
- Nodir rhywfaint o welliant o ran casglu data, ond mae gwerthuso cyson ledled Cymru yn dal i ddatblygu.

**Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 15: ansawdd, ystod, cysondeb, a gweithredu casglu, dadansoddi a dehongli data er mwyn llywio gwella ansawdd a datblygu gwasanaethau?**

Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn cryfhau data gofal cymdeithasol i gefnogi gweithgarwch i wella ansawdd drwy gyfrifiadau cenedlaethol newydd, dangosfyrddau lleol a gwell dadansoddeg, ond mae angen mwy o gysondeb, safonau a rennir ac adnoddau dadansoddol er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth leol yn llywio prosesau gwneud penderfyniadau ac ail-lunio gwasanaethau ar lefel genedlaethol:

- **Caerdydd:** Mae dangosfyrddau amser real yn cefnogi'r gwaith o nodi tueddiadau.
- **Sir Gaerfyrddin:** Mae dadansoddeg ragfynegol yn llywio gweithgarwch atal.
- **Ledled Cymru:** Galwadau am safonau data cenedlaethol ac adnoddau dadansoddi.

## Casgliad

Mae canfyddiadau adroddiadau blynyddol gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a'r data sydd ar gael wedi cael eu mapio'n ôl yn erbyn y ddwy safon ansawdd.

### "Mae'r angen am ofal a chymorth yn cael ei leihau ac nid yw anghenion yn cynyddu, gan sicrhau'r canlyniad gorau posibl i bobl."

- Mae gweithgarwch atal wedi'i ymgorffori mewn awdurdodau lleol drwy hybiau cymorth cynnar, rhaglenni cydlynu ardaloedd lleol, cymorth i deuluoedd, ailalluogi, a llwybrau gwybodaeth, cyngor a chymorth cadarn, sydd oll yn lleihau achosion lle mae anghenion yn dwysáu ac yn ymateb yn gynnar i'r rhai ag anghenion sy'n ymgyflwyno.
- Mae gwasanaethau ailalluogi yn helpu miloedd o oedolion i ddod yn annibynnol unwaith eto, gan leihau anghenion gofal hirdymor yn uniongyrchol.
- Mae partneriaethau â'r sector gwirfoddol (cynlluniau chwarae, mentora, cyfeillio, trafnidiaeth gymunedol) yn cryfhau prosesau ymyrryd yn gynnar a lleihau ynysigrwydd a risg o argyfwng.
- Mae cymorth i ofalwyr di-dâl – asesiadau, seibiant, a rhwydweithiau cymheiriaid – yn cael blaenoriaeth gynyddol fel dull ataliol craidd.
- Mae anghenion cynyddol gymhleth, pwysau sy'n gysylltiedig â thlodi, achosion o brinder staff o fewn y gweithlu mewn rolau cymorth cynnar, ac allgáu digidol oll yn cyfyngu ar y gallu i wireddu'r effaith ataliol yn llawn.
- Mae bylchau mewn data a chanlyniadau ataliol hirdymor yn llesteirio gallu awdurdodau i fesur effaith dros gyfnod estynedig.

Mae awdurdodau lleol yn gwneud cynnydd o ran atal anghenion rhag dwysáu a rheoli'r galw ar gam cynnar, ond mae gallu'r gweithlu, anghydraddoldeb o ran mynediad, ac ymdrech gyfyngedig i fesur canlyniadau yn parhau i gyfyngu ar y gallu i gyrraedd y safon hon yn gyson.

“Mae cydnerthedd yn ein cymunedau yn cael ei hyrwyddo ac mae pobl yn cael eu helpu i gyrraedd eu potensial trwy annog a helpu pobl sydd angen gofal a chymorth, gan gynnwys gofalwyr, i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.”

- Mae gwydnwch ar lefel gymunedol yn cryfhau drwy hybiau, rhaglenni cydlynu ardaloedd lleol, prosiectau ieuenctid, a gweithgarwch cymorth cynnar yn y gymuned sy’n cadw pobl yn gysylltiedig a lleihau ynysigrwydd.
- Cydnabyddir bod gofalwyr yn ganolog i wydnwch, gyda mynediad cynyddol at ofal seibiant, hyfforddiant a grwpiau cymorth gan gymheiriaid i gynnal eu llesiant a’u galluogrwydd.
- Mae sefydliadau gwirfoddol a mentrau cymdeithasol yn chwarae rôl fawr o ran galluogi cyfranogiad, cynnig gwasanaethau hyblyg a diwylliannol gymwys ochr yn ochr â’r angen cymunedol.
- Mae modelau a arweinir gan ddefnyddwyr a modelau cydweithredol sydd wrthi’n ymddangos yn cyfrannu at berchenogaeth gymunedol a datrysiadau ataliol mwy cynaliadwy, sy’n cael eu llunio’n lleol.
- Mae lefelau gwydnwch yn anwastad – mae gofalwyr ifanc, cymunedau gwledig, teuluoedd ethnig leiafrifol a’r rhai sy’n wynebu allgáu digidol yn wynebu mynediad anghyfartal at gymorth ataliol.
- Mae achosion o brinder staff i lenwi rolau ymyrryd yn gynnar a chymorth i deuluoedd o fewn y gweithlu yn cyfyngu ar y gallu i feithrin a chynnal rhwydweithiau cymunedol gwydn yn gyson ledled Cymru.
- Mae gwydnwch cymunedol yn cryfhau drwy weithgarwch ataliol eang a phartneriaethau cadarn, ond mae daearyddiaeth, allgáu digidol, a sefydlogrwydd y gweithlu yn parhau i achosi diffyg cysondeb o ran cyrraedd y safon hon.

## Partneriaeth ac Integreiddio

### Safonau Ansawdd:

*Mae **partneriaethau** effeithiol ar waith i gomisiynu a darparu canlyniadau cynaliadwy a chwbl **integredig** o safon uchel i bobl."*

*Mae pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at gynllunio a darparu eu gofal a’u cymorth fel **partneriaid cyfartal**."*

## Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 13: rôl a statws sydd gan fentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol o dan y Ddeddf er mwyn cefnogi unigolion, gofalwyr a chymunedau yn well?

Mae awdurdodau lleol yn cryfhau rôl mentrau cymdeithasol a chydweithrediaethau fel partneriaid allweddol i ddarparu gofal cymdeithasol hyblyg yn y gymuned, gan ymgorffori cydgynhyrchu a gwerth cymdeithasol ym maes comisiynu er mwyn cefnogi unigolion, gofalwyr a chymunedau yn well.

- **Sir y Fflint:** Mae'r fenter *micro-ofal* yn dangos sut mae darparwyr lleol bach—mentrau cymdeithasol neu gydweithrediaethau—yn darparu cymorth hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n llenwi'r bylchau sy'n cael eu gadael gan ddarpariaeth draddodiadol.
- **Ledled Cymru (awdurdodau lleol lluosog)**: Mae cynghorau yn comisiynu mentrau cymdeithasol a chydweithrediaethau i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth, gwasanaethau dydd a gweithgareddau cymunedol, gan ymgorffori cydgynhyrchu a gwerth cymdeithasol mewn systemau caffael.
- **Awdurdodau Lleol (Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol):** Mae awdurdodau yn integreiddio mentrau cymdeithasol a chydweithrediaethau â fframweithiau comisiynu, gan greu cyfarwyddiaethau rhanbarthol a rhoi cymorth i feithrin gallu

### Beth sy'n digwydd mewn awdurdodau lleol.

Ar sail dadansoddiad o adroddiadau blynyddol gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a'r data cenedlaethol sydd ar gael, y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd yw:

- Mae awdurdodau lleol yn nodi cydweithio cadarn yn eu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'u Byrddau Diogelu Rhanbarthol, a thrwy fyrddau iechyd, ysgolion a sefydliadau gwirfoddol mae modd cyfuno cyllidebau a chynllunio'r gweithlu ar y cyd. Defnyddir paneli amlasiantaethol a strwythurau llywodraethu ar y cyd yn fwyfwy i gysoni blaenoriaethau ac adnoddau.

*"Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo modelau gofal cymunedol, gan sicrhau bod pobl yn derbyn y cymorth cywir ar yr adeg iawn." (Bro Morgannwg)*

- Mae awdurdodau lleol wedi bod yn defnyddio Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad ac Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth i nodi bylchau mewn gwasanaethau, sy'n llywio blaenoriaethau a strategaethau comisiynu. Mae'r asesiadau hyn yn llywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau, yn nodi bylchau mewn darpariaeth, ac yn llywio buddsoddiadau mewn gwasanaethau ataliol ac arbenigol. Mae Cynlluniau Ardal yn cael eu hadnewyddu i adlewyrchu anghenion sy'n ymddangos a nodau cynaliadwyedd.
- Mae cydleoli timau mewn hybiau cymunedol yn beth cyffredin, sy'n ei gwneud yn bosibl i weithwyr cymdeithasol, ymwelwyr iechyd, a staff cymorth i deuluoedd weithio ochr yn ochr gyda'i gilydd. Mae ymgysylltu â darparwyr a'r trydydd sector yn gadarn, yn enwedig o ran darparu gwasanaethau hyblyg a diwylliannol gymwys.
- Ceir mwy o ymgysylltu â'r trydydd sector, ac mae awdurdodau lleol yn nodi bod cynlluniau cyfeillio a thrafnidiaeth gymunedol yn datblygu, ynghyd â chymorth i gydweithrediadau gofal gwledig.
- Mae cydymffurfedd â'r Fframwaith Cenedlaethol ar sail Comisiynu Gofal a Chymorth yn ffocws allweddol, ac mae adroddiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn sail i ffurfio'r farchnad.
- Mae awdurdodau lleol yn gweithio tuag at egwyddorion y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth drwy fabwysiadu comisiynu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, hyrwyddo caffael moesegol, ac ymgorffori cydgynhyrchu. Mae adroddiadau yn nodi rhywfaint o gynnydd o ran datblygu modelau prisio tryloyw a chryfhau cydberthnasau â darparwyr er mwyn sicrhau ansawdd a chynaliadwyedd.
- Mae comisiynu bellach yn pwysleisio cydgynhyrchu, modelau sy'n seiliedig ar ganlyniadau, a chynaliadwyedd. Mae sawl awdurdod lleol wedi sefydlu timau wedi'u cydleoli ar gyfer asesiadau ar y cyd a phrosesau cynllunio gofal symlach, gan sicrhau bod unigolion yn cael cymorth amserol, cydgysylltiedig.
- Mae cydgynhyrchu wedi'i ymgorffori drwy baneli cynghori, fforymau ieuenctid, a grwpiau profiad bywyd sy'n dylanwadu ar lunio a darparu gwasanaethau. Un enghraifft o hyn yw paneli dinasyddion sy'n cynnwys pobl yn y broses o lunio gwasanaeth. Ymhlith y ffyrdd newydd o weithio mae llwyfannau digidol a rennir a rhaglenni datblygu'r gweithlu ar y cyd.
- Mae arloesedd mewn integreiddio digidol yn mynd rhagddo, ac mae awdurdodau lleol yn treialu cofnodion gofal a rennir a llwyfannau TG ar y cyd i wella llif data.

**Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 8: cefnogaeth i'r unigolion egwyddorol a brwdfrydig hynny sydd mewn sefyllfa i hyrwyddo a helpu i ymgorffori ymarfer cydgynhyrchiol?**

Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn galluogi cydgynhyrchu drwy ddatblygu, cefnogi a chydnabod ymarferwyr sy'n hyrwyddo ymarfer cydgynhyrchiol, gan ymgorffori'r dull gweithredu hwn fel norm diwylliannol craidd mewn gofal cymdeithasol:

- **Sir Gaerfyrddin:** Mae'n cefnogi hyrwyddwyr cydgynhyrchu drwy rwydweithiau cymheiriaid, rhaglenni arweinyddiaeth a fframweithiau cydnabod ffurfiol, gan gynnwys pecynnau cymorth a chanllawiau, sy'n helpu i gynnal newid diwylliannol mewn ymarfer.
- **Ledled awdurdodau lleol:** Mae gweithgarwch wedi'i dargedu i ddatblygu'r gweithlu, gan gynnwys hyfforddiant sy'n seiliedig ar gryfderau a mentora, yn paratoi staff llawn cymhelliant i arwain ac ymgorffori dulliau cydgynhyrchiol.
- **Ledled awdurdodau lleol:** Mae hyfforddiant, cymorth gan gymheiriaid a chyfleoedd i ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer yn galluogi ymarferwyr i lywio diwylliant sefydliadol ac mae cynnydd yn cael ei fonitro drwy adborth staff a defnyddwyr gwasanaethau.

## Partneriaeth ac Integreiddio

### Cryfderau:

- Cysondeb clir rhwng cynlluniau lleol, partneriaethau rhanbarthol, a fframweithiau cenedlaethol. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn darparu trefniadau llywodraethu cadarn ar gyfer gwaith cynllunio integredig a chyllidebau cyfun.

*"Ym maes addysg, iechyd, cyfiawnder ieuenctid, diogelwch cymunedol, comisiynu a'r trydydd sector ehangach ceir ymrwymiad a rennir i helpu plant i gadw'n ddiogel ac yn iach a chael eu cefnogi yn eu cymunedau." (Castell-nedd Port Talbot)*

- Mae'r defnydd o Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad ac Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth yn sicrhau bod penderfyniadau comisiynu yn cael eu hysgogi gan ddata a'u bod yn ymatebol i anghenion y boblogaeth ac yn sicrhau bod penderfyniadau yn adlewyrchu anghenion y boblogaeth a gallu'r farchnad.
- Pwyslais cynyddol ar gynnwys plant, pobl ifanc, a gofalwyr fel partneriaid cydradd wrth lunio gwasanaethau. Mae paneli dinasyddion a dull "yr hyn sy'n bwysig" yn ymgorffori llais y defnyddiwr wrth lunio a darparu gwasanaethau.
- Mae sawl awdurdod lleol wedi disgrifio sut maent yn gweithio gyda sefydliadau cymunedol i ddarparu gwasanaethau hyblyg sydd wedi'u teilwra'n lleol.
- Mae awdurdodau lleol yn ymgorffori datgarboneiddio wrth gynllunio a chomisiynu gwasanaethau.

**Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 12: datblygu hinsawdd o arloesedd, creadigrwydd a gwella ansawdd, yn hytrach na dim ond cydymffurfio?**

Mae awdurdodau lleol yn ymgorffori arloesedd a gwelliant parhaus ym maes gofal cymdeithasol drwy arweinyddiaeth, datblygu'r gweithlu a chydgynhyrchu, gan symud y tu hwnt i ddiwylliant o gydymffurfio.

- **Ynys Môn** Mae'r rhaglen*"Ynys sy'n Wybodus am Drawma"* wedi hyfforddi dros 700 o staff a phartneriaid, gan ymgorffori ymarfer myfyriol, sy'n ystyriol o drawma yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd.
- **Ledled Cymru:** Mae awdurdodau lleol yn galluogi staff a dinasyddion i lywio gweithgarwch gwella, a gefnogir yn genedlaethol gan Gofal Cymdeithasol Cymru drwy'r strategaeth *Ymlaen*.
- **Ledled Cymru:** Mae Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn arwain cylchoedd gwella ansawdd gan ddefnyddio cydgynhyrchu, data ac adnoddau digidol i ail-lunio gwasanaethau a chanolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na chydymffurfedd.

## Partneriaeth ac Integreiddio

## Heriau:

- Mae heriau recriwtio a chyfyngiadau ariannol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn cyfyngu ar effeithiolrwydd modelau integredig, y gallu i fuddsoddi mewn seilwaith gwyrdd ac yn cael effaith negyddol ar dimau amlasiantaethol a rolau arbenigol.
- Mae integreiddio digidol yn dal i fod yn ddarniog, ac mae rhai awdurdodau lleol yn cael anhawster i gysoni systemau TG. Mae problemau technegol a llywodraethu yn parhau i lesteirio'r broses o gyfnewid gwybodaeth yn ddi-dor.
- Mae costau cynyddol yn peryglu cynaliadwyedd comisiynu ar y cyd a buddsoddiadau sy'n ymwneud â'r hinsawdd.
- Er bod rhai awdurdodau lleol yn rhagori, mae eraill ond yn rhoi tystiolaeth gyfyngedig o ymgysylltu systematig y tu hwnt i asesiadau statudol.

*Partneriaid allweddol Merthyr yw'r awdurdodau lleol cyfagos, y sector gwirfoddol ac iechyd. "Mae gweithio mewn partneriaeth yn dal i fod yn allweddol i'n helpu i ymdopi â'r galw yn y gwasanaeth". (Merthyr Tudful).*

***Blaenoriaethau Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol ar gyfer y Flwyddyn i Ddod***

Fel rhan o adroddiadau blynyddol gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, mae gofyniad ar bob adran gwasanaethau cymdeithasol i fyfyrio ar ei blaenoriaethu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Ymhlith yr awdurdodau lleol, dyma'r themâu cyffredin:

- Ehangu timau wedi'u cydleoli a gwaith cynllunio'r gweithlu a rennir ar y cyd â phartneriaid iechyd.

- Defnyddio Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad ac Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth i lywio gweithgarwch comisiynu a ffurfio'r farchnad yn gyson rhwng rhanbarthau.
- Ffurfioli fframweithiau cydgynhyrchu ar gyfer cynnwys plant, pobl ifanc, a gofalwyr ar bob cam o waith cynllunio gwasanaethau.

*"Lle bynnag y bo modd, byddwn yn eirioli dros fwy o ymreolaeth yn lleol fel y gallwn ni fel partneriaeth ddefnyddio adnoddau i adeiladu ar gryfderau presennol a theilwra gwasanaethau at gymunedau lleol." (Sir Fynwy)*

- Cyflymu cofnodion gofal a rennir a systemau TG rhyngweithredu a buddsoddi mewn mannau a rennir a systemau rhyngweithredu i wella cydgysylltu.
- Datblygu cynlluniau datgarboneiddio mesuradwy a thargedau ar gyfer ystadau gofal cymdeithasol ac integreiddio bioamrywiaeth mewn fframweithiau comisiynu.
- Cysoni'r holl waith comisiynu ag egwyddorion y Fframwaith Cenedlaethol, gan sicrhau ffioedd teg a chontractau hirdymor.
- Dyfnhau trefniadau comisiynu ar y cyd a strwythurau llywodraethu a rennir a hyrwyddo comisiynu moesegol, prisio tryloyw, a chontractau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

*"ddim yn yr adroddiad(Ynys Môn)*

**Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 14: i ba raddau y mae arferion da, a gwybodaeth o'r system yn 'teithio' ledled Cymru?**

Mae arferion da a dysgu systemau yn teithio'n gynyddol ledled Cymru drwy fforymau cenedlaethol a rhanbarthol strwythuredig sy'n galluogi awdurdodau lleol i rannu eu harloesedd, ei addasu a'i ymgorffori'n gyson:

- **Sir Gaerfyrddin:** Drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru, defnyddir comisiynu ar y cyd ac adolygiadau thematig i rannu a lledaenu arferion effeithiol rhwng awdurdodau cyfagos, gan gefnogi cysondeb a dysgu rhanbarthol.
- **Sir Ddinbych:** Mae cymryd rhan weithredol mewn gweithgorau cenedlaethol a'r defnydd o becynnau cymorth a rennir wedi ei gwneud yn bosibl i wersi a ddysgwyd o weithgarwch peilot gael eu lledaenu a'u cymhwyso y tu hwnt i'r ardal leol.
- **Conwy:** Mae bod yn rhan o fforymau cenedlaethol a chynlluniau peilot cydweithredol yn fodd i drosglwyddo gwersi ymarferol a ddysgwyd, gan helpu i gysoni'r ddarpariaeth leol ag arferion da sy'n ymddangos ledled Cymru.

## Myfyrdodau ar Flaenoriaethau Gwasanaethau Cymdeithasol y Flwyddyn Diwethaf

Gofynnir hefyd i awdurdodau lleol roi gwybod am gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a'r amcanion a bennwyd ganddynt y flwyddyn diwethaf. Ledled Cymru, nodwyd cynnydd o ran y canlynol:

- Mae awdurdodau lleol yn nodi cydweithio rhanbarthol cryfach a gwaith comisiynu mwy integredig, ond erys cynaliadwyedd yn achos pryder o hyd. Nodir bod egwyddorion y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu yn cael eu mabwysiadu

ar gam cynnar, ond er mwyn ei roi ar waith yn llawn bydd angen newidiadau diwylliannol a gweithredol.

- Nododd sawl awdurdod lleol fod llai o oedi mewn ysbytai a'u bod yn helpu pobl i ddychwelyd adref drwy weithio ar y cyd gyda byrddau iechyd.

*"Mae ein tîm gwaith cymdeithasol mewn ysbytai bellach yn rhan o'r gwasanaeth Cartref yn Gyntaf/rhyddhau i asesu sy'n cael ei drawsnewid fel rhan o raglen ehangach Cartref yn Gyntaf."(Abertawe)*

- Mae gweithgarwch ymgysylltu wedi gwella, ac mae mwy o awdurdodau lleol yn nodi fforymau strwythuredig a chynnwys ieuenctid, ond mae cysondeb yn amrywio. Mae awdurdodau lleol yn ystyried sut y gallant wella'r ffordd y maent yn cynnwys dinasyddion, ond nododd sawl awdurdod lleol eu bod wedi ymgorffori sgyrsiau am "yr hyn sy'n bwysig".
- Mae'r cynnydd o ran ymgorffori Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad ac Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth mewn cylchoedd cynllunio yn amlwg ond mae'r gwaith o droi dealltwriaeth yn broses o ail-lunio gwasanaeth yn parhau. Mae Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn llywio penderfyniadau comisiynu, ond mae rhai awdurdodau lleol yn nodi oedi o ran diweddaru Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth.
- Mae camau cychwynnol i ddatgarboneiddio wedi cael eu cymryd, ond mae awdurdodau lleol yn cydnabod bod angen targedau mwy uchelgeisiol a buddsoddi. Er bod rhai awdurdodau lleol wedi hyrwyddo integreiddio datgarboneiddio â gwaith cynllunio, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol ar gam cynnar.

### Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 16: cynllunio poblogaeth a phrosesau ymgysylltu sy'n ymglymu'n ystyrlon â phoblogaethau lleol ynghylch yr anghenion?

Mae'r gwaith o gynllunio ar gyfer anghenion y boblogaeth yn cael ei lywio'n fwyfwy gan ymgysylltu lleol, ac mae momentwm tuag at ehangu cynhwysiant a chryfhau effaith lleisiau'r gymuned yn tyfu.

- **Conwy:** Mae'n defnyddio paneli asiantaeth a fframwaith ymgysylltu sy'n cynnwys teuluoedd yn uniongyrchol mewn prosesau gwneud penderfyniadau, gan gefnogi gwell canlyniadau a lefel uchel o foddhad.
- **Awdurdodau lleol:** Mae ymgyngoriadau rheolaidd, dulliau o roi adborth a fforymau partneriaeth yn cael eu hymgorffori'n eang i lywio anghenion y boblogaeth a gwaith cynllunio gwasanaethau.
- **Awdurdodau lleol:** Ceir ymrwymiad clir i wella cyrhaeddiad a chynhwysiant, gyda phwyslais cynyddol ar ddulliau creadigol, wedi'u targedu a chydgynhyrchiol i adlewyrchu anghenion cymunedol amrywiol yn well.

## Casgliad

Mae canfyddiadau adroddiadau blynyddol gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a'r data sydd ar gael wedi cael eu mapio'n ôl yn erbyn y ddwy safon ansawdd.

### “Mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a darparu canlyniadau cynaliadwy a chwbl integredig o safon uchel i bobl.”

- Mae partneriaethau amlasiantaethol cadarn wedi’u sefydlu mewn rhai ardaloedd drwy fyrddau partneriaeth rhanbarthol, byrddau diogelu rhanbarthol, a phaneli ar y cyd, sy’n fodd i rannu gwaith cynllunio, cyfuno cyllidebau, a chydgysylltu ymatebion.
- Mae Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad ac Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth yn cael eu defnyddio’n fwy cyson i lywio penderfyniadau comisiynu, nodi bylchau, a sicrhau bod gwasanaethau yn cyd-fynd ag anghenion y boblogaeth leol, ond gellid gwella ar hyn.
- Mae rhai awdurdodau lleol yn nodi bod y penderfyniad i gydleoli timau ym maes iechyd, addysg, a gofal cymdeithasol yn cefnogi asesiadau mwy integredig, prosesau gwneud penderfyniadau cyflymach, a gwaith cynllunio gofal di-dor.
- Mae’r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu yn dylanwadu ar gomisiynu mwy cyson, moesegol sy’n seiliedig ar ganlyniadau, ac mae awdurdodau lleol yn datblygu modelau prisio teg ac yn cryfhau cydberthnasau â darparwyr.
- Erys heriau o hyd, gan gynnwys achosion o brinder staff o fewn y gweithlu ym mhob sector, pwysau ariannol ar gomisiynu ar y cyd, a rhyngweithredu cyfyngedig mewn systemau digidol, sydd oll yn rhwystro integreiddio llawn.

Mae awdurdodau lleol yn dangos sylfeini cydweithredol cadarn a mwy o gysondeb wrth gomisiynu ac integreiddio, ond mae gallu ac adnoddau’r gweithlu, seilwaith digidol, a sefydlogrwydd ariannol yn parhau i gyfyngu ar ganlyniadau integredig cwbl gynaliadwy.

### “Mae pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at gynllunio a darparu eu gofal a’u cymorth fel partneriaid cyfartal.”

- Mae cydgynhyrchu yn tyfu’n raddol, ac mae paneli dinasyddion, fforymau ieuenctid, a grwpiau profiad bywyd yn cyfrannu at gynllunio, adolygu gwasanaethau’, ac yn dylanwadu ar gomisiynu.
- Mae awdurdodau lleol yn ymgorffori llais defnyddwyr mewn gwaith cynllunio strategol, ac mae rhai wrthi’n ehangu fforymau cyfranogi a strwythurau cydgynhyrchu.
- Mae dyfnder ymgysylltu yn amrywio, ac mae rhai awdurdodau lleol yn dibynnu ar ymgynghori statudol gofynnol o hyd, yn hytrach na chydgynhyrchu sydd wedi’i ymgorffori’n llawn ar bob cam.
- Mae ymgysylltu â darparwyr hefyd yn cefnogi perchenogaeth gyffredin o lunio gwasanaethau drwy gynnal deialog barhaus rhwng awdurdodau lleol, darparwyr annibynnol, a’r sector gwirfoddol.
- Erys rhwystrau o hyd, lle mae systemau digidol darniog, capasiti cyfyngedig, a diffyg cysondeb wrth gynnwys cymunedau yn gwanhau partneriaethau cyson â phobl a theuluoedd.

Mae cydgynhyrchu yn cryfhau ac yn cael ei ymgorffori’n fwyfwy ond nid yw eto yn gyson ledled Cymru. Mae pwysau strwythurol a gallu lleol amrywiadwy yn golygu bod partneriaeth gydradd wrth lunio a darparu gwasanaethau yn ddyhead o hyd nad yw wedi cael ei wireddu’n llawn.

## Lles

### Safonau Ansawdd:

*"Mae pobl yn cael eu hamddiffyn a'u **diogelu** rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed."*

*"Mae pobl yn cael eu helpu i **reoli eu llesiant** a gwneud eu penderfyniadau gwybodus eu hunain fel y gallant gyrraedd eu potensial llawn a **byw'n annibynnol** cyhyd â phosibl."*

### Beth sy'n digwydd mewn awdurdodau lleol.

Ar sail dadansoddiad o adroddiadau blynyddol gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a'r data cenedlaethol sydd ar gael, y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd yw:

- Mae nifer yr oedolion yr amheuir eu bod yn wynebu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod wedi bod yn cynyddu ers 2020/21, wedi cynyddu o 15,301 i 18,169 yn 2023-24, sef cynnydd o 18.7% dros y pedair blynedd diwethaf.
- Yn 2023-24, cafwyd 28,126 o Gyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol ar gyfer plant yr amheuir eu bod yn wynebu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod. O'r rhain, aeth 17,762 (63.2%) yn eu blaen i'r cam ymholiadau Adran 47: yr ail gam o'r broses diogelu ar gyfer plant. Aeth 3,951 (22.2%) o'r ymholiadau Adran 47 yn eu blaen i'r cam Cynhadledd Amddiffyn Plant.
- Mae byrddau diogelu amlasiantaethol, cynadleddau asesu risg, a phrotocolau amddiffyn plant cryfach wedi'u hymgorffori mewn rhanbarthau. Mae timau wedi'u cydleoli a strwythurau llywodraethu a rennir yn sicrhau proses o adnabod ac ymyrryd yn amserol i blant sy'n wynebu risg.
- Mae ymarfer sy'n ystyriol o drawma a dulliau gweithredu sy'n meithrin gwytnwch bellach yn safonol mewn gwasanaethau cymorth cynnar. Mae cymorth iechyd meddwl mewn ysgolion, rhaglenni magu plant, a gweithgareddau cymunedol yn helpu plant i reoli llesiant emosiynol a chyflawni eu potensial.

*"Rydyn ni'n gweithio i sicrhau dull "Dim Drws Anghywir" ar draws y gwasanaeth. Mae'n dod â gweithwyr proffesiynol at ei gilydd i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, heb oedi i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu." (Pen-y-bont ar Ogwr)*

- Mae awdurdodau lleol yn nodi bod anghenion yn mynd yn fwyfwy cymhleth a bod mwy o deuluoedd yn ymgyflwyno â nifer o heriau, ac mewn ymateb i hyn, mae llawer wedi ehangu gwasanaethau cymorth cynnar ac ar ffiniau gofal, wedi cyflwyno ymyriadau iechyd meddwl wedi'u targedu, ac wedi cryfhau cydgysylltu amlasiantaethol i atal problemau rhag gwaethygu.
- Mae gwasanaethau yn cael eu teilwra'n fwyfwy at alluoedd a rhwydweithiau unigol. Mae cydgynhyrchu ac eiriolaeth yn sicrhau bod cynlluniau gofal yn adlewyrchu amgylchiadau personol, ac mae hybiau cymunedol a phartneriaethau lleol yn rhoi cymorth hygyrch a diwylliannol gymwys.

*"Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi cryfhau ei gydgynhyrchu â theuluoedd er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn adlewyrchu anghenion a galluoedd unigolion".*

- Mae awdurdodau lleol yn treialu llwyfannau digidol ar gyfer cynllunio gofal ac adnoddau teuluol, gan ehangu gweithgareddau yn y gymuned, a hyrwyddo rhwydweithiau cymorth a arweinir gan gymheiriaid. Mae mentrau seibiant hyblyg a theithio llesol hefyd yn cael eu defnyddio i helpu teuluoedd i aros yn annibynnol.
- Mae technegol ddigidol yn cael ei defnyddio i gefnogi annibyniaeth i oedolion sy'n cael gofal a chymorth, megis systemau teleofal a sesiynau llesiant rhithwir. Mae

technoleg gynorthwyol yn cael ei threialu ym maes gofal cartref, ac mae awdurdodau lleol eraill wedi cyflwyno llwyfannau digidol ar gyfer gwybodaeth a chyngor hunanwasanaeth.

## Llesiant

### Cryfderau:

- Fframweithiau diogelu cadarn ynghyd â chydweithio amlasiantaethol cryf, gan gynnwys gweithio integredig gydag iechyd, addysg, a phartneriaid yn y trydydd sector. Mae rhai awdurdodau lleol yn nodi bod byrddau amlasiantaethol a hyfforddiant i staff yn sicrhau mesurau amddiffyn cadarn.
- Pwyslais cynyddol ar gydgynhyrchu ac eiriolaeth i bersonoli gofal. Mae sawl awdurdod lleol yn nodi eu bod yn defnyddio dulliau creadigol o wella llesiant y bobl y maent yn darparu gofal a chymorth ar eu cyfer, a chofnodi barn pobl am y gofal y maent yn ei gael.

*“Yng nghartref Spring Gardens, rydym yn hoffi hyrwyddo ymgysylltu ystyrlon â’n preswylwyr, y mae pob un ohonynt wedi cael diagnosisau gwahanol o ddementia. Mae unrhyw beth ystyrlon a hwyliog, gweithgarwch mawr neu fach yn cael canlyniad cadarnhao ar lesiant y preswylydd.” (Casnewydd)*

- Ymarfer sy’n ystyriol o drawma a chymorth iechyd meddwl mewn ysgolion wedi’u hymgorffori.
- Defnydd arloesol o adnoddau digidol a mentrau yn y gymuned i hybu annibyniaeth. Mae’r defnydd o deleofal a thechnoleg gynorthwyol yn helpu pobl i aros yn eu cartrefi yn hirach.

*”Mae mentrau yn y gymuned ac adnoddau digidol yn helpu teuluoedd i reoli eu llesiant eu hunain”.* (Conwy)

*Drwy gyflwyno gwasanaethau digidol yng Nghonwy, mae tîm “Y Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol , wedi galluogi pobl y cyflenwyd llinell ffôn ddigidol ar eu cyfer, i gael mynediad at yr unedau digidol, sy’n gweithio drwy SIM crwydrol; mae hyn yn ddefnyddiol i bob heb linell ffôn”.*

**Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 17: gwybodaeth, cyngor a chymorth sydd y meddiant defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr cyn ac ar fynediad i'r system gofal cymdeithasol, ochr yn ochr â dealltwriaeth o'u hawliau o dan y Ddeddf, fel bod eu disgwyliadau'n cael eu rheoli'n briodol?**

Mae Cymru yn cryfhau'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth drwy gydgysylltu cenedlaethol ac arloesi lleol, ond mae llwybrau anghyson a dealltwriaeth amrywiol o hawliau yn golygu bod angen datblygu ac integreiddio'r gweithlu ymhellach er mwyn rheoli disgwyliadau yn briodol.

- **Cydgysylltu cenedlaethol:** Mae rhwydwaith gwybodaeth, cyngor a chymorth i Gymru gyfan yn dwyn arweinwyr gwybodaeth, cyngor a chymorth awdurdodau lleol ynghyd i rannu gwersi a ddysgwyd a gwella cysondeb darpariaeth leol.
- **Gwella ymarfer lleol:** Mae Canolfan Byw'n Annibynnol Penmorfa Ceredigion yn rhoi cyngor hygyrch, adnoddau hunanasesu a sicrwydd ynghylch ansawdd a ysgogir gan adborth er mwyn cefnogi dewis ar sail gwybodaeth.
- **Parhau i gryfhau:** Mae awdurdodau lleol yn adeiladu llwybrau cliriach ac yn gwella prosesau cyfathrebu sy'n seiliedig ar hawliau gyda ffocws ar hyfforddiant i'r gweithlu, adnoddau a gydgynhyrchir a gwell integreiddio ag iechyd a phartneriaid yn y trydydd sector.

## Llesiant

### Heriau:

- Mae galw cynyddol a chymhlethdod achosion yn parhau i roi pwysau ar wasanaethau diogelu a llesiant. Mae atgyfeiriadau cynyddol yn rhoi pwysau ar adnoddau, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau diogelu ac ailalluogi.
- Mae achosion o brinder staff o fewn y gweithlu yn effeithio ar y gallu i wneud ymyriadau amserol. Mae problemau gyda recriwtio a chadw staff yn cyfyngu ar y gallu i roi gofal ataliol, wedi'i bersonoli.
- Er bod technoleg yn cefnogi annibyniaeth, mae rhai oedolion hŷn a grwpiau agored i niwed yn cael anhawster wrth ddod o hyd i ddatrysiadau digidol.
- Mae llwythi achosion mawr ac ymchwiliadau cymhleth yn her i ymatebion amserol mewn rhai ardaloedd.
- Mae canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau cymunedol, lles teuluol a gweithgareddau plant wedi gostwng dros y ddwy flynedd diwethaf yn ôl Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.
- Mae cymorth iechyd meddwl arbenigol yn annigonol o hyd i ateb y galw.
- Mae dyfnder cydgynhyrchu yn amrywio rhwng awdurdodau.
- Mae anghydraddoldebau cyson o ran mynediad mewn cymunedau gwledig a chymunedau ethnig leiafrifol.

**Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 19: atebion technolegol sy'n galluogi pobl i fyw'n annibynnol, yn enwedig mewn cyd-destun ôl-bandemig o ran pwysau ar y system a phrinder gweithlu?**

Mae awdurdodau lleol yn gwneud defnydd cynyddol o dechnolegau digidol, teleofal a thechnolegau cynorthwyol—a gefnogir yn genedlaethol gan Fframwaith DiSC Cymru—i helpu pobl i fyw'n annibynnol er gwaethaf y pwysau ôl-bandemig ac achosion o brinder staff o fewn y gweithlu.

- **Ceredigion**: Mae Canolfan Byw'n Annibynnol Penmorfa yn darparu cymhorthion digidol ac yn treialu sgyrsiau rhithwir, gan wella effeithlonrwydd a galluogi trigolion, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, i reoli eu llesiant yn annibynnol.
- **Ledled awdurdodau lleol:** Mae teleofal, adnoddau hunanasesu a monitro ar sail synwyryddion ar raddfa ehangach yn cael eu defnyddio i gefnogi annibyniaeth a lleihau'r pwysau ar y gweithlu.
- **Cymru gyfan (cymorth cenedlaethol)**: Mae Fframwaith DiSC Cymru yn cynnig dull cygysylltiedig o gryfhau sylfeini digidol, arloesi ar raddfa addas a rhannu arferion da er mwyn galluogi mwy o gymorth ataliol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

## Llesiant

### Blaenoriaethau ar gyfer y Flwyddyn sydd i ddod

Fel rhan o adroddiadau blynyddol gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, mae gofyniad ar bob adran gwasanaethau cymdeithasol i fyfyrio ar ei blaenoriaethu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Ymhlith yr awdurdodau lleol, dyma'r themâu cyffredin:

- Ehangu hyfforddiant a phrosesau archwilio; gwella cydgysylltu amlasiantaethol.
- Sicrhau mwy o fynediad at weithgareddau yn y gymuned ac adnoddau digidol i gefnogi gwydnwch ac annibyniaeth.
- Ehangu mynediad at dechnoleg gynorthwyol a mynd i'r afael ag allgáu digidol drwy fodelau cymorth cyfun.
- Cryfhau'r gallu i ddiogelu drwy hyfforddiant i'r gweithlu a chydweithio amlasiantaethol.
- Ehangu cymorth iechyd meddwl mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol.
- Ffurfioli fframweithiau cydgynhyrchu i sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael eu cynnwys mewn ffordd ystyrlon.
- Datblygu datrysiadau creadigol megis seibiant hyblyg a rhwydweithiau a arweinir gan gymheiriaid i leihau dibyniaeth ar ofal statudol.

**Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 18: gweithio ac ymarfer aml-asiantaethol (gan gynnwys diogelu), ac yn yr arferion o weithio o bell ac o hirbell ar gyfer rhai mathau o ryngweithio?**

Mae gwaith amlasiantaethol yng Nghymru yn cryfhau gweithgarwch diogelu a gofal integredig drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, dulliau llywodraethu a digidol a rennir, ond mae angen mwy o gysondeb mewn systemau, hyfforddiant ac ymarfer o bell er mwyn cynnal y cynnydd.

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:** Mae'r *Tîm Cryfhau Teuluoedd* yn gweithredu paneli a fforymau amlasiantaethol wythnosol, sy'n galluogi ymatebion diogelu cydgysylltiedig ym maes gofal cymdeithasol, iechyd, addysg a phartneriaid.
- **Cyngor Caerdydd:** Mae'r adnodd digidol *'Gwrandewch, Siaradwch'* yn cefnogi proses diogelu o bell ac ymgysylltu â phlant a theuluoedd pan fydd cyswllt wyneb yn wyneb yn gyfyngedig.
- **Pob awdurdod lleol (drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol):** Mae'r gwaith o ddarparu gofal cydgysylltiedig yn cael ei gefnogi gan Fframwaith y System Gofal Cymunedol Integredig a'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, sy'n sail i gomisiynu ar y cyd, rhannu gwybodaeth ac ymarfer diogelu.

## Myfyrdodau ar Flaenoriaethau Gwasanaethau Cymdeithasol y Flwyddyn Diwethaf

Gofynnir hefyd i awdurdodau lleol roi gwybod am gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a'r amcanion a bennwyd ganddynt y flwyddyn diwethaf. Ledled Cymru, nodwyd cynnydd o ran y canlynol:

- Mae awdurdodau yn nodi cynnydd o ran ymgorffori ymarfer sy'n ystyriol o drawma a gwella ymgysylltu â theuluoedd.
- Mae trefniadau diogelu wedi cryfhau drwy gydweithio rhanbarthol, ond mae'r galw yn dal i fod yn uchel.
- Mae cymorth iechyd meddwl i blant a theuluoedd wedi ehangu, ond mae problemau o ran adnoddau yn parhau.
- Mae mentrau yn y gymuned wedi tyfu, ac mae'r ymgais i ehangu hybiau cymunedol a rhaglenni cydlynu ardaloedd lleol wedi cryfhau gwydnwch ac annibyniaeth, ond mae anghydraddoldebau o ran mynediad yn achosi her o hyd.
- Mae cydgynhyrchu wedi gwella, gyda fforymau a gwasanaethau eirioli mwy strwythuredig, ond mae cysondeb yn amrywio.
- Mae cynlluniau peilot i dreialu technoleg wedi cefnogi annibyniaeth, ond mae allgáu digidol yn parhau.
- Mae llwybrau integredig i ryddhau cleifion o'r ysbyty wedi lleihau oedi mewn ysbytai, ond mae'r galw cyffredinol am ofal yn parhau i gynyddu.

*"Bydd y Cyngor yn datblygu cynllun strategol i gynnal ac uwchraddio safonau ein cartrefi gofal preswyl, gan sicrhau amgylcheddau cynnes, diogel a pharchus i'r preswylwyr.Amlygir costau'r gwelliannau yn y Cynllun hwn." (Gwynedd)*

## Casgliad

Mae canfyddiadau adroddiadau blynyddol gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a'r data sydd ar gael wedi cael eu mapio'n ôl yn erbyn y ddwy safon ansawdd.

“Mae pobl yn cael eu hamddiffyn a’u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed.”

- Mae trefniadau diogelu amlasiantaethol ar waith ledled Cymru, ac mae cydweithio rhwng gofal cymdeithasol, iechyd, addysg a’r sector gwirfoddol yn sicrhau prosesau o nodi risg ac ymyrryd yn amserol.
- Mae gweithgarwch diogelu yn parhau i gynyddu, ac mae niferoedd cynyddol o oedolion a phlant yn cael eu nodi fel rhai sy’n wynebu risg, sy’n dangos gweithgarwch monitro ac ymateb gweithredol rhwng systemau.
- Mae ymarfer sy’n ystyriol o drawma bellach wedi’i ymgorffori mewn gwasanaethau cymorth cynnar, sy’n cryfhau prosesau amddiffyn a chymorth i blant a theuluoedd sy’n cael eu niweidio.
- Mae adnoddau archwilio, hyfforddiant a threfniadau llywodraethu cryfach wedi cael eu cyflwyno mewn sawl awdurdod er mwyn gwella cydymffurfedd ac ansawdd diogelu.
- Erys heriau o hyd, gan gynnwys galw a chymhlethdod cynyddol, achosion o brinder staff o fewn y gweithlu, llwythi achosion mawr, ac amrywioldeb o ran mynediad amserol at ymatebion iechyd meddwl arbenigol neu ddiogelu.

Mae systemau diogelu yn fwyfwy ystyriol o drawma, ond mae’r pwysau ar y gweithlu, yr angen cynyddol, a gallu lleol anwastad yn parhau i gyfyngu ar brosesau amddiffyn amserol a chyson ledled Cymru

“Mae pobl yn cael eu helpu i reoli eu llesiant a gwneud eu penderfyniadau gwybodus eu hunain fel y gallant gyrraedd eu potensial llawn a byw’n annibynnol cyhyd â phosibl.”

- Mae technoleg gynorthwyol, teleofal ac adnoddau digidol yn cael eu defnyddio’n fwyfwy i gefnogi annibyniaeth, sy’n rhoi cyfle i oedolion reoli eu llesiant gartref.
- Mae mentrau yn y gymuned, gan gynnwys hybiau lleol, rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid, a gweithgareddau meithrin gwydnwch, yn helpu pobl i gadw cysylltiadau a chynnal annibyniaeth.
- Mae cymorth iechyd meddwl mewn ysgolion a chymunedau yn ehangu, sy’n ei gwneud yn bosibl i blant a theuluoedd reoli llesiant emosiynol a lleihau’r angen i uwchgyfeirio achosion at wasanaethau statudol.
- Fwyfwy, mae cydgynhyrchu ac eiriolaeth yn llywio cynlluniau cymorth wedi’u personoli sy’n adlewyrchu anghenion, galluoedd a rhwydweithiau unigolion.
- Erys rhwystrau o hyd, gan gynnwys allgáu digidol (yn enwedig ymhlith oedolion hŷn a chymunedau gwledig), gallu cyfyngedig yn y sector gwirfoddol, achosion o brinder staff o fewn y gweithlu, ac anghydraddoldebau cyson o ran mynediad i gymunedau ethnig leiafrifol a chymunedau gwledig.

Mae awdurdodau lleol yn ehangu cymorth sy’n galluogi annibyniaeth, dewis a gwell llesiant, ond mae rhwystrau strwythurol—mynediad digidol, darpariaeth anghyfartal, gwledigrwydd, a phwysau ar y gweithlu—yn eu hatal rhag cyrraedd y safon hon yn holllol gyson.

# 6. Adran ar wybodaeth arall

## Arolygiadau ac adolygiadau

Rhwng mis Ebrill 2024 a mis Ebrill 2025, roedd gwasanaethau gofal cymdeithasol ledled Cymru yn destun craffu allanol dwys ac adolygiad llywodraethu mewnol. Yn ystod y cyfnod

hwn, nododd rhaglen gydgysylltiedig o arolygiadau, archwiliadau, ac ymchwiliadau wedi'u targedu gan gyrff rheoleiddio heriau sy'n parhau ac enghreifftiau o ymarfer canmoladwy yn y sector.

Mae prif ganfyddiadau'r adroddiadau gan Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn datgelu sector sy'n dangos gwydnwch drwy gydweithio, gweithio amlasiantaethol ac arloesi. Fodd bynnag, mae'r adroddiadau hyn hefyd yn pwysleisio'r angen dybryd i integreiddio problemau mynych mewn cynlluniau gwella yn well, datblygu systemau diogelu sy'n ddigon cadarn i ymdopi â'r pwysau presennol ac—yn bwysicaf oll—rhoi mwy o ffocws ar gefnogi gofalwyr di-dâl. Wrth i fframweithiau rheoleiddio barhau i ddatblygu ac wrth i ddisgwyliadau gael eu codi, bydd gallu gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru i hunangywiro ac ymaddasu yn hollbwysig o ran ateb y galw yn y dyfodol.

### Y Dirwedd Reoleiddio Gyffredinol

Mae'r gyfundrefn arolygu ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru yn seiliedig ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae'r statudau hyn yn sicrhau bod awdurdodau lleol a darparwyr annibynnol yn cael eu gwerthuso'n barhaus. Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yw'r prif adolygydd allanol, a ategir gan gyrff eraill megis Archwilio Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae adroddiadau statudol blynyddol gan awdurdodau lleol, megis y rhai gan Sir Ddinbych a Sir y Fflint, yn cadarnhau bod arolygiadau ac archwiliadau bellach wedi'u hymgorffori'n ddwfn mewn trefniadau llywodraethu, gan weithredu fel modd i gydymffurfio a sbardun i wella.

### Rôl Arolygu mewn Llywodraethu a Strategaeth

Mae awdurdodau lleol yn nodi'n gyson bod canfyddiadau arolygiadau yn allweddol o ran pennu cyfeiriad strategol, datblygiad y gweithlu, a chomisiynu. Mae awdurdodau yn rhagweld y bydd craffu yn dwysáu o ran diogelu, cynaliadwyedd ariannol, a pholisi Llywodraeth Cymru i gael gwared ar elw ym maes gofal plant yn y flwyddyn sydd i ddod.

## Cwynion a sylwadau

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweithredu o dan fframweithiau statudol megis Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a pholisïau awdurdodau lleol penodol. Mae'r systemau hyn fel arfer yn cynnwys dau gam: datrysiad anffurfiol (Cam 1) ac ymchwiliad ffurfiol (Cam 2). Mae cwynion yn aml yn rhychwantu problemau megis cyfathrebu, methiannau prosesau, ymddygiad staff, ac ansawdd gwasanaeth, ac mae rhai awdurdodau lleol yn nodi pryderon sy'n ymwneud â chydraddoldeb sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig.

Ledled awdurdodau lleol yng Nghymru, mae cwynion a sylwadau yn datgelu themâu cyson: bylchau cyfathrebu, eglurder gweithdrefnol, a phwysau ar adnoddau. Er bod gwelliannau o ran datrys yn gynnar ac eiriolaeth yn amlwg, mae angen gwneud gwaith pellach i safoni prosesau adrodd, cryfhau atebolrwydd, ac ymgorffori gwersi a ddysgwyd o gwynion wrth ail-lunio gwasanaethau. Bydd y camau hyn nid yn unig yn lleihau nifer y cwynion ond byddant hefyd yn gwella ymddiriedaeth ac ansawdd wrth ddarparu gofal cymdeithasol.

### Themâu sy'n Ymddangos mewn Awdurdodau Lleol

### 1. Cyfathrebu a Methiannau Prosesau

Un thema sy'n codi dro ar ôl tro yw anfodlonrwydd gyda chyfathrebu a diffygion gweithdrefnol canfyddedig. Er enghraifft, mae Sir Fynwy yn nodi:

*O ran cwynion Cam 1 gan rieni, "y duedd amlycaf [oedd] diffyg cyfathrebu canfyddedig, methiant honedig prosesau, ymddygiad staff, anghytuno â phenderfyniadau a wnaed, diffyg cymorth a phryder ynglŷn â safonau".*

Yn y gwasanaethau "drws ffrynt" y gwelwyd y problemau hyn amlaf, lle mae nifer mawr o atgyfeiriadau a phwysau ar adnoddau yn peri mwy o oedi.

## 2. Niferoedd a Thueddiadau o ran Datrys

Mae nifer y cwynion yn amrywio'n sylweddol. Cofnododd Wrecsam 49 o gŵynion yn 2024-25, o gymharu â 75 yn y flwyddyn flaenorol, sy'n awgrymu bod cynnydd yn cael ei wneud o ran datrys yn gynnar a chymorth eiriolaeth. Nododd Conwy *"gall fod yn anodd nodi themâu unigol mewn perthynas â chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol am fod llawer yn gymhleth eu natur ac yn cynnwys mwy nag un elfen".* Mae Conwy yn nodi lleihad o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y cwynion ffurfiol, ond mae wedi gweld cynnydd mewn gweithgarwch cwyno yn gyffredinol, ochr yn ochr â chynnydd mewn canmoliaeth, sy'n awgrymu gwell ymatebolrwydd. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, mae Sir Ddinbych yn nodi, er bod y niferoedd cyffredinol yn fach, bod angen ymchwiliadau ffurfiol o achosion cymhleth o hyd, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n cynnwys diogelu neu achosion llys.

## 3. Eiriolaeth a Chynrychiolaeth

Mae sawl awdurdod lleol yn pwysleisio eiriolaeth fel dull o sicrhau tegwch. Mae Sir Fynwy yn cyfeirio at rôl Llais a'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol i gefnogi achwynwyr, gan gynnwys pobl ifanc a allai fel arall gael anhawster i fynd drwy brosesau ffurfiol. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad ehangach i lais a dewis, sy'n cyd-fynd â'r dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## 4. Cydraddoldeb a Hygyrchedd

Mae awdurdodau fel Sir y Fflint yn pwysleisio cydymffurfedd â safonau hygyrchedd, gan sicrhau *"[bod] gwybodaeth am gwynion ar gael yn ddwyieithog, gan gynnwys ar ffurf ar-lein a chopi caled, a gellir gwneud addasiadau mewn fformatau eraill".* Mae'r dull gweithredu hwn yn cefnogi cynhwysiant ond mae hefyd yn tynnu sylw at yr angen am fonitro parhaus i atal rhwystrau i unigolion niwrowahanol neu'r rhai ag anawsterau cyfathrebu.

## Meysydd i'w Gwella a Dysgu

Er gwaethaf y cynnydd, erys sawl her systemig o hyd:

- **Pwysau wrth y Drws Ffrynt:** Mae'r cyfraddau uchel o gwynion mewn timau derbyn yn awgrymu bod angen mwy o adnoddau a phrosesau symlach i reoli'r galw yn effeithiol.
- **Safonau Cyfathrebu:** ac mae camgyfathrebu ac oedi yn dal i fod yn sbardun cyffredin i uwchgyfeirio achosion. Gallai buddsoddiad mewn hyfforddiant i'r staff a phrotocolau cliriach leihau nifer y cwynion.
- **Tryloywder Data:** Er bod rhai awdurdodau lleol yn cyflwyno adroddiadau ar dueddiadau a chanlyniadau, cyfyngedig yw'r manylion a roddir gan eraill. Byddai proses adrodd safonol ledled Cymru yn ei gwneud yn bosibl i feincnodi a rhannu gwersi a ddysgwyd.
- **Ymgysylltu â Phobl Ifanc:** Ychydig o gwynion sy'n deillio'n uniongyrchol oddi wrth bobl ifanc, sy'n awgrymu bod rhwystrau posibl i gyfranogi. Mae ehangu prosesau eiriolaeth a rhai sy'n ystyriol o blant yn hanfodol.

**Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 5: mecanweithiau llywodraeth leol ac atebolrwydd ar gyfer cyflawni hawliau pobl o dan y Ddeddf heb orfod troi at broses gwyno wrthwynebol?**

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn cryfhau atebolrwydd am hawliau pobl drwy ddatrys yn gynnar, sicrwydd ansawdd, cydgynhyrchu a dulliau tryloyw o roi adborth, sy'n lleihau'r ddibyniaeth ar gwynion gwrthwynebol.

- Mae **Ceredigion** wedi rhoi Fframwaith Sicrwydd Ansawdd a Fforwm Chwarterol i Ymarferwyr ar waith, sy'n rhoi cyfloedd ar gyfer craffu rheolaidd a datrys problemau yn gynnar cyn eu bod yn troi'n gŵynion ffurfiol.(AGC)
- Mae **Conwy** yn defnyddio digwyddiadau ymgysylltu ac arolygon boddhad i gofnodi adborth defnyddwyr gwasanaethau a staff, sy'n helpu i fynd i'r afael â phryderon yn rhagweithiol a chryfhau atebolrwydd.
- Mae **Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Gwynedd** yn defnyddio llwybrau uwchgyfeirio clir, hunanasesu a fforymau i gymheiriaid.

## Ffynonellau eraill o wybodaeth

Mae awdurdodau lleol yn dangos pwyslais cryf ar sicrhau bod cyfrifoldebau statudol yn cyd-fynd ag amcanion sefydliadol megis cynaliadwyedd, cydraddoldeb, ac ymrwymiadau ynglŷn â'r Gymraeg. Maent hefyd yn dangos sut mae awdurdodau lleol yn ymateb i ysgogwyr polisïau cenedlaethol, gan gynnwys targedau o ran datgarboneiddio a deddfwriaeth cydraddoldeb.

### Cysoni Corfforaethol ac Integreiddio Strategol

Un duedd amlwg ymhlith awdurdodau lleol yw bod gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hintegreiddio mewn strategaethau corfforaethol ehangach. Mae awdurdodau yn cydnabod fwyfwy na all gofal cymdeithasol weithredu ar ei ben ei hun; rhaid iddo gyfrannu at nodau cyffredinol ar gyfer llesiant cymunedol, cynaliadwyedd ariannol, a gwydnwch sefydliadol.

### Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd a Datgarboneiddio ym maes Gofal Cymdeithasol

Nid mater ymylol yw newid yn yr hinsawdd mwyach; mae'n gynyddol ganolog i'r gwaith o gynllunio gwasanaethau cymdeithasol. Mae Cymru Sero Net - Cyllideb Garbon Llywodraeth Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) wedi ysgogi awdurdodau lleol i ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol wrth lunio a darparu gwasanaethau.

Cyfeiriodd hanner y 22 o awdurdodau lleol yn benodol at newid yn yr hinsawdd neu ddatgarboneiddio yn adroddiadau blynyddol eu gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r cyfeiriadau hyn yn amrywio o ymrwymiadau lefel uchel mewn cynlluniau corfforaethol i strategaethau datgarboneiddio a chamau gweithredol manwl.

Gweithiodd gwasanaethau oedolion ym Mhowys gyda Gwasanaethau Corfforaethol a TGCh i ddatblygu porth cynaliadwyedd i helpu darparwyr gofal cymdeithasol i leihau eu defnydd o garbon a symud tuag at arferion gwyrddach yn eu cadwyni cyflenwi.

*"Enillodd gwasanaethau oedolion grant gan Bwyllgor Argyfwng Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a gweithiodd gyda Gwasanaethau Masnachol a TGCh i ddatblygu porth cynaliadwyedd i gefnogi darparwyr gofal cymdeithasol i leihau eu defnydd o garbon a symud i arferion mwy gwyrdd yn eu cadwyni cyflenwi."* (*Powys*)

*"Mae'r porth wedi ennill dwy Wobr GO Cymru! ac mae wedi cael ei enwebu am wobr newid hinsawdd yn y DU am ei warth o fewn cadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus."* (*Powys*)

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cyfeirio at newid yn yr hinsawdd mewn cynlluniau corfforaethol ac asesiadau effaith integredig.

O blith yr awdurdodau lleol sy'n cyfeirio at newid yn yr hinsawdd, mae llawer yn datblygu cynlluniau datgarboneiddio ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys asesiadau llinell sylfaen carbon, uwchraddio effeithlonrwydd ynni, a mabwysiadu ynni adnewyddadwy fel paneli solar a phympiau gwres. Mae'r ymdrechion hefyd yn ymestyn i staff yn defnyddio cerbydau trydan i ymgymryd â'u dyletswyddau gofal, archwiliadau o ynni sy'n dargludo trydan, hyrwyddo arferion arbed ynni ymhlith y staff, rhoi polisïau caffael gwyrdd ar waih, a mwy o ddigideiddio er mwyn lleihau'r defnydd o bapur a'r angen am deithio. Mae awdurdodau lleol, megis Rhondda Cynon Taf hefyd yn cefnogi mentrau bioamrywiaeth, drwy ddarparu mannau gwyrdd a phlannu coed, gwrychoedd a blodau gwyllt.

Erys heriau o hyd, megis data cyfyngedig ar allyriadau, cyfyngiadau cyllidol, parhau i ymgysylltu â'r gweithlu, a dylanwadu ar gartrefi gofal sy'n cael eu rhedeg yn breifat. Mae'r blaenoriaethau yn y dyfodol yn cynnwys pennu targedau lleihau carbon sy'n gyson â nodau sero net, ehangu caffael gwyrdd, ac integreiddio'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd mewn gwaith cynllunio diogelu a chynllunio brys.

## Cynllunio Cydraddoldeb Strategol

Erys cydraddoldeb yn flaenoriaeth statudol a gwleidyddol o hyd. Mae Llywodraeth Cymru yn cyllido ac yn cefnogi cynlluniau gweithredu wedi'u targedu ynglŷn â chydraddoldeb, gan gynnwys Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau, y Cynllun Gweithredu LHDTC+ a Chynllun Hawliau Pobl Anabl sydd yn yr arfaeth. Maent i gyd wedi'u hanelu at sbarduno gwelliannau ystyrlon ar gyfer cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae adrannau gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru yn mynd ati'n weithredol i ymgysylltu â'r cynlluniau hyn, drwy adolygu polisïau a gweithdrefnau ynghylch recriwtio a chamu ymlaen yn eich gyrfa, profiadau bywyd staff ethnig leiafrifol a'r defnydd o wasanaethau cyfieithu a dehongli. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn cefnogi'r gwaith o roi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith drwy hyfforddiant a chymorth a gynigir i'r gweithlu gofal cymdeithasol. Er enghraifft, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn helpu i roi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith drwy fodiwlau e-ddysgu gwrth-hiliaeth cenedlaethol sy'n helpu'r gweithlu gofal cymdeithasol i ddeall effaith hiliaeth a chymhwyso arferion gwrth-hiliol diwylliannol briodol yn eu gwaith pob dydd.

Un ffordd y mae Gofal Cymdeithasol Cymru a Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gweithlu ethnig leiafrifol yw drwy ddatblygu Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu. Mae Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu yn adnodd i helpu i fonitro profiad pobl o leiafrifoedd ethnig sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bwriad yr adnodd yw helpu i sicrhau newid gwirioneddol mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Mae awdurdodau lleol wrthi'n ymgorffori egwyddorion Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn eu strategaethau gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys rhoi hyfforddiant ar gymhwysedd diwylliannol i staff, adolygu arferion recriwtio er mwyn sicrhau tegwch, a

gweithio gyda chymunedau i fynd i'r afael â rhwystrau systemig. Mae llawer o awdurdodau lleol wedi cysylltu'r camau gweithredu hyn â fframweithiau cydraddoldeb a chynhwysiant ehangach, gan sicrhau bod ymrwymiadau gwrth-hiliol yn cael eu hadlewyrchu mewn trefniadau llywodraethu, datblygu'r gweithlu, a darparu gwasanaethau.

*"Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn allweddol i ni eleni ac yr ydym wrthi'n cyflawni camau gweithredu ac argymhellion a nodir yn y cynllun, gan gynnwys fersiynau pellach o hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chefnogaeth i staff o gefndiroedd ethnig lleiafrifol gyda recriwtio, cadw swyddi a phrofiadau o hiliaeth yn y gweithle." (Conwy)*

Mae'r rhan fwyaf o adroddiadau blynyddol awdurdodau lleol yn cyfeirio at Gynllun Cydraddoldeb Strategol, sy'n pennu nodau hirdymor ac amcanion cydraddoldeb.

Mae awdurdodau lleol yn cysylltu'r amcanion cydraddoldeb hyn â datblygu'r gweithlu, hygyrchedd gwasanaethau, ac ymgysylltu â'r gymuned. Fodd bynnag, mae'r ffordd y cânt eu rhoi ar waith yn amrywio—mae rhai awdurdodau lleol yn darparu cynlluniau gweithredu manwl sy'n cynnwys canlyniadau mesuradwy, ond dim ond ymrwymiadau lefel uchel a gynigir gan eraill.

**Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cwestiwn Prawf 6:asiantaeth dinasyddion i sicrhau bod lleisiau'r rhai nad ydyn nhw'n cael eu clywed yn aml, a hefyd yn cael eu gwthio i'r ymylon, yn atseinio, gan arwain at newid sylweddol yn eu profiadau?**

Mae awdurdodau lleol yn cryfhau galluogedd dinasyddion drwy ymgorffori ymgysylltu cynhwysol, cydgynhyrchu ac eiriolaeth fel bod y lleisiau a glywir yn anfynych a grwpiau wedi'u hymyleiddio yn llywio penderfyniadau a chanlyniadau gofal cymdeithasol yn uniongyrchol.

- **Cyngor Caerdydd:** Mae'r Fframwaith Cyfranogi ac adnoddau digidol megis "Gwrandewch, Siaradwch" yn galluogi plant a phobl ifanc i ddylanwadu ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu llunio ac arferion diogelu, sy'n cryfhau llais a galluogedd.
- **Cyngor Sir Ddinbych:** Mae grwpiau ymgysylltu penodol yn sicrhau bod gofalwyr a phobl ag anghenion ychwanegol yn cael eu clywed, gan ddangos tystiolaeth o gynhwysiant wedi'i dargedu y tu hwnt i ymgyngoriadau statudol.
- **Llywodraeth Cymru (fframwaith cenedlaethol):** gwnaeth canllawiau o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 sefydlu Llais, a atgyfnerthir gan Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

## Strategaethau'r Gymraeg

Mae cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ofyniad statudol o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae awdurdodau lleol wedi blaenoriaethu'r Gymraeg ym maes gofal cymdeithasol drwy ymgorffori egwyddor y *Cynnig Rhagweithiol*, strategaeth "Mwy na Geiriau" a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn golygu sicrhau y gall unigolion gael gwasanaethau yn Gymraeg heb orfod gofyn am hynny. Mae awdurdodau lleol wedi buddsoddi mewn gweithgarwch i ddatblygu'r gweithlu drwy raglenni hyfforddiant wedi'u teilwra, cyrsiau ennyn hyder, a phartneriaethau â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae cyhoeddiadau dwyieithog, cynllunio gofal, a gwasanaethau eirioli wedi dod yn arfer safonol, a gefnogir gan arweinyddiaeth strategol drwy fyrddau a fforymau rhanbarthol.

"*Rydym yn parhau i gyflwyno a monitro'r defnydd o hyfforddiant ymhlith aelodau staff gofal cymdeithasol. Mae 37 o weithwyr y cyngor yn cwblhau'r cyrsiau Cymraeg Gwaith 30 wythnos ar gyfer 24/25. Rydym hefyd yn hyrwyddo cyrsiau dysgu hunangyfeiriedig 'Camau' Gofal Cymdeithasol Cymru." (Abertawe)*

Yn ogystal â chydymffurfio, mae awdurdodau lleol yn cymryd camau rhagweithiol i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd. Mae enghreifftiau yn cynnwys monitro sgiliau Cymraeg y staff, cyllido prosiectau ieuenctid cyfrwng Cymraeg, ac integreiddio ystyriaethau ynghylch y Gymraeg mewn trefniadau recriwtio a llywodraethu. Mae'r camau gweithredu hyn yn adlewyrchu ymrwymiad i hunaniaeth ddiwylliannol a chydraddoldeb, gan sicrhau bod dinasyddion Cymraeg eu hiaith yn cael gwasanaethau sy'n parchu eu hawliau ieithyddol.

"*Rydym yn parhau i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a'r fframwaith 'Mwy na Geiriau', gan wneud cynnig gweithredol i gyfathrebu yn Gymraeg i unrhyw un sy'n dymuno hynny a chefnogi staff drwy hyfforddiant iaith wedi'i deilwra a mentrau ennyn hyder." (Caerffili)*

## Canfyddiadau Arolygiadau – trosolwg thematig

### Cryfderau

Mae tystiolaeth arolygiadau yn dangos, er gwaethaf y pwysau estynedig ar systemau, fod gofal cymdeithasol yng Nghymru yn parhau i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r rhan fwyaf o oedolion a phlant. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau rheoleiddiedig yn darparu gofal o ansawdd da, a gefnogir gan staff ymrwymedig ac arweinyddiaeth gref a arweinir fwyfwy gan werthoedd. Mewn gwasanaethau oedolion, canfu arolygwyr fod ymarfer seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn beth cyffredin, ochr yn ochr ag arloesedd cynyddol ym maes gofal cartref a gwell dulliau ataliol a chymorth cynnar a gyflwynir drwy waith partneriaeth effeithiol. Cafwyd llai o weithgarwch gorfodi o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sy'n awgrymu bod ansawdd cyffredinol gwasanaethau wedi gwella.

Mae gwasanaethau plant yn rhoi darlun yr un mor gadarnhaol. Roedd y rhan fwyaf o gartrefi gofal wedi cael gradd 'da' neu 'rhagorol', gyda thystiolaeth bod y gweithlu yn dod yn fwy sefydlog. Roedd arferion diogelu ar eu cryfaf lle roedd asiantaethau yn rhannu dealltwriaeth glir o drothwyon ac yn cydweithio â'i gilydd. Nodwyd cynnydd hefyd o ran lleihau darpariaeth heb ei chofrestru a gwella lefelau adrodd. Yn gyffredinol, daw AGC i'r casgliad bod y sector yn dangos gwydnwch, dysgu a gwelliant, a ategir gan arweinyddiaeth, gweithio mewn partneriaeth a ffocws clir ar hawliau a chanlyniadau pobl.

### Risgiau

Er gwaethaf y cryfderau hyn, mae'r system yn dal i fod o dan bwysau estynedig. Mae galw cynyddol, anghenion cynyddol gymhleth, achosion o brinder staff o fewn y gweithlu a chyfyngiadau ariannol yn parhau i effeithio ar wasanaethau oedolion a gwasanaethau plant. Mae'r pwysau hyn yn effeithio'n benodol ar amseroldeb asesiadau, mynediad at ofal a sefydlogrwydd y gweithlu. Mae anhawsterau i recriwtio a chadw staff yn parhau, gyda dibyniaeth o hyd ar staff asiantaeth a staff tramor. Mae achosion o oedi o ran trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yn amlygu ymhellach y pwysau sydd ar y system. Gyda'i

gilydd, mae'r risgiau hyn yn peryglu cynaliadwyedd a chysondeb gwelliannau diweddar os nad eir i'r afael â nhw.

**Camau Gweithredu**

Mae canfyddiadau arolygiadau yn awgrymu tri cham gweithredu ar lefel system sy'n cefnogi gwelliant:

- **Cryfhau arweinyddiaeth a gweithio mewn partneriaeth**, gan adeiladu ar arweinyddiaeth a lywir gan werthoedd ac ymarfer cydweithredol i gynnal ansawdd gwasanaethau sydd o dan bwysau.
- **Sefydlogi a chefnogi'r gweithlu**, drwy weithredu ar recriwtio a chadw staff a lleihau dibyniaeth ar staff asiantaeth er mwyn gwella parhad a gwydnwch.
- **Gwella amseroldeb a llif systemau**, gan gynnwys lleihau oedi cyn cynnal asesiadau a mynd i'r afael ag ôl-groniadau o ran trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid, er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael gofal a chymorth yn ôl yr angen.

**Ceir rhagor o ganfydddiadau manwl arolygiadau o awdurdodau lleol yn Atodiad B.**

## Casgliad

Mae adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ledled Cymru yn parhau i ddatblygu drwy gyfnod o gyflawni sylweddol, pwysau sy'n dwysáu, ac ymrwymiad o hyd i wella. Mae'r tueddiadau allweddol y flwyddyn hon yn datgelu sector sy'n cael ei lywio fwyfwy gan ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gweithgarwch ataliol wedi'i gryfhau, a chydweithio cynyddol rhwng iechyd, awdurdodau lleol, a'r trydydd sector. Mae sgyrsiau am "yr hyn sy'n bwysig", dulliau sy'n ystyriol o drawma, a chydgynhyrchu bellach wedi'u hymgorffori'n gyffredinol, sy'n helpu i sicrhau gan bobl lais, dewis, a rheolaeth wrth lywio eu gofal. Mae gwaith ataliol—drwy hybiau cymorth cynnar, cymorth yn y gymuned, ailalluogi, a llwybrau gwybodaeth, cyngor a chymorth cryfach—yn parhau i leihau'r angen i uwchgyfeirio achosion ac yn hybu annibyniaeth.

Mae cyflawniadau'r sector yn nodedig. Mae awdurdodau lleol wedi ehangu gwasanaethau ymyrryd yn gynnar, wedi cryfhau trefniadau diogelu, wedi gwella'r defnydd o adnoddau digidol a thechnoleg gynorthwyol, ac wedi buddsoddi yn y gweithlu drwy ddatblygu arweinyddiaeth, mentrau llesiant, a llwybrau "tyfu eich rhai eich hun". Mae'r broses o roi'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth ar waith yn newid pwysig tuag at ganlyniadau teg a moesegol sy'n canolbwyntio ar ofal ond, ar hyn o bryd, mae hyn wrthi'n cael ei ymgorffori mewn ymarfer o hyd.

Fodd bynnag, erys heriau cyson o hyd. Mae achosion o brinder staff o fewn y gweithlu, lefel uchel o swyddi gwag mewn rolau arbenigol, galw cynyddol, a chymhlethdod cynyddol yn parhau i roi pwysau ar wasanaethau. Mae cyfyngiadau ariannol yn dwysáu, sy'n cyfyngu ar y

gallu i gynnal rhaglenni ataliol a marchnadoedd comisiynu, drwy ddarparu sylfaen sefydlog ac amrywiol o ansawdd uchel o ddarparwyr er mwyn sicrhau parhad gofal a chymorth. Mae allgáu digidol, anghydraddoldebau o ran canlyniadau i gymunedau ethnig leiafrifol a gwledig, ac ansawdd anghyson data yn parhau'n rhwystrau i gyflawni uchelgeisiau'r Ddeddf yn llawn.

Gan edrych i'r dyfodol, mae blaenoriaethau ledled Cymru yn canolbwyntio ar ddyfnhau cydgynhyrchu, sefydlogi a datblygu'r gweithlu, cryfhau trefniadau comisiynu integredig, ehangu gweithgarwch ataliol yn y gymuned, a gwella data a dealltwriaeth. Gydag arweinyddiaeth gref, cydweithio, a diwygiadau sy'n parhau, mae'r sector yn ymrwymedig o hyd i ddarparu gofal diogel, tosturiol, a chynaliadwy sy'n hyrwyddo llesiant i bawb.

Mae'r adroddiad ar Gyflwr y Genedl yn rhoi sylfaen dystiolaeth gyffredin er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu polisïau, gweithgarwch gwella a thrafodaethau cenedlaethol ar ofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n dwyn ynghyd ddata, canfyddiadau arolygiadau a dealltwriaeth awdurdodau lleol i nodi lle mae'r system yn perfformio'n dda, lle mae pwysau o hyd, a lle y gall diwygiadau wedi'u targedu gael yr effaith fwyaf. Bydd yr adroddiad yn helpu Llywodraeth Cymru i lywio blaenoriaethau polisi yn y dyfodol, diwygiadau comisiynu a gwaith cynllunio'r gweithlu, gan gynnig darlun clir a chytbwys o gynnydd a her ar yr un pryd.

Ar gyfer awdurdodau lleol, gall yr adroddiad gael ei ddefnyddio fel adnodd meincnodi a dysgu, sy'n helpu i roi perfformiad lleol yn ei gyd-destun, nodi cyfleoedd i wella a dangos arferion effeithiol. Bydd hefyd yn llywio'r gwaith o ddatblygu nodiadau canllaw ar gyfer adroddiadau blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, gan sicrhau mwy o gysondeb ac eglurder ledled Cymru.

Mae'r camau nesaf yn cynnwys defnyddio canfyddiadau'r adroddiad hwn wrth ddatblygu polisïau yn y dyfodol a bwydo i mewn i ddulliau dysgu a gwella parhaus, gan gynnwys drwy'r grwpiau canlynol a arweinir gan y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth.

- Fforwm Ymarfer Da Gofal Cymdeithasol
- Rhwydwaith Arloesedd Gofal Cymdeithasol
- Grŵp Prosiect (Argyfwng) Newid Hinsawdd Gofal Cymdeithasol

# Atodiadau

## Atodiad A – Rhestr termau

| Term/Acronym | Disgrifiad |
|---|---|
| Ailalluogi / Adsefydlu/ Gofal Interim | Gelwir y gofal byrdymor hwn yn ofal canolraddol, neu ôl-ofal weithiau. Mae ailalluogi yn fath o ofal sy'n helpu pobl i ailddysgu sut i wneud gweithgareddau beunyddiol, fel coginio prydau bwyd ac |

| | |
|---|---|
| | ymolchi. Caiff ei ddarparu gan awdurdodau lleol gyda'r nod o liniaru'r angen am ofal a chymorth yn yr hirdymor. |
| Gofal Cartref / Gofal Cymorth Cartref | Mae'r gofal hwn, a elwir hefyd yn "gofal yn y cartref", yn cyfeirio at amrywiaeth eang o wasanaethau gofal a ddarperir yng nghartref unigolyn. Gall gynnwys cymorth gyda bywyd pob dydd a phroblemau gofal iechyd penodol i bobl oedrannus. |
| Cartref Gofal Preswyl / Cartref Nyrsio | Mae cartref gofal preswyl yn darparu llety a gofal a chymorth personol 24 awr i'r bobl hŷn ac eraill a all ei chael hi'n anodd ymdopi â bywyd pob dydd yn y cartref. Mae cartref gofal preswyl a chartref nyrsio yn darparu gofal a chymorth 24 awr y dydd, ond, y prif wahaniaeth yw y gall cartref nyrsio roi lefel uwch o ofal. Mewn cartrefi nyrsio mae nyrsys cymwysedig ar y safle ddydd a nos er mwyn rhoi gofal meddygol yn ôl yr angen ond mae cartrefi preswyl yn helpu pobl gyda gofal personol a'u cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. |
| Plant â phrofiad o fod mewn gofal | Term cyffredinol yw plant â phrofiad o fod mewn gofal sy'n gallu golygu plant / pobl ifanc:<br>• sy'n derbyn gofal yn y cartref drwy Orchymyn Gofal<br>• sy'n derbyn gofal oddi cartref mewn tŷ preswyl i blant, mewn lleoliad maeth neu mewn lleoliad â pherthynas (Derbyn gofal neu Ddim yn derbyn gofal)<br>• a oedd yn arfer derbyn gofal, lle maent wedi cael unrhyw un o'r profiadau uchod rywbryd yn ystod eu bywyd. Mae'n bosibl nad yw'r plant / person ifanc erioed wedi derbyn gofal yn ffurfiol. |
| Person sy'n Gadael Gofal | Yng Nghymru, unigolion sydd wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol am o leiaf 13 wythnos ers pan oeddent yn 14 oed ac sydd wedi gadael gofal ar neu ar ôl eu pen-blwydd yn 16 oed yw pobl sy'n gadael gofal. Bwriedir i'r cymorth a roddir i bobl sy'n gadael gofal gyfateb i'r hyn y gallai plentyn nad yw wedi derbyn gofal yn rhesymol ei ddisgwyl oddi wrth eu rhieni. |
| Plant sy'n derbyn gofal | Plant y mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb amdanynt o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. |
| Diogelu | Mae diogelu yn ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion rhag camdriniaeth neu esgeulustod ac addysgu'r rhai o'u hamgylch i adnabod yr arwyddion a'r peryglon. |

| | |
|---|---|
| Gweithdrefnau Diogelu Cymru | Maent yn manylu ar rolau a'r cyfrifoldebau hanfodol i ymarferwyr er mwyn sicrhau eu bod yn diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gamdriniaeth ac esgeulustod. Mae'n cynnig rhestr termau ddefnyddiol o dermau diogelu: Diogelu Cymru |
| Fframwaith Perfformiad a Gwella: Mesur gweithgarwch a data perfformiad | Mae'n amlinellu fframwaith o fetrigau sy'n cwmpasu oedolion, plant, a gofalwyr, y mae'n rhaid eu casglu a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru ynghyd â data ar lefel unigolyn sydd wedi'u hanonymeiddio a data cyfun ar agweddau penodol ar ofal cymdeithasol. Mae'n nodi y dylai awdurdodau lleol hefyd gasglu eu data eu hunain er mwyn deall yn well sut mae'r broses o ddarparu gofal cymdeithasol yn lleol yn gweithio yn unol â blaenoriaethau lleol. |
| Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) | Rheoleiddiwr darparwyr gofal cymdeithasol yw AGC. Bydd yn cofrestru, yn arolygu ac yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru. |
| Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) | Rheoleiddiwr y gweithlu yw GCC. Fel rhan o'r gwaith hwn mae'n cofrestru'r gweithlu gofal a chymorth, yn pennu safonau ar eu cyfer ac yn datblygu'r gweithlu. Mae gan GCC gylch gwaith i wella hefyd. Fel rhan o hyn bydd yn rhannu arferion da, yn pennu blaenoriaethau ar gyfer ymchwil ac yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd a sefydliadau eraill. |
| Preswylydd / Dinesydd | Person sydd fel arfer yn preswylio o fewn ffiniau awdurdod lleol. |
| Defnyddiwr Gwasanaeth | Person sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol. |
| Cysylltu Bywydau / Cynllun Lleoli Oedolion | Ffordd deuluol o gefnogi anghenion pobl agored i niwed o ran tai yw Cynlluniau Cysylltu Bywydau – a elwir hefyd yn lleoliadau oedolion.<br>Gall y math hwn o lety cynorthwyol fod yn gam delfrydol ar y ffordd tuag at fyw'n annibynnol. Cyfeirir at y trefniant rhannu hwn yn aml fel 'cysylltu bywydau'. |
| Taliadau Uniongyrchol | Rhoddir taliadau uniongyrchol i unigolion sy'n caniatáu iddynt dalu am eu gofal eu hunain. Maent yn cynnig ffordd i awdurdodau lleol allu helpu i ddiwallu anghenion cymwys unigolyn am ofal a chymorth, neu angen gofalwr am gymorth. Maent yn cynnig ffordd i bobl drefnu eu gofal a'u cymorth eu hunain. |
| Byw â Chymorth / Llety â Chymorth | Math o lety sy'n darparu gofal, cymorth neu oruchwyliaeth bersonol i helpu pobl i fyw'n |

| | |
|---|---|
| | annibynnol yw llety byw â chymorth. Mae'r gofal a'r cymorth ar wahân i'r contract tai. Gall y llety fod yn llety a rennir neu'n llety unigol, yn dibynnu ar anghenion a dymuniadau'r deiliaid. |
| Gofalwr di-dâl | Rhywun sy'n rhoi gofal a chymorth i aelodau o'r teulu, ffrindiau, neu gymdogion y mae anabledd, salwch corfforol neu salwch meddwl, eiddilwch, neu gamddefnyddio sylweddau yn effeithio arnynt yw gofalwr di-dâl. Nid oes angen bod y gofalwr yn byw gyda'r person y mae'n gofalu amdano. |
| Gofalwr Ifanc | Gofalwr di-dâl hyd at 18 oed yw gofalwr ifanc. Efallai ei fod yn rhoi gofal a chymorth i rieni, brodyr/chwiorydd neu aelodau eraill o'r teulu. |
| Cynllun Gofal a Chymorth | Dogfen sy'n nodi'r hyn sydd wedi cael ei drafod yn ystod asesiad o anghenion gofal cymdeithasol a'r hyn sy'n mynd i ddigwydd o ganlyniad i hynny yw cynllun gofal a chymorth. Cynllun y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ei baratoi a'i gynnal o dan adran 54(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ydyw. |
| Cynllun Cymorth Gofalwr | Os oes gan ofalwyr di-dâl anghenion sy'n golygu eu bod yn gymwys i gael cymorth, mae dyletswydd statudol ar yr awdurdod lleol i gynllunio ar gyfer yr anghenion hynny a'u diwallu drwy ddarparu 'Cynllun Cymorth Gofalwr'. Os nodir anghenion cymwys ar gyfer cymorth i'r gofalwr di-dâl, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu. |
| Eiriolaeth | Mae eiriolwyr ym maes gofal cymdeithasol yn annibynnol ar yr awdurdod lleol (cyngor lleol) a'r GIG. Maent yn cael eu hyfforddi i helpu pobl i ddeall eu hawliau, mynegi eu barn a'u dymuniadau, a helpu i wneud yn siŵr bod eu llais yn cael ei glywed. |
| Atal ac Ymyrryd yn Gynnar | Mathau o gymorth sydd wedi'u hanelu at wella canlyniadau i bobl neu atal eu hangen neu eu risg rhag gwaethygu yw atal ac ymyrryd yn gynnar. Cyfeirir atynt weithiau fel cymorth cynnar neu wasanaethau ataliol. |
| Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 | Rheoliadau a gyflwynodd broses dau gam newydd i ymdrin â chwynion a sylwadau ynglŷn â gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae'n golygu bod y broses ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn unol â'r |

| | |
|---|---|
| | Polisi a'r Canllawiau Pryderon a Chwynion Enghreifftiol a Gweithdrefn Gwyno Gweithio i Wella'r GIG. |
| Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid | Gweithdrefn gyfreithiol yn y DU yw'r rhain. Y nod yw amddiffyn pobl sy'n agored i niwed mewn lleoliadau gofal. Mae'n gymwys i oedolion nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i gydsynio i'w trefniadau gofal ac y mae angen eu hamddifadu o'u rhyddid. Maent yn sicrhau bod y rhai na allant gydsynio i'w gofal yn cael eu hamddiffyn pan fydd eu trefniadau yn eu hamddifadu o'u rhyddid. Bydd Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn eu disodli yn y dyfodol. |
| Mwy Na Geiriau | Strategaeth a chynllun cyflawni sydd â'r nod o wella ansawdd gofal i unigolion sy'n byw mewn gwlad ddwyieithog yw Mwy na Geiriau. |
| Gofal ychwanegol | Darparu pecyn gofal cartref i unigolyn sy'n byw mewn llety â chymorth. |
| Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | Cynllun gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â hiliaeth a gwneud 'newidiadau ystyrlon a mesuradwy' i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru. Nod y cynllun yw gwneud Cymru yn wlad wrth-hiliol erbyn 2030. |
| Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Mae'n cyfeirio at gysylltiadau ac atgyfeiriadau – cydsyniad a lefel yr wybodaeth a gofnodir – dolen i asesiad cymesur |
| Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) | Mae'n cyfeirio at bobl ifanc nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant galwedigaethol ac nad ydynt mewn cyflogaeth â thâl. Gall unigolion NEET wynebu anfantais gymdeithasol ac economaidd. |
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | Cyfraith sydd â'r nod o wella llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt, a thrawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. |

## Atodiad B - Uchafbwyntiau Arolygiadau a Chanfyddiadau Asiantaethau

### Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC):

- **Sir Benfro** – Gwasanaethau Oedolion (Ebrill 2024): Canfu'r gwiriad gwelliant gynnydd o ran arweinyddiaeth a llywodraethu ers gwerthusiad 2022, a bod yr oedi mewn amseroedd aros ar gyfer asesiadau wedi lleihau ryw ychydig. Fodd bynnag, ceir oedi o hyd, ac mae heriau recriwtio yn parhau er gwaethaf arwyddion o sefydlogrwydd y gweithlu. Argymhellir monitro a chymorth wedi'i dargedu parhaus er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu'n amserol.
- **Ynys Môn** – Gwasanaethau Oedolion (Mehefin 2024): Nododd arolygwyr fod rhestrau aros wedi lleihau'n sylweddol, ynghyd ag ymgysylltu cadarnhaol â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Er bod gwelliannau yn amlwg, mae angen rhagor o fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol a systemau digidol i gynnal y cynnydd. Cynghorir y dylid parhau i ganolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar.
- **Sir Gaerfyrddin** – Gwasanaethau Plant (Hydref 2024): Nododd yr arolygiad ymrwymiad cadarn i ddiogelu a chydweithio amlasiantaethol effeithiol. Mae amseroldeb asesiadau a gwaith cynllunio gofal wedi gwella, ond mae'r pwysau ar y gweithlu yn achosi risg o ran parhau â'r cynnydd. Mae'r argymhellion yn cynnwys y dylid parhau i ddatblygu'r gweithlu ac ymgorffori prosesau sicrwydd ansawdd cadarn.
- **Caerdydd** – **Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant** (Ion–Mai 2024): Canfu'r adolygiad hwn, sef adolygiad ar y cyd gan AGC, HMICFRS, AGIC, a Estyn, fod "pwysau cronig ar wasanaethau" oherwydd y galw cynyddol ac achosion o brinder staff o fewn y gweithlu, ond nododd "At ei gilydd, mae ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yng nghyd-destun amddiffyn plant ac maent yn cynnal ffocws cadarnhaol ar ymrwymiad" gan ganmol arferion cydweithredol. Eto i gyd, nodwyd bod rhai trefniadau diogelu iechyd yn peri "*risg uniongyrchol*".
- Adroddiad Trosolwg: Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant 2019 – 2024: Mae'r adroddiad hwn yn adolygu trefniadau diogelu amlasiantaethol mewn chwe rhanbarth yng Nghymru. Canfu arweinyddiaeth gref a chydweithio effeithiol mewn llawer o feysydd, gydag arferion da megis timau wedi'u cydleoli, cyfweliadau dychwelyd adref rhagweithiol, ynghyd â strategaethau atal a rennir a oedd yn gwella canlyniadau i blant. Fodd bynnag, mae'r heriau yn parhau, gan gynnwys anghysondeb o ran rhannu gwybodaeth am fod systemau TG yn anghydnaws, ansefydlogrwydd ymhlith y gweithlu oherwydd dibyniaeth ar staff asiantaeth, a bylchau mewn arbenigedd ynglŷn â chamfanteisio troseddol a chyd-destunol. Mae'r adroddiad yn argymell y dylid gwella llwyfannau rhannu data, sefydlogi'r gweithlu, cryfhau dealltwriaeth o gamfanteisio, ac ymgorffori prosesau sicrwydd ansawdd cyson er mwyn sicrhau ymatebion amserol ac effeithiol i amddiffyn plant ledled Cymru.

### Archwilio Cymru:

**Cyngor Gwynedd –** Adolygiad o Wasanaethau Gofal Cartref (Chwefror 2025): Canfu adolygiad Archwilio Cymru o ofal cartref Cyngor Gwynedd, er bod yr awdurdod lleol wedi gwella ei ddealltwriaeth o'r galw cynyddol, nad oes ganddo gynllun clir ag adnoddau i fynd i'r

afael â rhestrau aros a gorwariant. Mae trefniadau llywodraethu a monitro perfformiad yn wan, gyda data ariannol a data gweithgareddau yn ddarniog a meincnodi cyfyngedig. Mae'r adroddiad yn argymell y dylid creu Cynllun Gwasanaethau Oedolion manwl, sy'n sicrhau bod cyllidebau yn cyd-fynd â'r galw, sy'n integreiddio data ar berfformiad a chost, ac sy'n cryfhau goruchwyliaeth er mwyn sicrhau gwerth am arian.

*"Nid oes gan y Cyngor gynllun clir sy'n nodi sut y bydd yn ateb y galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol am wasanaethau gofal cartref."*

**Adroddiadau dilynol ar ddiogelu (Casnewydd, Powys a Blaenau Gwent):** Roedd pob awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd o ran rhoi argymhellion blaenorol ar waith i gryfhau **trefniadau diogelu corfforaethol**. Mae diogelu corfforaethol yn cyfeirio at gyfrifoldeb yr awdurdoda lleol cyfan (nid dim ond gwasanaethau cymdeithasol) i amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

**Cyngor Dinas Casnewydd (Hydref 2024):** rhywfaint o gynnydd, ond mae tri argymhelliad o 2015 yn dal i fod yn anghyflawn. Canfu adroddiad dilynol Archwilio Cymru yn 2024 fod Cyngor Dinas Casnewydd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd i gryfhau trefniadau diogelu corfforaethol ac ymwybyddiaeth. Fodd bynnag, nid oedd tri argymhelliad o 2015 ynglŷn â recriwtio mwy diogel, hyfforddiant gorfodol a goruchwyliaeth gan yr aelodau wedi cael eu rhoi ar waith. Rhoddwyd pedwar argymhelliad newydd. Cydnabu'r adolygiad fod mwy o ffocws a gwelliant rhannol, ond nododd fod angen rhoi'r argymhellion ar waith yn gyflymach drwy'r cyngor cyfan.

- Mae bylchau allweddol yn cynnwys recriwtio mwy diogel, hyfforddiant gorfodol, ac adrodd ar berfformiad. Rhoddwyd pedwar argymhelliad newydd.
- **Cyngor Sir Powys (Tachwedd 2024):** Gwelliant cadarn; roedd y rhan fwyaf o'r argymhellion o 2022 wedi cael eu rhoi ar waith, gyda Bwrdd Diogelu Corfforaethol effeithiol ac adroddiadau rheolaidd. Mae angen mesurau cliriach o lwyddiant o hyd. Argymhellodd yr adolygiad y dylai Cyngor Sir Powys gryfhau arweinyddiaeth gorfforaethol a llywodraethu ar gyfer diogelu**,** egluro rolau, cyfrifoldebau a gallu'r gweithlu**,** a gwella polisïau, sicrwydd a rheoli perfformiad**,** fel y bydd risgiau diogelu yn cael eu nodi, eu monitro a'u rheoli'n gyson drwy'r sefydliad cyfan yn hytrach nag mewn gwasanaethau unigol ar eu pennau eu hunain. Daeth adroddiad cynnydd Archwilio Cymru yn 2024 i'r casgliad bod Cyngor Sir Powys wedi gwneud gwelliannau sylweddol ac amserol ac wedi rhoi'r rhan fwyaf o'r argymhellion ar waith a bod ganddo gynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r rhai a oedd yn weddill.
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (Ebrill 2025):** Canfu adolygiad cynnydd Ebrill 2025 Archwilio Cymru nad oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent "wedi gwneud cynnydd digonol" o ran datrys gwendidau diogelu corfforaethol hirsefydlog. Fodd bynnag, cydnabu Archwilio Cymru fod y Cyngor "wedi gwneud cynnydd cyfyngedig", gan nodi ei fod wedi datblygu cynllun gweithredu ar ei newydd wedd.

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:

**Adroddiad Ymchwilio Ar ei Liwt ei Hun: Asesiadau o Anghenion Gofalwyr (Hydref 2024):** Datgelodd yr ymchwiliad hwn i bedwar awdurdod lleol (Caerffili, Ceredigion, Sir y

Fflint, Castell-nedd Port Talbot) mai dim ond 2.8% o ofalwyr a oedd wedi cael asesiad o anghenion, a dim ond 1.5% a oedd wedi cael cynlluniau cymorth. *Gwnaeth yr adroddiad annog bod yn* "*rhaid gwneud rhagor i sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael eu hadnabod yn rhagweithiol a'u hysbysu am eu hawl i asesiad o anghenion gofalwr a'r cymorth a all fod ar gael iddynt*".

**Asesiad Gofal Cymdeithasol: Ceredigion (Hydref 2024):** Yng Ngheredigion, arweiniodd cwyn at ymddiheuriad, ailasesiad, a chyfarfod â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Asesiad Gofal Cymdeithasol: Powys (Ionawr 2025):** Ym Mhowys, ymyrrodd yr Ombwdsmon er mwyn sicrhau bod gwallau mewn dogfennaeth asesu yn cael eu cywiro a'u hailasesu o fewn terfyn amser tynn.

### Themâu sy'n Dod i'r Amlwg a Heriau Systemig

Mae synthesis o'r arolygiadau a'r ymchwiliadau hyn yn nodi sawl thema sy'n codi dro ar ôl tro:

- **Rheoli Perfformiad Anghyson:** Cydnabu cyrff rheoleiddio fod awdurdodau lleol yn aml yn deall pwysau systemig ond yn cael anhawster i ymgorffori'r gwirioneddau hyn mewn cynlluniau gwella y gellir eu rhoi ar waith. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn adolygiad Archwilio Cymru o Wynedd, a nododd fod diffyg cyswllt rhwng dealltwriaeth a blaenoriaethu.
- **Straen ar Wasanaethau Diogelu:** Datgelodd arolygiadau ar y cyd fod galw cynyddol ac achosion o brinder o fewn y gweithlu yn rhoi pwysau ar wasanaethau diogelu, ond nodwyd hefyd fod cydweithio amlasiantaethol cadarn. Daeth yr arolygiad yng Nghaerdydd i'r casgliad fod ymarferwyr gan mwyaf yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yng nghyd-destun amddiffyn plant.
- **Esgeuluso Gofalwyr fel Defnyddwyr Gwasanaethau:** Amlygodd ymchwiliad yr Ombwdsmon i anghenion gofalwyr fwlch allweddol: mae gofalwyr di-dâl, er gwaethaf diogelwch cyfreithiol, yn aml yn cael eu diystyru, gyda chyfradd isel iawn o asesu a chymorth. Roedd cais yr adroddiad am weithredu yn ddiamwys: *"Rhaid gwneud rhagor i sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael eu hadnabod yn rhagweithiol a'u hysbysu am eu hawl i asesiad o anghenion gofalwr a'r cymorth a all fod ar gael iddynt."*
- **Ymyriadau Gofal Ymatebol:** Mae cwynion unigol, megis y rhai sy'n ymwneud â Cheredigion a Phowys, yn nodi effeithiolrwydd ymyriadau prydlon gan yr Ombwdsmon o ran sicrhau ymddiheuriadau, cywiro data, ac ailasesiadau—sy'n dangos effaith ddiriaethol sy'n gallu deillio o oruchwyliaeth o achosion penodol.
- Mae Adroddiad Blynyddol 2024-25 Prif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn cyflwyno system sydd o dan bwysau estynedig ond sy'n parhau i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r rhan fwyaf o oedolion a phlant sy'n dibynnu ar ofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae galw cynyddol, anghenion cynyddol gymhleth, achosion o brinder staff o fewn y gweithlu a chyfyngiadau ariannol yn parhau i fod yn heriau cyson mewn gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant, gan effeithio'n benodol ar amseroldeb asesiadau, mynediad at ofal, a sefydlogrwydd y gweithlu. Mae anawsterau i recriwtio a chadw staff yn parhau, gyda dibyniaeth ar staff asiantaeth a staff tramor ac oedi o hyd o ran trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid, sy'n amlygu'r pwysau ar y system.

- Er gwaethaf y pwysau hyn, mae'r adroddiad yn nodi cryfderau sylweddol. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau rheoleiddiedig yn darparu gofal o ansawdd da, a gefnogir gan staff ymrwymedig ac arweinyddiaeth gref a arweinir yn fwyfwy gan werthoedd. Mewn gwasanaethau oedolion, canfu arolygiadau fod ymarfer seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn beth cyffredinol ym maes gofal cartref, a gwell dulliau ataliol a chymorth cynnar a gyflwynir drwy waith partneriaeth effeithiol. Cafwyd llai o weithgarwch gorfodi o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sy'n awgrymu bod ansawdd cyffredinol gwasanaethau wedi gwella.
- Mae gwasanaethau plant yn dangos darlun yr un mor gadarnhaol ar y cyfan, gyda'r mwyafrif o gartrefi gofal yn cael gradd 'da' neu 'rhagorol' a thystiolaeth bod sefydlogrwydd y gweithlu yn gwella. Roedd arferion diogelu ar eu cryfaf lle roedd asiantaethau yn rhannu dealltwriaeth glir o drothwyon ac yn cydweithio â'i gilydd. Nodwyd cynnydd hefyd o ran lleihau darpariaeth heb ei chofrestru a gwella lefelau adrodd.
- Ar y cyfan, daw AGC i'r casgliad, er bod heriau sylweddol o hyd, fod gofal cymdeithasol yng Nghymru yn parhau i ddangos gwydnwch, dysgu a gwelliant, a ategir gan arweinyddiaeth ymrwymedig, gweithio mewn partneriaeth a ffocws ar hawliau a chanlyniadau pobl.

## Atodiad C – Ymatebion i gwestiynau prawf y gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

### Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi cael ei werthuso i asesu i ba raddau y mae ei hegwyddorion a'i dyletswyddau wedi cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ac a ydynt wedi gwella canlyniadau i bobl ledled Cymru. Mae'r gwerthusiad yn ystyried cynnydd yn erbyn nodau craidd megis llesiant, llais a rheolaeth, atal, cydgynhyrchu, diogelu, gweithio mewn partneriaeth a chynaliadwyedd systemau, gan ddefnyddio data cenedlaethol, canfyddiadau arolygiadau ac archwiliadau, ymchwil, a thystiolaeth gan awdurdodau lleol.

Er mwyn cefnogi asesiad cyson o gynnydd, datblygodd Llywodraeth Cymru 19 o gwestiynau prawf. Mae'r rhain yn cynnig fframwaith strwythuredig i ystyried yr hyn sydd wedi cael ei wneud i wella gofal cymdeithasol o dan y Ddeddf, gan nodi cryfderau, bylchau a blaenoriaethau ar gyfer gwelliant yn y dyfodol. Gofynnwyd i swyddogion polisi ymateb i'r 19 cwestiwn prawf ac mae'r rhain wedi cael eu cydblethu drwy'r adroddiad cyfan. Isod, rhestrir ymatebion manylach.

1. **Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod gwelliant o ran darparu gofal cymdeithasol fel ei fod yn atgyfnerthu ffurfiau tosturiol sy'n canolbwyntio ar berthynas o wasanaethau gofal a chymorth?**

Mae awdurdodau lleol wedi blaenoriaethu gofal cymdeithasol tosturiol sy'n canolbwyntio ar gydberthnasau drwy ymgorffori modelau ymarfer seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, buddsoddi yng ngweithgarwch datblygu'r gweithlu, a meithrin cydgynhyrchu â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Er enghraifft, mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi mabwysiadu'r model Arwyddion Diogelwch, sy'n canolbwyntio ar feithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â theuluoedd a galluogi gwaith cynllunio diogelwch cydweithredol. Mae Ynys Môn yn ymrwymedig i fod yn "Ynys sy'n Wybodus am Drawma", ac mae dros 700 o staff a phartneriaid wedi cael hyfforddiant ar ddulliau gweithredu sy'n ystyriol o drawma a ffocws ar oruchwyliaeth fyfyriol. Ledled Cymru, mae awdurdodau fel Conwy a Chaerdydd wedi buddsoddi mewn cydgynhyrchu a chymorth gan gymheiriaid, gan sicrhau bod gofal cael ei lywio gan yr hyn sydd bwysicaf i unigolion a theuluoedd.

Er mwyn atgyfnerthu cymorth tosturiol sy'n canolbwyntio ar gydberthnasau ymhellach, mae'r camau gweithredu allweddol yn cynnwys buddsoddi yn llesiant y gweithlu, cadw staff, a hyfforddiant; ymgorffori modelau ymarfer cyson sy'n blaenoriaethu urddas ac empathi; cryfhau gweithgarwch atal ac ymyrryd yn gynnar; gwella cydweithio ag iechyd a phartneriaid yn y gymuned ar gyfer gwasanaethau integredig; a moderneiddio systemau digidol i leihau'r baich gweinyddol. Mae ymgysylltu'n barhaus â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn hanfodol er mwyn atgyfnerthu diwylliant lle mae tosturi a chydberthnasau yn dal i fod yn ganolog i'r gwaith o ddarparu gofal cymdeithasol.

2. **Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod gwelliant o ran y modd y mae asesiadau ar gyfer cymorth gofal cymdeithasol yn cael eu cynnal, pryd, a chan bwy fel eu bod yn gallu sicrhau'r canlyniadau llesiant gorau posibl i unigolion a gofalwyr?**

Mae awdurdodau lleol yn nodi eu bod wedi gwneud cryn dipyn o gynnydd o ran gwella sut y caiff asesiadau gofal cymdeithasol eu cynnal, pryd a gan bwy. Er enghraifft, mae model yr "Aseswr Dibynadwy" a gyflwynwyd yn galluogi therapyddion i gynnal asesiadau llesiant a rhagnodi gofal, sy'n lleihau'r pwysau ar weithwyr cymdeithasol ac yn lleihau amseroedd aros. Mae Ynys Môn wedi buddsoddi mewn hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma ac sy'n seiliedig ar gydberthnasau i fwy na 700 o staff a phartneriaid, gan feithrin asesiadau mwy empathetig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae Timau Adnoddau Cymunedol amlddisgyblaethol Conwy yn dwyn ynghyd therapyddion galwedigaethol, gweithwyr cymdeithasol, a gweithwyr iechyd proffesiynol i gynnig asesiadau amserol, holistaidd a phroses ddidrafferth o ryddhau cleifion o'r ysbyty. Ledled Cymru, mae adnoddau digidol, mynediad symlach, a phrosesau a gydgynhyrchwyd yn sicrhau bod asesiadau yn amserol ac yn seiliedig ar gryfderau.

Er mwyn gwella asesiadau ymhelllach, mae dull holistaidd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n blaenoriaethu gweithgarwch atal ac ymyrryd yn gynnar yn hanfodol. Mae awdurdodau lleol megis Sir Benfro yn hyrwyddo cydgynhyrchu ag unigolion a gofalwyr, gan sicrhau bod sgyrsiau am "yr hyn sy'n bwysig" yn llywio canlyniadau. Mae'n hollbwysig o hyd ymdrin â chapasiti'r gweithlu ac mae Sir Ddinbych yn pwysleisio recriwtio, hyfforddiant, a rolau ymarferwyr arbenigol. Mae integreiddio rhwng iechyd, gofal cymdeithasol, ac adnoddau cymunedol yn sail i welliant effeithiol. Drwy roi asesiadau ar waith ar unwaith, rhoi cymorth digidol cadarn, ac ymgysylltu'n barhaus â gofalwyr, bydd hynny'n helpu i sicrhau bod asesiadau yn sbarduno canlyniadau llesiant cynaliadwy.

**3. Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod gwelliant o ran digonolrwydd, priodoldeb a chynaliadwyedd cyllid fel y gellir cefnogi a gofalu am bawb sydd ag anghenion yn ôl diffiniad y Ddeddf?**

Mae awdurdodau lleol wedi cyflwyno mesurau amrywiol i wella digonolrwydd, priodoldeb, a chynaliadwyedd cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol, gan sicrhau cymorth i'r holl unigolion cymwys o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae Ceredigion, er enghraifft, wedi mabwysiadu gwaith cynllunio ariannol integredig a monitro cyllidebol cadarn i sicrhau bod adnoddau yn cyd-fynd â thueddiadau demograffig a dyletswyddau statudol. Mae Cynllun Datblygu Gwasanaethau Oedolion pum mlynedd Caerdydd yn blaenoriaethu gweithgarwch atal a phennu gofal "o'r maint cywir", gan dargedu arbedion sylweddol a hefyd gynnal ansawdd ar yr un pryd. Mae Sir y Fflint a Bro Morgannwg yn defnyddio cyllidebau cyfun a chomisiynu rhanbarthol i hyrwyddo cyllid cynaliadwy, teg a

lleihau anghysondebau o ran ffioedd gofal. Mae awdurdodau hefyd yn buddsoddi mewn trawsnewid digidol, datblygu'r gweithlu, a phartneriaethau â byrddau iechyd a sefydliadau gwirfoddol i sicrhau bod cyllid yn cael yr effaith fwyaf posibl.

Fodd bynnag, mae'r galw cynyddol a'r pwysau ar gostau—yn enwedig ym maes gofal cartref a gofal preswyl—yn gofyn am weithredu ar fyrder. Gallai'r camau i'w cymryd ar unwaith gynnwys llunio rhagamcanion cyllidebol realistig, clustnodi buddsoddiad ar gyfer gwasanaethau ataliol, a chomisiynu cydweithredol ag iechyd a phartneriaid yn y trydydd sector. Mae cynaliadwyedd yn yr hirdymor yn dibynnu ar fuddsoddi'n barhaus yn y gweithlu, ffioedd teg gan ddarparwyr, ac arloesi digidol, sydd oll yn cael eu blaenoriaethu gan y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth.

4. **Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod gwelliant o ran recriwtio a chadw'r gweithlu, er mwyn sicrhau ansawdd, digonolrwydd a chynaliadwyedd y gweithlu?**

Mae awdurdodau lleol wedi mabwysiadu mentrau i hybu prosesau recriwtio a chadw staff, a chynaliadwyedd yn y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae cynllun "tyfu ein rhai ein hunain" Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n cynnwys prentisiaethau a hyfforddeiaethau, wedi lleihau ei ddibyniaeth ar staff asiantaeth ac wedi gwella cyfraddau cadw staff. Mae Ynys Môn yn blaenoriaethu hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma a goruchwyliaeth fyfyriol er mwyn cefnogi llesiant staff, a hefyd noddi cymwysterau proffesiynol. Mae Cyngor Caerdydd wedi gwella prosesau recriwtio drwy ei dîm canolog, partneriaethau cadarn â phrifysgolion, ac Academi Gofalwyr Caerdydd, sy'n cynnig cymorth penodol i weithwyr mudol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu gwaith cynllunio'r gweithlu fel blaenoriaeth i Gofal Cymdeithasol Cymru, sy'n gweithio gyda'r holl awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau gweithredu i gefnogi eu gwaith ar gynllunio'r gweithlu. Mae hyn yn cynnwys datblygu rhwydwaith o gysylltiadau sy'n gyfrifol am gynllunio'r gweithlu, er mwyn galluogi cymorth gan gymheiriaid a dysgu gweithredol ac ystyried sut i ddatblygu adnoddau cenedlaethol.

Fodd bynnag, erys heriau o hyd, gyda swyddi gwag mynych mewn rolau gofal cartref ac arbenigol. Mae awdurdodau yn pwysleisio'r angen am dâl cystadleuol, cydraddoldeb â rolau yn y sector iechyd, a hyfforddiant achrededig. Mae trefniadau gwaith hyblyg a mentrau llesiant yn allweddol i leihau achosion o ddiffygio.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol ar fesurau sydd wedi'u hanelu at wella tâl, telerau ac amodau i weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Fforwm wrthi'n cwblhau Fframwaith Tâl a Dilyniant ar gyfer Gofal Cymdeithasol, a fydd yn tynnu sylw at yr holl rolau a chyfleoedd i gamu ymlaen ym maes gofal cymdeithasol, gyda'r nod o hyrwyddo gofal cymdeithasol fel gyrfa am oes. Mae'r Fforwm hefyd yn rhoi cymorth i Lywodraeth Cymru ar y gwaith gyda Llywodraeth y DU drwy'r Bil Hawliau Cyflogaeth, i gyflwyno Cytundebau Cyflog Teg mewn gofal cymdeithasol.

5. **Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod gwelliant o ran mecanweithiau llywodraeth leol ac atebolrwydd ar gyfer cyflawni hawliau pobl o dan y Ddeddf heb orfod troi at broses gwyno wrthwynebol?**

Yng Nghymru, mae'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol yn gyfrifol yn genedlaethol am bennu polisïau, deddfwriaeth, blaenoriaethau a chyllid ar gyfer gofal cymdeithasol, ac mae'n atebol i'r Senedd. Mae awdurdodau lleol, ar y llaw arall, yn ysgwyddo'r ddyletswydd statudol i asesu anghenion, diogelu pobl, comisiynu a darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol o ddydd i ddydd yn eu cymunedau.

Mae mentrau megis Fframwaith Sicrhau Ansawdd Ceredigion a'i Fforwm Chwarterol i Ymarferwyr, a digwyddiadau ymgysylltu ac arolygon o foddhad Conwy, yn ei gwneud yn bosibl i gael adborth rheolaidd gan ddefnyddwyr gwasanaethau a staff, gan sicrhau yr ymdrinnir â phryderon cyn eu bod yn troi'n gŵynion ffurfiol. Mae llwybrau uwchgyfeirio clir, hunanasesu, fforymau i gymheiriaid a chraffu rheolaidd—a welir yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Gwynedd—yn meithrin diwylliant o ddysgu a gwelliant parhaus. Mae adroddiadau gan Gyngor Caerffili a Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn pwysleisio pwysigrwydd datrys cwynion yn gynnar, eiriolaeth annibynnol, a dangosfyrddau perfformiad hygyrch. Mae cydgynhyrchu wrth lunio gwasanaethau, a hyrwyddir gan awdurdodau fel Wrecsam a Sir Ddinbych, yn sicrhau bod lleisiau unigolion yn llywio penderfyniadau o'r cychwyn cyntaf. Bydd arweinyddiaeth genedlaethol gan Lywodraeth Cymru ar safonau, a gefnogir gan drefniadau llywodraethu lleol cadarn, adnoddau adborth digidol, ac ymgysylltu rheolaidd, yn cryfhau atebolrwydd ac yn lleihau dibyniaeth ar brosesau cwyno gwrthwynebol.

6. **Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod gwelliant o ran asiantaeth dinasyddion i sicrhau bod lleisiau'r rhai nad ydyn nhw'n cael eu clywed yn aml, a hefyd yn cael eu gwthio i'r ymylon, yn atseinio, gan arwain at newid sylweddol yn eu profiadau?**

Mae awdurdodau lleol wedi rhoi mentrau â ffocws ar waith i chwyddo lleisiau'r rhai a glywir yn anfynych a grwpiau wedi'u hymyleiddio, gan wella eu galluogedd a'u profiadau mewn gofal cymdeithasol. Mae Fframwaith Cyfranogi Caerdydd a llwyfannau digidol, megis "Gwrandewch, Siaradwch", yn grymuso plant a phobl ifanc i ddylanwadu ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu llunio, ac mae grwpiau Sir Ddinbych yn sicrhau bod gofalwyr a'r rhai ag anghenion ychwanegol yn cael eu clywed. O ganlyniad i gynnwys Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, hyfforddiant gorfodol ar ymwybyddiaeth ddiwylliannol, a gwasanaethau eirioli wedi'u targedu, mae'n hyrwyddo cydraddoldeb a gofal diwylliannol gymwys, sy'n lleihau rhwystrau i leiafrifoedd ethnig. Mae cynghorau hefyd yn cyfieithu adnoddau ysgrifenedig ac yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu i feithrin cynhwysiant.

Er mwyn gwella galluogedd dinasyddion ymhellach, mae awdurdodau lleol yn ymgorffori fframweithiau cydgynhyrchu mewn gwaith cynllunio gwasanaethau, sefydlu paneli ymgysylltu â'r gymuned, a defnyddio fformatau cyfathrebu hygyrch a digidol i gyrraedd poblogaethau gwledig ac wedi'u hymyleiddio. Mae ymarfer diwylliannol gymwys ac allgymorth wedi'i dargedu yn parhau'n flaenoriaethau i grwpiau megis gofalwyr, pobl anabl, a lleiafrifoedd ethnig. Bydd canllawiau cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â strategaethau lleol a chymorth eiriolaeth, yn cryfhau ymgysylltu cynhwysol. Mae'r camau gweithredu hyn yn sicrhau bod profiadau bywyd yn llywio polisïau ac ymarfer yn uniongyrchol, gan sbarduno gwelliannau mewn canlyniadau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau cenedlaethol sy’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fynd ati’n rhagweithiol i glywed a gweithredu ar leisiau grwpiau lleiafrifol ac wedi’u hymyleiddio mewn gofal cymdeithasol. Mae canllawiau statudol o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 wedi sefydlu Corff Llais y Dinesydd, Llais, i gynrychioli profiad bywyd a dylanwadu ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu gwella ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Atgyfnerthir hyn gan gynnwys Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, sy’n gwneud ymgysylltu diwylliannol gymwys ac atebolrwydd am newid yn orfodol.

Wrth gomisiynu, mae’r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth a’r canllawiau ar gydraddoldeb sy’n cyd-fynd â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau fynd i’r afael ag anghydraddoldebau a thystiolaeth ynglŷn â sut mae ymgysylltu â grwpiau lleiafrifol wedi llywio penderfyniadau a chanlyniadau.

7. **Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod gwelliant o ran ystod ac ansawdd y mathau arloesol o gymorth a gyfeirir gan ddinasyddion sydd ar gael o dan y Ddeddf gan gynnwys, ond yn bwysig, heb fod yn gyfyngedig i Daliadau Uniongyrchol?**

Mae awdurdodau lleol yn ehangu cymorth a gyfarwyddir gan ddinasyddion o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), gan symud ymhell y tu hwnt i Daliadau Uniongyrchol i gynnig opsiynau wedi’u personoli, amrywiol. Mae rhaglen microfentrau a Phorth Eiriolaeth digidol Caerdydd yn galluogi unigolion i deilwra gofal a dewis cynorthwywyr personol sy’n adlewyrchu eu hanghenion diwylliannol. Mae darpariaeth ychwanegol Conwy mewn perthynas â Thaliadau Uniongyrchol yn cynnwys dewisiadau amgen yn lle gwasanaethau preswyl, taliadau anuniongyrchol a reolir gan y cyngor, a chymorth i ofalwyr hunangyflogedig a micro-asiantaethau. Mae awdurdodau yn blaenoriaethu cynlluniau cymorth a gydgynhyrchwyd, hyfforddiant sy’n seiliedig ar hyfforddiant, a chyfleoedd rhwng cenedlaethau i rymuso dinasyddion.

Mae’r adroddiadau diweddar yn pwysleisio’r angen am gyllidebau wedi’u personoli, datblygu micro-fentrau, a broceriaeth gymunedol i gynnig y dewis a’r rheolaeth fwyaf posibl. Mae llwyfannau digidol yn cael eu defnyddio fwyfwy i reoli cynlluniau cymorth, sy’n cynnig tryloywder a hyblygrwydd. Mae blaenoriaethau allweddol i wella cymorth a gyfarwyddir gan ddinasyddion ymhellach yn cynnwys hyfforddiant i staff mewn dulliau gweithredu seiliedig ar gryfderau, sy’n sicrhau bod dinasyddion yn cael gwybodaeth lawn am eu hopsiynau, ac ymgorffori cydgynhyrchu wrth gomisiynu. Mae canllawiau cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â chynlluniau peilot lleol a threfniadau monitro cadarn, yn helpu i sicrhau bod y datblygiadau arloesol hyn yn sicrhau canlyniadau ystyrlon a gwell llesiant i unigolion ledled Cymru.

**8. Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod gwelliant o ran cefnogaeth i'r unigolion egwyddorol a brwdfrydig hynny sydd mewn sefyllfa i hyrwyddo a helpu i ymgorffori ymarfer cydgynhyrchiol?**

Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn ymrwymedig i gefnogi unigolion drwy hyrwyddo ymarfer cydgynhyrchu, gan gydnabod eu rôl hollbwysig o ran meithrin newid diwylliannol a chynnwys dinasyddion mewn ffordd ystyrlon. Mae gweithgarwch wedi'i dargedu i ddatblygu'r gweithlu—gan gynnwys modelau seiliedig ar gryfderau a mentora—yn grymuso'r rhai sy'n dymuno arwain cydgynhyrchu. Cefnogir hyn gan sefydliadau megis Canolfan y DU i Wella Gofal Cymdeithasol Oedolion (IMPACT) sy'n hyrwyddo cydgynhyrchu i wneud gwahaniaeth i wasanaethau rheng flaen, a'r ffordd y darperir gofal cymdeithasol.

Mae Sir Gaerfyrddin yn ychwanegu at y dull hwn drwy rwydweithiau cymheiriaid, rhaglenni arweinyddiaeth, a fframweithiau cydnabod ffurfiol, gan gynnwys pecynnau cymorth a chanllawiau i hyrwyddwyr cydgynhyrchu. Ledled Cymru, mae awdurdodau yn cynnig hyfforddiant, cymorth gan gymheiriaid, a chyfleoedd i unigolion â chymhelliant i ddylanwadu ar ddiwylliant sefydliadol a pholisïau. Mae awdurdodau lleol wedi disgrifio angen am y gydnabyddiaeth strwythuredig, y rolau arweinyddiaeth penodedig, a'r fframweithiau cenedlaethol a bennir gan Lywodraeth Cymru. Mae awdurdodau lleol hefyd yn cydnabod y dylai strategaethau lleol flaenoriaethu mentora, meithrin gallu, a dyrannu adnoddau, ac y dylid monitro cynnydd drwy adborth gan staff a defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r mesurau hyn gyda'i gilydd yn anelu at ymgorffori cydgynhyrchu fel gwerth craidd ym mhob rhan o ofal cymdeithasol, gan sicrhau bod hyrwyddwyr yn cael eu grymuso i sbarduno newid cadarnhaol o'r tu mewn i dimau ac wrth ddarparu pob gwasanaeth.

**9. Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod gwelliant o ran dealltwriaeth o faterion sylfaenol a ffactorau achosol i lywio strategaethau atal mewn gofal cymdeithasol ochr yn ochr â modelau effeithiol, adnoddau a newidiadau yn hinsawdd y sefydliadau?**

Mae awdurdodau lleol yn cryfhau gweithgarwch atal ym maes gofal cymdeithasol drwy fuddsoddi mewn gwaith dadansoddi data, ymchwil gydweithredol, a dysgu sefydliadol er mwyn deall achosion sylfaenol a llywio ymyriadau cynnar. Mae Sir Gaerfyrddin yn defnyddio modelu rhagfynegol ac adolygiadau thematig, gan ffurfio partneriaethau â chyrff ymchwil a phaneli profiad bywyd er mwyn sicrhau bod strategaethau yn targedu problemau sylfaenol, nid dim ond symptomau. Mae Caerdydd yn cyflogi dangosfyrddau perfformiad, hunanasesu a phecyn cymorth atal, ynghyd â strategaethau fel y mentrau Heneiddio'n Dda ac Anabledd Dysgu a lywir gan fewnbwn demograffig a chymunedol. Mae hyfforddiant i'r gweithlu ac ymarfer myfyriol yn ategu'r dulliau gweithredu hyn, gan feithrin gwelliant parhaus.

Mae adroddiadau gan Gyngor Sir y Fflint a Gwynedd yn pwysleisio systemau deallusrwydd i adnabod patrymau o ran tlodi, anghydraddoldebau iechyd, a galw, ac mae Wrecsam a Sir Benfro yn canolbwyntio ar hyfforddiant i staff ar ddadansoddi achosion sylfaenol ac ymgorffori ymarfer seiliedig ar gryfderau i newid y diwylliant sefydliadol o ymateb mewn argyfwng i weithgarwch atal. Argymhellir canllawiau cenedlaethol, prosesau effeithiol o ddyrannu adnoddau, a phaneli amlasiantaethol lleol i ymgorffori modelau ataliol wrth gomisiynu ac mewn ymarfer.

Bydd y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth yn cyhoeddi ymchwil yn ddiweddarach eleni ar rôl awdurdodau lleol i ddarparu gofal cymdeithasol ataliol. Mae'r mesurau hyn gyda'i gilydd yn anelu at wneud atal yn egwyddor greiddiol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gyda gwelliant parhaus wrth wraidd y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.

**10. Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod gwelliant o ran cydbwysedd rhwng rhai o'r tensiynau sy'n croes-dynnu o ran y ddyletswydd i gwrdd â'r ddarpariaeth a bennir yn lleol i ddiwallu anghenion gofal cymdeithasol (fel y'u nodwyd gan yr Asesiadau Poblogaeth ac a ddiffinnir mewn Cynlluniau Ardal), a phwysigrwydd darparu gofal cymdeithasol 'cyffredinol' waeth beth fo'r ddaearyddiaeth sy'n osgoi 'loteri cod post', yn brigo i'r wyneb?**

Mae awdurdodau lleol yn ymdrechu i gydbwyso hyblygrwydd lleol wrth ddarparu gofal cymdeithasol â safonau cyffredinol i osgoi 'loteri cod post'. Mae cydweithio yn amlwg mewn mentrau fel Canolfan Asesu Bwthyn y Ddôl Conwy a Sir Ddinbych a Hwb Cyngor, Cymorth ac Amddiffyn i Deuluoedd integredig Caerdydd, sy'n sicrhau bod gwasanaethau yn hygyrch, ni waeth ble mae rhywun wedi'i leoli. Mae fframweithiau comisiynu rhanbarthol, cyllidebau cyfun, a meini prawf cymhwystra yn lleihau anghysondebau rhanbarthol, ac mae llwyfannau digidol yn gwella tryloywder ac yn monitro canlyniadau. Mae adroddiadau blynyddol awdurdodau lleol yn pwysleisio'r angen am fframweithiau cenedlaethol clir a safonau gwasanaeth gofynnol, a bennir gan Lywodraeth Cymru, er mwyn gwarantu tegwch, ond sy'n eu galluogi i arloesi'n lleol o hyd yn unol ag Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth a Chynlluniau Ardal. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ymgysylltu â dinasyddion, a threfniadau cyllido ar y cyd yn sail i'r dull gweithredu hwn, gan sicrhau cysondeb a chynnal egwyddorion cyffredinol sy'n seiliedig ar hawliau, lle mae Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn arwain y gwaith o gysoni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Nod y camau gweithredu hyn yw ymgorffori cydgynhyrchu a mynediad cyffredinol ochr yn ochr â chymorth pwrpasol yn y gymuned o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**11. Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod gwelliant o ran adfywio ac ailddiffinio'r syniadau rhyng-gysylltiedig sy'n sail i egwyddorion allweddol y Ddeddf, i ailennyn diddordeb pobl a chadw'r egwyddorion yn ddeinamig?**

Mae awdurdodau lleol yn ailfywiogi egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) drwy eu hymgorffori mewn diwylliant sefydliadol, datblygu staff, a chynnwys dinasyddion. Er enghraifft, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn defnyddio "paneli straeon" ac adborth "Newid Mwyaf Sylweddol" i sicrhau egwyddorion fel llais, dewis, a chydgynhyrchu yn ganolog i ymarfer o ddydd i ddydd, a ategir gan hyfforddiant sy'n seiliedig ar gryfderau. Ledled Cymru, mae ymarfer myfyriol, fforymau arweinyddiaeth, a fforymau cydgynhyrchu yn cael eu defnyddio i adnewyddu a mabwysiadu egwyddorion craidd y Ddeddf. Mae ardaloedd megis Torfaen a Chastell-nedd Port Talbot yn tynnu sylw at yr angen am ymgysylltu rheolaidd a deialog gynhwysol â dinasyddion ac ymarferwyr, ac mae Wrecsam a Sir Benfro yn pwysleisio arweinyddiaeth a chydweithio. Ymhlith y camau gweithredu a argymhellwyd gan awdurdodau lleol mae ymgorffori egwyddorion mewn hyfforddiant, defnyddio mesurau

sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a rhannu gwersi a ddysgwyd drwy lwyfannau digidol. Rôl Llywodraeth Cymru yw rhoi canllawiau wedi'u diweddaru a chynnal ymgyrchoedd cenedlaethol, a bydd y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn datblygu strategaethau ymgysylltu lleol, gan sicrhau bod yr egwyddorion yn dal i fod yn weithredol, yn berthnasol ac yn sbardun i arloesi o hyd ym maes gofal cymdeithasol.

**12. Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod gwelliant o ran datblygu hinsawdd o arloesedd, creadigrwydd a gwella ansawdd, yn hytrach na dim ond cydymffurfio?**

Mae awdurdodau lleol yn symud y tu hwnt i gydymffurfio yn unig i feithrin diwylliant sy'n canolbwyntio ar arloesedd a gwella ansawdd yn barhaus ym maes gofal cymdeithasol. Mae menter "Ynys sy'n Wybodus am Drawma" Ynys Môn yn enghraifft o hyn, sydd wedi hyfforddi dros 700 o staff a phartneriaid mewn dulliau sy'n ystyriol o drawma ac sy'n ymgorffori ymarfer myfyriol yn eu holl weithrediadau o ddydd i ddydd. Anogir staff i ymgymryd â rhagor o hyfforddiant ac arbrofi ag anoddau digidol, ac maent yn cael eu cydnabod am waith arloesol.

Ledled Cymru, mae mentrau yn grymuso staff a dinasyddion i lunio gwasanaethau a sbarduno gwelliannau. Cefnogir hyn gan sefydliadau megis Gofal Cymdeithasol Cymru, sy'n gweithredu i gefnogi'r sector cyfan i arloesi drwy ei strategaeth Ymlaen.

Mae awdurdodau lleol yn tynnu sylw at bwysigrwydd arweinyddiaeth o ran ymgorffori arloesedd fel gwerth sefydliadol craidd. Ymhlith y camau gweithredu a argymhellwyd ganddynt hefyd mae sefydlu hybiau arloesedd, rhoi cymhelliant i staff dreialu dulliau gweithredu newydd, a chymhwyso'r hyn a ddeellir o ddata i ail-lunio gwasanaethau.

Mae cydgynhyrchu â dinasyddion yn sicrhau bod datrysiadau yn adlewyrchu profiad bywyd, ac mae cyllid hyblyg a fframweithiau cenedlaethol cefnogol gan Lywodraeth Cymru yn hanfodol er mwyn gwobrwyo gwelliant. Mae Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn disgrifio sut y dylent arwain cylchoedd gwella ansawdd lleol, gan roi hyfforddiant ar feddylfryd dylunio ac adnoddau digidol, a gosod y sylfaen ar gyfer diwylliant dynamig sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

13. **Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod gwelliant o ran rôl a statws sydd gan fentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol o dan y Ddeddf er mwyn cefnogi unigolion, gofalwyr a chymunedau yn well?**

Mae awdurdodau lleol yn hyrwyddo mentrau cymdeithasol a chydweithrediadau fwyfwy fel partneriaid hollbwysig i ddarparu gofal cymdeithasol arloesol yn y gymuned, a gefnogir gan sefydliadau megis Cwmpas, sy'n gweithredu i gefnogi cydweithrediadau cymdeithasol yng Nghymru.

Mae prosiectau fel Micro-Ofal Sir y Fflint yn dangos sut mae darparwyr lleol, bach—mentrau cymdeithasol neu gydweithrediaethau yn aml—yn cynnig cymorth hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n llenwi bylchau a adawyd gan wasanaethau traddodiadol. Ledled Cymru, mae cynghorau yn comisiynu'r sefydliadau hyn ar gyfer eiriolaeth, gwasanaethau dydd, a

gweithgareddau cymunedol, gan ymgorffori cydgynhyrchu a gwerth cymdeithasol wrth gaffael er mwyn grymuso dinasyddion a chryfhau economïau lleol.

Er mwyn ychwanegu at eu rôl ymhellach o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, anogir awdurdodau i integreiddio mentrau cymdeithasol a chydweithrediaethau yn ffurfiol mewn fframweithiau comisiynu, creu cyfeirlyfrau rhanbarthol, a rhoi grantiau meithrin gallu. Mae awdurdodau lleol yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys y sefydliadau hyn wrth lunio gwasanaethau, nid dim ond wrth eu darparu, ac y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i osod canllawiau a ffrydiau cyllido clir. Mae'r Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn ceisio rhoi strategaethau ymgysylltu a chaffael lleol ar waith sy'n blaenoriaethu gwerth cymdeithasol, gan sicrhau bod y farchnad darparwyr yn amrywiol ac yn wydn, a chefnogi unigolion, gofalwyr, a chymunedau yn effeithiol.

### 14. Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod gwelliant o ran i ba raddau y mae arferion da, a gwybodaeth o'r system yn 'teithio' ledled Cymru?

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi trefniadau'r System Gofal Cymunedol Integredig ar waith i alluogi arweinyddiaeth gydweithredol a sbarduno trawsnewidiad yn y ffordd y mae rhanbarthau yn gweithio gyda'i gilydd ac yn dysgu oddi wrth ei gilydd. Un elfen ganolog o'r trefniadau hyn yw'r cyfarfodydd Meithrin Gallu Cymunedau, sy'n dod ag arweinwyr rhanbarthol ynghyd i fod yn fforwm i rannu enghreifftiau o arferion da a gwybodaeth systemau. Drwy hyn, gall rhanbarthau ddysgu oddi wrth ei gilydd a chymhwyso strategaethau llwyddiannus yn eu hardaloedd eu hunain.

Mae'r hyn a ddysgir o'r cyfarfodydd hyn yn cael ei ddefnyddio i lywio'r Grŵp Cyflawni Cenedlaethol, gan sicrhau bod profiadau lleol a rhanbarthol yn cael effaith ar ddealltwriaeth genedlaethol a'r broses o bennu blaenoriaethau. Drwy'r cyfarfodydd rheolaidd hyn, mae arweinwyr gwasanaethau yn cael cyfleoedd gwerthfawr i drafod enghreifftiau lleol o ymarfer effeithiol, a hefyd ymateb i heriau systemau ac ystyried cyfleoedd i wella fel partneriaethau rhanbarthol. Ymhlith yr enghreifftiau o hyn mae gwaith Sir Gaerfyrddin â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru sy'n tynnu sylw at y ffordd y mae comisiynu ar y cyd ac adolygiadau thematig yn lledaenu dulliau arloesol rhwng siroedd. Yn yr un modd, mae ymwneud Sir Ddinbych a Chonwy â gweithgorau cenedlaethol, y defnydd o becynnau cymorth a rennir, a lledaenu gwersi a ddysgwyd o brosiectau peilot yn cefnogi cysondeb a gwelliant o ran y ffordd y darperir gofal cymdeithasol.

**Fforwm Ymarfer Da Gofal Cymdeithasol**

Mae'r Fforwm Ymarfer Da Gofal Cymdeithasol yn cael ei hwyluso gan y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth mewn partneriaeth â Gofal Cymdeithasol Cymru a chydweithwyr o dimau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae'r fforwm yn canolbwyntio ar rannu gwersi thematig a ddysgwyd a chryfhau'r cysylltiad rhwng polisi ac ymarfer. Gan ddefnyddio tystiolaeth ymchwil, mae awdurdodau lleol yn dangos enghreifftiau o ymarfer nodedig, lle mae trafodaethau yn canolbwyntio ar ddysgu dros Gymru gyfan a'r posibilrwydd o fabwysiadu ac addasu'r dulliau gweithredu hyn mewn ardaloedd eraill.

Gyda mewnbwn gan y sector gofal cymdeithasol, mabwysiadodd y fforwm ddull gweithredu ar ei newydd wedd yn 2025-26, a oedd yn canolbwyntio ar themâu a nodwyd gan aelodau'r fforwm. Mae sesiynau diweddar wedi ystyried recriwtio a chadw'r gweithlu, llesiant staff gyda ffocws penoodol ar gymorth datgywasgu a thrawma, datblygiadau arloesol digidol sy'n

cefnogi effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaethau a dulliau gweithredu sy’n cael eu mabwysiadu i gyflawni’r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth. Mae trafodaethau’r fforwm yn gysylltiedig â chylchlythyr y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth, sy’n galluogi partneriaid i greu cysylltiadau, rhannu gwersi a ddysgwyd, a mabwysiadu arferion da yn eu sefydliadau eu hunain.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn mynd ati i ehangu cyrhaeddiad arferion da drwy wefan ei Grŵp Gwybodaeth a’i adnodd Porwr prosiectau. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cefnogi’r sector drwy rannu data drwy ei borth data, crynodebau o dystiolaeth, gan sefydlu cymunedau ymarfer sy’n cynnwys dysgu rheolaidd gan gymheiriaid, a choetsio a mentora ar gyfer arloesi a gwerthuso. Mae Llywodraeth Cymru yn ychwanegu ymhellach at hyn drwy’r cymunedau rhannu gwybodaeth i gefnogi’r Fframwaith Comisiynu Cenedlaetholnewydd.

**15. Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod gwelliant o ran ansawdd, ystod, cysondeb, a gweithredu casglu, dadansoddi a dehongli data er mwyn llywio gwella ansawdd a datblygu gwasanaethau?**

Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn gwella’r ffordd y caiff data eu casglu a’u dadansoddi er mwyn sbarduno’r broses o wella ansawdd mewn gofal cymdeithasol. Dros y tair blynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu’r cyfrifiad newydd o Oedolion sy’n Derbyn Gofal a Chymorth a’r cyfrifiad o Ofalwyr Di-dâl, er mwyn gwella’r ddealltwriaeth genedlaethol o ba ofal sy’n cael ei ddarparu ac i bwy.

Yn yr un modd, mae dangosfyrddau integredig a system rheoli achosion Caerdydd yn ei gwneud yn bosibl i olrhain dangosyddion allweddol mewn amser real, sy’n helpu rheolwyr i nodi tueddiadau ac ymateb i heriau’n gyflym. Mae Sir Gaerfyrddin a chynghorau eraill yn buddsoddi mewn dadansoddeg ragfynegol a deallusrwydd a rennir, sy’n helpu i nodi risgiau yn gynnar a gwneud ymyriadau ataliol. Ceir pwyslais cynyddol ar ymgorffori llythrennedd data, safoni prosesau adrodd, a chyfuno adborth dinasyddion â data meintiol er mwyn gwella gwasanaethau’n barhaus.

Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol yn argymell y dylid sefydlu safonau data cenedlaethol—megis meysydd gorfodol a chodio ar gyfer iaith a statws gofalwr—er mwyn sicrhau mwy o gysondeb. Byddai model data unedig a metaddata a rennir yn ei gwneud yn bosibl i ddangosfyrddau lleol gyfrannu at ddarlun cenedlaethol cydlynol. Mae awdurdodau lleol wedi cynnig gwiriadau ansawdd data awtomataidd ac adroddiadau aeddfedrwydd chwarterol, ochr yn ochr â mwy o ddadansoddwyr a hyfforddiant ar ddadansoddi achosion sylfaenol a mesur canlyniadau. Pe bai’r dulliau a ddefnyddiwyd i greu dangosfyrddau yn cael eu cyhoeddi gallai hynny ei gwneud yn haws i’w dehongli a’u cymharu, a thrwy sicrhau bod gwaith comisiynu yn cyd-fynd â’r dystiolaeth a cyllido dadansoddeg atal bydd hynny’n sicrhau bod gwybodaeth o’r fath yn llywio’r broses o ail-lunio gwasanaethau yn uniongyrchol.

**16. Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod gwelliant o ran cynllunio poblogaeth a phrosesau ymgysylltu sy’n ymglymu’n ystyrlon â phoblogaethau lleol ynghylch yr anghenion?**

Mae awdurdodau lleol wedi cymryd camau breision i gynnwys cymunedau lleol yn y gwaith o lunio gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae ymgysylltu lleol bellach wedi'i ymgorffori'n eang, ac mae ymgyngoriadau rheolaidd, dulliau o roi adborth, a fforymau partneriaeth yn helpu i nodi anghenion lleol a'u diwallu. Mae Conwy yn enghraifft o'r dull gweithredu hwn. Mae'n defnyddio paneli amlasiantaethol a fframwaith ymgysylltu sy'n cynnwys teuluoedd mewn prosesau gwneud penderfyniadau, sy'n arwain at well canlyniadau a chyfraddau boddhad uchel ymhlith teuluoedd.

Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd hwn, erys heriau o hyd. Nid yw'r gweithgarwch ymgysylltu yn gyson nac yn hygyrch bob amser, yn enwedig i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol megis pobl anabl, lleiafrifoedd ethnig, a'r rhai mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd difreintiedig. Nid yw'r dulliau gweithredu presennol—fel arolygon a fforymau—bob amser yn cyrraedd pawb, ac mae rhai trigolion yn teimlo eu bod wedi eu datgysylltu oddi wrth y broses neu eu bod yn ansicr a yw eu cyfraniadau yn gwneud gwahaniaeth.

Er mwyn gwella cynhwysiant, caiff awdurdodau lleol eu hannog i fabwysiadu dulliau mwy creadigol ac amrywiol o ymgysylltu, megis allgymorth cymunedol, gweithdai cydgynhyrchu, a mentrau a arweinir gan gymheiriaid. Mae angen cyfathrebu'n gliriach ynglŷn â sut y caiff mewnbwn y cyhoedd ei ddefnyddio, ynghyd â deialog barhaus, er mwyn ennyn ymddiriedaeth a sicrhau bod y gweithgarwch ymgysylltu yn dylanwadu ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu llunio mewn gwirionedd. Bydd partneriaethau cryfach â sefydliadau yn y trydydd sector, ysgolion, a busnesau lleol hefyd yn gwella gweithgarwch ymgysylltu parhaus ac ymatebol.

17. **Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod gwelliant o ran gwybodaeth, cyngor a chymorth sydd ym meddiant defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr cyn ac ar fynediad i'r system gofal cymdeithasol, ochr yn ochr â dealltwriaeth o'u hawliau o dan y Ddeddf, fel bod eu disgwyliadau'n cael eu rheoli'n briodol?**

Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi sefydlu rhwydwaith gwybodaeth, cyngor a chymorth cenedlaethol i ddwyn arweinwyr gwybodaeth, cyngor a chymorth o bob rhan o Gymru ynghyd i rannu arferion da a gwersi a ddysgwyd, gan roi cyfleoedd i awdurdodau lleol ddysgu oddi wrth ei gilydd i wella'r ffordd y darperir gwybodaeth, cyngor a chymorth yn lleol.

Mae awdurdodau lleol hefyd wedi gwella'r wybodaeth, y cyngor a'r cymorth a roddir i ddefnyddwyr gofal cymdeithasol a gofalwyr. Mae'n werth nodi Canolfan Byw'n Annibynnol Penmorfa Ceredigion, sy'n cynnig cyngor hygyrch ac adnoddau hunanasesu ac sy'n cefnogi dewisiadau ar sail gwybodaeth, ac mae Fframwaith Sicrwydd Ansawdd yn casglu adborth i fireinio gwasanaethau. Er gwaethaf y cynnydd hwn, erys anghysondebau o hyd; mae defnyddwyr a gofalwyr yn aml yn wynebu llwybrau atgyfeirio a meini prawf cymhwystra aneglur, ac nid yw aelodau o staff bob amser yn ddigon hyderus i gyfeirio unigolion at gymorth nac esbonio hawliau statudol. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, dylai awdurdodau flaenoriaethu hyfforddiant i staff mewn prosesau cyfathrebu seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac ehangu allgymorth mewn sawl fformat ac iaith. Bydd cydgynhyrchu adnoddau â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, ochr yn ochr ag adborth rheolaidd, yn fodd i wella eglurder a grymuso ymhellach. Mae mwy o integreiddio rhwng iechyd, gofal cymdeithasol, a phartneriaid yn y trydydd sector hefyd yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth cydgysylltiedig a di-dor, a fydd

yn lleihau dryswch ac yn sicrhau bod disgwyliadau yn cael eu rheoli'n dda o'r cychwyn cyntaf.

18. **Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod gwelliant o ran gweithio ac ymarfer aml-asiantaethol (gan gynnwys diogelu), ac yn yr arferion o weithio o bell ac o hirbell ar gyfer rhai mathau o ryngweithio?**

Mae Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, y GIG a'r trydydd sector, wedi sefydlu Fframwaith y System Gofal Cymunedol Integredig i Gymru. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn defnyddio'r fframwaith hwn, a gefnogir gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, sy'n werth £146.8 miliwn, ac adnoddau eraill, i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth cymunedol mwy cydgysylltiedig.

Mae awdurdodau lleol wedi cryfhau gweithio a diogelu amlasiantaethol drwy ddulliau integredig, rhannu gwybodaeth yn well, a hyfforddiant ar y cyd. Mae mentrau megis hybiau diogelu amlasiantaethol (MASH), fforymau partneriaeth, a phrotocolau a rennir ag iechyd, addysg, yr heddlu, a phartneriaid yn y trydydd sector, wedi gwella ymatebolrwydd i anghenion cymhleth. Er enghraifft, mae Tîm Cryfhau Teuluoedd Conwy yn cydgysylltu ymyriadau wedi'u teilwra drwy baneli a fforymau wythnosol, ac mae adnodd digidol 'Gwrandewch, Siaradwch' Caerdydd yn cefnogi gweithgarwch diogelu o bell pan fydd cyswllt wyneb yn wyneb yn gyfyngedig.

Er mwyn adeiladu ar y datblygiadau hyn, mae awdurdodau yn ceisio systemau digidol a rhannu gwybodaeth mwy cyson, hyfforddiant ar y cyd er mwyn creu diwylliannau diogelu a rennir, a llwybrau uwchgyfeirio cliriach ar gyfer achosion cymhleth. Rhoddir pwyslais hefyd ar atebion cydgynhyrchu â defnyddwyr gwasanaethau a staff, gan lenwi bylchau mewn ymgysylltu ymhlith grwpiau wedi'u hymyleiddio, a buddsoddi mewn llwyfannau digidol, diogel sy'n ystyriol o ddefnyddwyr. Mae blaenoriaethau yn cynnwys hybu llythrennedd digidol i staff a theuluoedd, hyrwyddo cynhwysiant digidol, a gwerthuso effaith gweithio o bell ar arferion diogelu.

19. **Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod gwelliant o ran atebion technolegol sy'n galluogi pobl i fyw'n annibynnol, yn enwedig mewn cyd-destun ôl-bandemig o ran pwysau ar y system a phrinder gweithlu?**

Mae awdurdodau lleol yn gwneud defnydd cynyddol o dechnoleg i gefnogi byw'n annibynnol, yn enwedig mewn ymateb i bwysau ar systemau ar ôl y pandemig ac achosion o brinder staff o fewn y gweithlu. Mae cynghorau wedi buddsoddi mewn trawsnewid digidol ac ehangu teleofal, ac wedi cyflwyno technoleg gynorthwyol megis adnoddau hunanasesu a monitro seiliedig ar synwyryddion. Mae Canolfan Byw'n Annibynnol Penmorfa Ceredigion yn enghraifft o hyn. Mae'n cynnig amrywiaeth o gymhorthion digidol ac yn treialu sgyrsiau rhithwir sydd wedi hybu effeithlonrwydd gwasanaethau ac wedi grymuso trigolion, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, i reoli eu llesiant yn annibynnol. Er mwyn ychwanegu at yr atebion hyn ymhellach, mae awdurdodau lleol yn cydnabod bod angen gwell seilwaith digidol—yn enwedig mewn cymunedau gwledig a difreintiedig—systemau rheoli achosion integredig i rannu gwybodaeth yn ddi-dor, a chymorth llythrennedd digidol cynhwysfawr i staff a defnyddwyr gwasanaethau. Mae cydgynhyrchu technoleg â dinasyddion a darparu cymorth technegol parhaus hefyd yn flaenoriaethau. Byddai cyllid cynaliadwy a chydgysylltu

cenedlaethol yn helpu i ehangu datblygiadau arloesol llwyddiannus a sicrhau bod technoleg yn parhau i ddiwallu anghenion sy'n datblygu.

Mae Fframwaith Gofal Cymdeithasol Digidol (DiSC) Cymru yn bartneriaeth genedlaethol sy'n helpu sefydliadau gofal cymdeithasol yng Nghymru i ddefnyddio digidol, data a thechnoleg i wella canlyniadau i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, gofalwyr di-dâl a'r gweithlu. Mae wedi'i strwythuro ar y nod o sicrhau gwell adnoddau digidol, gwell gofal cymdeithasol, gwell bywydau, gan gynnwys ei gwneud yn bosibl i ddarparu gwasanaethau ataliol a gwydn sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn a helpu pobl i fyw'n annibynnol yn hirach, hyd yn oed pan fo pwysau ar systemau a phrinder staff o fewn y gweithlu.

Yn sail i DiSC Cymru y mae pedwar piler rhyng-gysylltiedig: Dechrau Cadarn, sy'n cryfhau sylfeini digidol megis sgiliau, data a phrosesau; Dyfeisgarwch Disglair, sy'n cefnogi arloesedd a threialu dulliau gweithredu newydd a'u cyflwyno ar raddfa addas; Darparu Gwybodaeth, sy'n hyrwyddo dysgu ar y cyd a lledaenu arferion da; a Datblygiad Arloesol, sy'n cysoni trawsnewid digidol â diwygiadau cenedlaethol a blaenoriaethau polisi.

## Atodiad D – Ansawdd Data a Ffynonellau

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014,

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: canllawiau statudol rhan 9 (trefniadau partneriaeth)

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)

Fframwaith Perfformiad a Gwella.

Darganfod ystadegau a data am Gymru | StatsCymru

Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol

Cwestiynau prawf y Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol:** canllawiau

Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth

Fframwaith Comisiynu Cenedlaethol,

Gofal Cymdeithasol Cymru

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

The-world-shrinks-carer-loneliness.pdf

Archwilio Cymru PDF: Adolygiad Dilynol o Drefniadau Corfforaethol ar gyfer Diogelu – Cyngor Dinas Casnewydd

Cyngor Sir Powys – Adolygiad Dilynol o'r Trefniadau Diogelu Cynnydd o ran mynd i'r afael â threfniadau diogelu corfforaethol – Cyngor Sir Powys

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – Dilyniant Diogelu Corfforaethol

Fframwaith Gofal Cymdeithasol Digidol (DiSC) Cymru

Gwrth-hiliaeth | Gofal Cymdeithasol Cymru

CANLLAWIAU STATUDOL AR SYLWADAU A GYFLWYNIR GAN GORFF LLAIS Y DINESYDD

https://www.arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2025-10/251013-AGC-Adroddiad-Blynyddol-2024-25-cy.pdf

Hafan | Archwilio Cymru